Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# 'Canllawiau cynllunio ymarferol i gefnogi datblygiad, yn enwedig darparu tai fforddiadwy, mewn dalgylchoedd afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yr effeithir arnynt gan ffosfforws'

## CANLLAWIAU YMARFEROL I AWDURDODAU CYHOEDDUS


**Paratowyd ar gyfer Llywodraeth Cymru**

**GAN**
**DTA ECOLOGY**

DTA Ecology
...continuing the work of
David Tyldesley & Associates

**Teitl y ddogfen:** **'Canllawiau cynllunio ymarferol i gefnogi datblygiad, yn enwedig darparu tai fforddiadwy, mewn dalgylchoedd afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig' – Canllawiau Ymarferol i Awdurdodau Cynllunio Lleol**


Rectory Farm
Finchampstead
Wokingham
Berkshire
RG40 4JY

Ffôn 0118 973 4700
dta@dtaecology.com
Gwefan: www.dtaecology.com


Cyf. Dogfen. 1182 Canllawiau Ffosffadau Drafft DTAE Dyddiad: Rhagfyr 2024

| | |
|---|---|
| Teitl byr y ddogfen: | 1182 LlC Canllawiau Ffosffadau Drafft DTAE Canllawiau Ymarferol ar gyfer i Awdurdodau Cynllunio Lleol |
| Dyddiad: | Rhagfyr 2024 |
| Statws: | TERFYNOL |
| Awdur(on): | Caroline Chapman, Alastair Burn. |
| Awdurdodwyd gan: | Caroline Chapman |

# Cynnwys

Cynnwys ... 3
1 Cyflwyniad ... 6
1.1 Cyflwyniad ... 6
1.2 Ar gyfer pwy mae'r canllawiau hyn? ... 6
1.3 Pryd ddylid defnyddio'r canllawiau hyn ... 6
1.4 Trosolwg o'r dull gweithredu ... 7
2 Cefndir a chyd-destun perthnasol ... 8
2.1 Yr angen i sicrhau datblygu ... 8
2.2 Sut mae afonydd dynodedig yn cael eu gwarchod ... 8
2.3 Sut y caniatawyd i lefelau maethynnau gyrraedd y lefelau presennol o fewn cyrsiau dŵr gwarchodedig? ... 9
2.4 Cyngor CNC ar gyfer darparu datblygiadau yng Nghymru sy'n effeithio ar afonydd ACA ... 11
2.5 Beth yw 'cyfran deg'? ... 11
2.6 Datblygiad newydd sy'n dibynnu ar drwyddedau presennol ... 12
3 Nod asesiad o dan Reoliadau 63 o'r Rheoliadau Cynefinoedd ... 14
3.1 Beth yw HRA a pha gwestiynau sy'n cael eu gofyn? ... 14
3.2 Cam 1 - Sgrinio am effeithiau arwyddocaol tebygol ... 14
3.3 Asesiad priodol a'r prawf uniondeb ... 15
3.4 Y broses randdirymu ... 15
4 Egwyddorion allweddol a pholisi Llywodraeth Cymru ... 16
4.1 Trosolwg ... 16
4.2 Egwyddor Allweddol 1 - Lleiaf beichus ... 16
4.3 Egwyddor Allweddol 2 - Dalgylch-benodol ... 17
4.4 Safbwyntiau Polisi Llywodraeth Cymru ... 18
5 Cyn i chi ddechrau - Cael y wybodaeth sylfaenol ... 21
5.1 Deall eich llinell sylfaen ... 21
5.2 Pa lefel o welliannau fydd yn cael eu cyflawni trwy fentrau eraill ... 21
6 Llwybr Cyflawni cam 1 – A ellir cyflawni datblygiad trwy ddull sy'n seiliedig ar drothwy? ... 24
6.1 Beth yw dull gweithredu sy'n seiliedig ar drothwy? ... 24
6.2 Cam 1a: Meintioli'r llwyth P ychwanegol o dai fforddiadwy ... 24
6.3 Dull synnwyr cyffredin sy'n seiliedig ar y sector ... 25
6.4 Sut mae'r defnydd o ddull sy'n seiliedig ar drothwy yn llywio'r HRA ... 27
6.5 Y camau nesaf ... 27

7 Llwybr Cyflawni cam 2 – A ellir cyflawni datblygiad yn absenoldeb lliniaru pellach? .................. 28
7.1 Cyngor CNC i awdurdodau cynllunio .................................................................................. 28
7.2 A ellir cyflawni datblygiad yn unol â chanllawiau CNC? ................................................... 28
8 Llwybr Cyflawni cam 3 – A ellir cyflawni datblygiad yn unol â dull sy'n seiliedig ar liniaru? ........ 30
8.1 Cyflwyniad ........................................................................................................................... 30
8.2 A yw camau gweithredu 'cyfran deg' eraill i gyflawni gwelliannau pellach wedi'u sicrhau? 30
8.3 A yw camau gweithredu 'cyfran deg' eraill i gyflawni gwelliannau angenrheidiol yn gyraeddadwy yn ymarferol? ................................................................................................. 31
8.4 Dull integredig o ddarparu mesurau rheoli, adfer a lliniaru .............................................. 32
8.5 A yw dull cafeat polisi i sicrhau cyd-ddibyniaeth rhwng cerrig milltir cyflawni cysylltiedig a thwf arfaethedig yn galluogi datblygiad i gael ei gyflawni mewn modd amserol? ......................... 33
8.6 A ellir sicrhau gweithgaredd lliniaru dan arweiniad datblygwyr i sicrhau niwtraliaeth maethynnau ar hyd oes y datblygiad? ........................................................................................ 34
9 Llwybr cyflawni cam 4 – A ellir cyflawni datblygiad trwy ddull sy'n seiliedig ar randdirymu? ..... 35
9.1 Cyflwyniad ........................................................................................................................... 35
9.2 Dangos absenoldeb datrysiadau amgen ............................................................................ 36
9.3 Resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig ................................................... 37
9.4 Mesurau cydbwyso .............................................................................................................. 38
10 Trosolwg o'r dull gweithredu ................................................................................................ 41
11 Canllawiau pellach - Dull integredig o ddarparu mesurau adfer, rheoli a lliniaru .................. 42
11.1 Nodau dull integredig o ddarparu mesurau adfer, rheoli a lliniaru? ................................. 42
11.2 Ymdrin ag Ansicrwydd ........................................................................................................ 43
11.3 Sut mae dull integredig o adfer, rheoli a lliniaru yn gweithio yn ymarferol – Cam 1 sicrhau camau i osgoi dirywiad / cyflawni adfer ........................................................................... 44
11.4 Sut mae dull integredig o adfer, rheoli a lliniaru yn gweithio yn ymarferol – Cam 2 nodi mesurau lliniaru integredig ...................................................................................................... 46
11.5 Sut mae dull integredig o adfer, rheoli a lliniaru yn gweithio yn ymarferol – Cam 3 sicrhau a chyflawni mesurau lliniaru integredig ...................................................................................... 49
11.6 Sut mae dull integredig o adfer, rheoli a lliniaru yn gweithio yn ymarferol – Cam 4 monitro a rheoli addasol ........................................................................................................................ 50
11.7 Dull integredig a'r system gynllunio .................................................................................. 51
11.8 Sut mae dull integredig o liniaru yn ymwneud â'r prawf uniondeb? ................................ 51
11.9 Ystyried y gofynion cyfunol ................................................................................................ 52
12 Canllawiau pellach - Mathau o fesurau lliniaru sy'n berthnasol i leihau maethynnau ............ 53
12.1 Cyflwyniad ........................................................................................................................... 53
12.2 Mesurau ar y safle ............................................................................................................... 53
12.3 Mesurau oddi ar y safle ....................................................................................................... 54

12.4 Mesurau a arweinir gan reoleiddio. ....................................................................... 54
12.5 Dewis Opsiwn Lliniaru ........................................................................................ 57
13 Canllawiau Pellach - Arfer pwerau statudol yn gymesur ........................................ 58
13.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ........................................ 58
13.2 Yr angen am bwerau statudol ............................................................................ 58
13.3 Y defnydd cymesur o bwerau statudol ................................................................ 59
14 Canllawiau Pellach - Dull cafeat polisi ..................................................................... 60
14.1 Yr angen i fynd i'r afael ag ansicrwydd ............................................................... 60
14.2 Beth yw dull cafeat polisi? .................................................................................. 60
15 Dulliau sicrhau niwtraliaeth maethynnau .................................................................. 62
15.1 Pryd i ystyried dulliau sicrhau niwtraliaeth maethynnau .................................... 62
15.2 Egwyddorion niwtraliaeth o ran maethynnau CNC .............................................. 62
15.3 Dangos niwtraliaeth maethynnau ........................................................................ 63
15.4 Niwtraliaeth maethynnau ar waith ...................................................................... 64

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Comisiynwyd y canllawiau hyn gan Lywodraeth Cymru i hwyluso'r gwaith o ddatblygu mewn dalgylchoedd afonydd dynodedig yr effeithir arnynt gan lefelau uchel o ffosfforws. Mae ffocws penodol y gwaith yn ymwneud â darparu tai fforddiadwy, ac yn cydnabod gwrthdaro posibl rhwng targed Llywodraeth Cymru i ddarparu 20,000 o dai fforddiadwy erbyn 2026, a'u dyletswyddau cyfochrog i adfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) dynodedig i statws cadwraeth ffafriol.

## 1.2 Ar gyfer pwy mae'r canllawiau hyn?

1.2.1 Mae'r canllawiau hyn ar gyfer cyrff cyhoeddus ac awdurdodau sy'n ymwneud ag asesiadau neu gynlluniau a phrosiectau sy'n effeithio ar ACAau afonol a'r gwaith o reoli safleoedd o'r fath yn unol â dyletswyddau statudol. Er ei fod yn berthnasol i bob math o ddatblygiad, mae'n arbennig o berthnasol i Awdurdodau Cynllunio Lleol ac ymgynghoreion statudol mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch datblygiad tai o fewn dalgylchoedd afonydd ACA yr effeithir arnynt gan lefelau gormodol o ffosfforws. Gall y canllawiau hefyd fod yn ddefnyddiol i Fyrddau Rheoli Maethynnau a grwpiau cynghori eraill sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd.

## 1.3 Pryd ddylid defnyddio'r canllawiau hyn

1.3.1 Mae'r canllawiau hyn wedi'u drafftio i hwyluso datblygiad yn nalgylchoedd afonydd ACA yr effeithir arnynt gan ffosfforws. Bwriad defnyddio'r canllawiau hyn yw galluogi awdurdodau statudol i nodi llwybr y gellir pennu ceisiadau datblygu trwyddo, gan ystyried gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd mewn perthynas ag effeithiau o ran ansawdd dŵr sy'n gysylltiedig â ffosfforws yn unig. Bydd angen ystyried mecanweithiau effaith eraill, gan gynnwys ystyriaethau ansawdd dŵr eraill (megis nitrogen maethynnau neu lygryddion eraill) fel rhan o Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ehangach (HRA) mewn perthynas â'r cynigion datblygu dan sylw.

1.3.2 Nid canllawiau HRA yw'r canllawiau; nid ydynt yn nodi'r dull manwl ar gyfer asesiad llawn o gynigion datblygu o dan y Rheoliadau Cynefinoedd. Yn hytrach, mae'n darparu llwybr i'w ddilyn i benderfynu sut y gellid dangos cydymffurfiaeth â gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd, yn enwedig pan fydd cwrs dŵr ACA sy'n derbyn yn rhagori ar ei darged ansawdd dŵr ffosfforws.

1.3.3 Mae'r canllawiau hyn wedi'u datblygu gyda ffocws penodol ar ddarparu tai fforddiadwy yn nalgylchoedd afonydd ACA, ond mae hefyd yn berthnasol i fathau eraill o ddatblygiadau. Diffinnir tai fforddiadwy ym mharagraff 5.1 o 'Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy' [1]fel a ganlyn:

> *5.1 Y diffiniad o 'dai fforddiadwy' at ddibenion y system cynllunio defnydd tir sy'n cael ei disgrifio yn y Nodyn Cyngor Technegol hwn yw tai lle mae yna drefniadau diogel er mwyn sicrhau eu bod o fewn cyrraedd i'r rheini sydd heb fod yn gallu fforddio tai ar y farchnad agored, gan gynnwys pobl sy'n eu meddiannu gyntaf a'r bobl sy'n dod ar eu hôl. Fodd bynnag, sylweddolir y gall rhai cynlluniau arwain at berchnogaeth lawn. Os felly, rhaid*

[1] Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy

*cael trefniadau diogel yn eu lle i sicrhau bod derbyniadau cyfalaf yn cael eu hailgylchu i ddarparu tai fforddiadwy yn eu lle. (Hefyd gweler y Rhestr Termau yn Atodiad B). Mae tai fforddiadwy'n cynnwys:*

- *Tai rhent cymdeithasol;*
- *Tai canolradd.*

## 1.4 Trosolwg o'r dull gweithredu

1.4.1 Fel trosolwg, mae'r dull gweithredu o fewn y ddogfen ganllaw hon yn nodi pedwar llwybr y gellir pennu penderfyniadau cynllunio perthnasol trwyddynt.

1. Dibynnu ar ddull gweithredu sy'n seiliedig ar drothwy
2. Dibynnu ar fesurau presennol heb fod angen mesurau lliniaru pellach
3. Dibynnu ar ddull gweithredu sy'n seiliedig ar liniaru
4. Dibynnu ar ddull gweithredu sy'n seiliedig ar randdirymu

1.4.2 Mae'r canllawiau o reidrwydd yn fanwl. Mae'r mater o reoli lefelau maethynnau yn Afonydd Cymru yn drawsbynciol ac mae angen i gyrff cyhoeddus ystyried hyn yn ofalus, ond ni fydd angen i bob defnyddiwr ddarllen yr holl ganllawiau. Mae'r cynnwys allweddol wedi'i grynhoi isod. Er y bydd angen i bob defnyddiwr ddarllen rhai adrannau, dim ond mewn sefyllfaoedd penodol y bydd adrannau eraill o'r canllawiau yn berthnasol.

| Beth? | Ble? | Tudalennau | Oes angen i mi ei ddarllen? |
|---|---|---|---|
| Deunydd rhagarweiniol | Adrannau 2-3 | 7-14 | Oes, dylai pob defnyddiwr ddarllen yr adrannau hyn. |
| Egwyddorion a pholisi Llywodraeth Cymru | Adran 4 | 15-18 | Oes, dylai pob defnyddiwr fod yn gyfarwydd â'r egwyddorion allweddol a safbwyntiau polisi Llywodraeth Cymru. |
| Y llwybr cyflenwi | Adrannau 5-10 | 19-40 | Bydd angen i bob defnyddiwr ddarllen *rhai* o'r adrannau hyn ond ychydig o ddefnyddwyr fydd angen darllen pob un ohonynt. |
| Canllawiau pellach | Adrannau 11-15 | 41-63 | Bydd angen i ddefnyddwyr ddarllen yr adrannau canllawiau pellach sy'n berthnasol iddynt yn unig. |
| Atodiadau | Atodiadau 1-3 | 64-75 | Bydd angen i ddefnyddwyr ddarllen yr atodiadau sy'n berthnasol iddynt yn unig. |

# 2 Cefndir a chyd-destun perthnasol

## 2.1 Yr angen i sicrhau datblygu

2.1.1 Mae darparu tai yn ganolog i bolisi Llywodraeth Cymru a chynhyrchodd y Gweinidog dros Newid Hinsawdd ddatganiad ysgrifenedig ym mis Mehefin 2021[2] a oedd yn cynnwys ymrwymiad i ddarparu 20,000 o gartrefi carbon isel newydd i'w rhentu yn y sector cymdeithasol yn ystod tymor presennol y Llywodraeth (2021-2026). Cyfeirir at hyn fel 'y targed tai fforddiadwy' yn y canllawiau hyn.

2.1.2 Mae data a baratowyd gan awdurdodau lleol ym mis Hydref 2021 yn dangos bod disgwyl i’r gwaith o ddarparu 1,725 o gartrefi fforddiadwy ledled Cymru gael ei effeithio gan bryderon sy'n ymwneud â chrynodiadau gormodol o ffosffad o fewn afonydd dynodedig. Mae mathau eraill o ddatblygiadau hefyd yn destun cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â ffosffadau.

## 2.2 Sut mae afonydd dynodedig yn cael eu gwarchod

2.2.1 Cafodd yr afonydd a ddynodwyd fel safleoedd Ewropeaidd (ACA afonydd) yng Nghymru eu dewis ar sail mathau penodol o gynefinoedd neu rywogaethau yr ystyrir bod angen cadwraeth fwyaf arnynt ar lefel Ewropeaidd. Gall afonydd gael eu heffeithio gan amrywiaeth o fygythiadau a phwysau ac mae eu dynodiad yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol penodol o dan Reoliadau Cynefinoedd y DU[3].

2.2.2 Mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn trosi gofynion y Gyfarwyddeb Adar a Chynefinoedd i gyfraith y DU. Yn unol â rheoliad 3(A) o'r Rheoliadau Cynefinoedd, ar ôl ymadael â’r UE, mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd i'w dehongli fel pe bai unrhyw gyfeiriad at 'Aelod-wladwriaeth' yn cynnwys cyfeiriad at y DU sy'n golygu bod y Cyfarwyddebau yn parhau i fod yn berthnasol yng nghyd-destun y DU. Darperir pedwar 'piler' diogelu o dan Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac maent wedi'u crynhoi yn nhabl 2.2.1 isod. Yn y tabl mae 'Aelod-wladwriaethau' yn cael ei ddisodli gan 'y DU'.

| **Tabl 2.2.1 – trosolwg o ddarpariaethau Erthygl 6** | |
|---|---|
| Erthygl 6(1) | The UK shall establish necessary conservation measures corresponding to the ecological requirements of the habitats and species for which the site has been designated. |
| Erthygl 6(2) | The UK shall take appropriate steps to avoid deterioration of natural habitats and significant disturbance of species. |
| Erthygl 6(3) | The UK shall undertake an appropriate assessment for new plans and projects which are likely to have a significant effect on a designated site (refer section 3 and appendix 1 for further detail). Permission can only be granted having ascertained that there will be no adverse effect to site integrity, either alone or in-combination with other plans and projects. |
| Erthygl 6(4) | Potentially damaging proposals can, nevertheless, be permitted in the absence of alternative solutions for imperative reasons of overriding public interest. Compensatory measures must be secured. |

[2] https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-tai-cymdeithasol-yng-nghymru
[3] Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 UK OS 2017 1012

2.2.3 **Mae'r llysoedd wedi mynnu'n gyson bod angen darllen Erthygl 6 yn ei chyfanrwydd.** Mae'r Erthygl yn ymgorffori nodau'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd i hyrwyddo bioamrywiaeth drwy gynnal neu adfer cynefinoedd a rhywogaethau penodol ar statws cadwraeth ffafriol tra'n ystyried gofynion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a rhanbarthol, fel modd o gyflawni datblygu cynaliadwy.

2.2.4 O fewn y strwythur cyffredinol hwn, gellir gweld bod gwahaniaeth rhwng Erthyglau 6(1) a (2) sy'n diffinio cyfundrefn o rwymedigaethau *rhagweithiol* cyffredinol i reoli'r safle a mynd i'r afael â bygythiadau / pwysau parhaus, ac Erthyglau 6(3) a (4) sy'n diffinio gweithdrefn asesu *adweithiol* fesul cam wrth ystyried neu gynnig cynllun neu brosiect newydd.

2.2.5 O ganlyniad i'r gwahaniaeth hwn, mae cynigion newydd yn cael eu trin yn wahanol i weithgareddau presennol o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, a Rheoliadau'r DU. Mae'r gwahaniaeth hwn yn cydnabod natur uchelgeisiol cynigion newydd o'i chymharu â natur barhaus gweithgareddau presennol, ac mae'n bwysig wrth ystyried sut y gellid rhoi'r dyletswyddau cyfochrog i gyflawni adfer o dan Erthygl 6(2) a lliniaru o dan Erthygl 6(3) ar waith yn ymarferol.

2.2.6 Mae Erthygl 6(3) o'r Gyfarwyddeb yn berthnasol i gynigion newydd (y rhai nad ydynt eto yn weithredol neu na ddibynnir arnynt fel arall); mae'n rhagweld dull mwy cyfyngol er mwyn <u>osgoi</u> effeithiau andwyol i uniondeb safleoedd. Mae erthygl 6(2) yn berthnasol i weithgareddau parhaus; rhaid cydnabod risgiau i uniondeb safleoedd a mynd i'r afael â nhw, a rhaid cymryd camau priodol i osgoi dirywiad, <u>ond</u> gall Aelod-wladwriaethau arfer disgresiwn dros natur y camau ac amserlenni gweithredu'r camau hynny (gan nodi efallai na fydd disgresiwn o'r fath ar gael ar gyfer dyletswyddau adfer o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr). **Nid oes unrhyw beth yn y Gyfarwyddeb i awgrymu bod yn rhaid i weithgareddau parhaus sy'n peri risg i uniondeb y safle ddod i ben neu oedi *nes* bod camau priodol i osgoi dirywiad wedi'u cymryd.** Byddai unrhyw ddehongliad o'r fath wedi cael goblygiadau dwys i Aelod-wladwriaethau o ystyried i ba raddau y mae angen adfer safleoedd presennol i sicrhau statws cadwraeth ffafriol. Yn ymarferol felly, **rhoddir rhywfaint o hyblygrwydd i weithgareddau presennol nad yw ar gael i gynnig newydd.**

2.2.7 Darperir rhagor o fanylion mewn perthynas â'r broses asesu o dan Erthygl 6(3), fel y nodir yn rheoliad 63 o'r Rheoliadau Cynefinoedd, yn adran 3 ac Atodiad 1.

## 2.3 Sut y caniatawyd i lefelau maethynnau gyrraedd y lefelau presennol o fewn cyrsiau dŵr gwarchodedig?

2.3.1 Mae effeithiau niweidiol mewnbynnau maethynnau gormodol i afonydd dynodedig yn broblem yr ydym yn ei deall yn dda. Mae'r gofyniad i adolygu gweithgareddau y rhoddir cydsyniad iddynt ar hyn o bryd wedi'i gynnwys gyda'r Rheoliadau Cynefinoedd yng ngoleuni dyletswyddau o dan Erthygl 6(2) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (fel cam priodol i osgoi dirywiad). Yn 2010, roedd yr 'Adolygiad Cydsyniadau' gwreiddiol o dan reoliad 65 o'r Rheoliadau Cynefinoedd (rheoliad 50 ar y pryd) yn meintioli'r rôl bosibl a chwaraeir gan ffynonellau gwasgaredig o lygredd wrth gyfrannu at ormodiant maethynnau o fewn afonydd ACA.

2.3.2 Roedd adolygiad cydsyniadau 2010 yn gosod terfynau / amrywiadau ar ystod o drwyddedau ledled y DU ond, ar gyfer ACAau afonydd yn arbennig, roedd yn gyson yn nodi angen am

*gamau gweithredu pellach*, y tu hwnt i'r gwelliannau i ffynonellau a ganiateir, er mwyn osgoi effeithiau andwyol ar uniondeb safle o'r cydsyniadau sy'n destun adolygiad.

2.3.3 Felly, cadarnhawyd llawer o'r diwygiadau i'r cydsyniadau a *adolygwyd* yn 2010 sy'n ymwneud â maethynnau mewn afonydd ACA ar sail '*camau gweithredu pellach i'w cymryd*' trwy gyflwyno mesurau i fynd i'r afael â chyfraniad maethynnau o ffynonellau eraill. Mae rheoliad 66 yn darparu'r gallu i ystyried y *camau gweithredu i'w cymryd* wrth adolygu cydsyniad presennol. Roedd y camau eraill y dibynnwyd arnynt yn ddibynnol iawn ar ddulliau gwirfoddol i sicrhau gwelliannau o ffynonellau gwasgaredig. Er bod rhai gwelliannau wedi'u cyflawni, roedd natur wirfoddol y dulliau yn oportiwnistaidd eu natur ac roedd y gostyngiadau a gyflawnwyd yn brin o'r hyn oedd ei angen i osgoi effaith andwyol llwyth maethynnau. Ochr yn ochr â chynnydd araf wrth gyflawni gostyngiadau o ffynonellau heb gydsyniad, mae dulliau rhoi caniatâd ar gyfer cynigion amaethyddol newydd yn y cyfamser, a diffyg rheolaeth ar weithgareddau taenu tail cysylltiedig, yn golygu bod maethynnau ychwanegol yn cyfrannu i'r dalgylchoedd yr effeithir arnynt. Mae'r targedau maethynnau ar gyfer afonydd dynodedig hefyd wedi cael eu tynhau ers yr Adolygiad Cydsyniadau gwreiddiol yn 2010, gan waethygu graddfa'r gormodiant ymhellach.

2.3.4 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad oedd yr Adolygiad Cydsyniadau gwreiddiol felly wedi cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd ganddo. Mae rhai gwersi i'w dysgu wedi'u crynhoi isod ac maent wedi llywio'r dull a gymerwyd i ddatblygu'r canllawiau cyfredol.

| **Tabl 2.3.1 – Maglau posibl ac argymhellion ar sut y gellid eu hosgoi** | |
|---|---|
| **Magl bosibl** | **Argymhelliad** |
| Dibyniaeth ar gamau gweithredu 'i'w cymryd' nad oeddent wedi'u sicrhau. | **Argymhelliad: Dylai gweithredu yn y dyfodol y dibynnir arno i greu capasiti ar gyfer twf fod yn gysylltiedig â mecanwaith cyflawni priodol.** |
| Disgwyliad afrealistig o ostyngiadau y gellir eu cyflawni o ffynonellau heb eu caniatáu trwy ddulliau gwirfoddol. | **Argymhelliad: Ni ddylid dibynnu ar welliant yn y dyfodol i ffynonellau heb eu caniatáu trwy ddulliau gwirfoddol i gyflawni cwantwm gwelliant penodol er mwyn creu capasiti ar gyfer twf. Efallai y bydd angen arfer pwerau statudol yn gymesur i sicrhau gwelliannau angenrheidiol o ffynonellau heb eu caniatáu.** |
| Dibynnu ar ddull cyfran deg wrth briodoli terfynau atebolrwydd ar wahanol sectorau a chymryd yn ganiataol bod pob sector yr un mor agored i reolaeth yn y dyfodol. | **Argymhelliad: Mae dull 'cyfran deg' yn cyd-fynd â'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu ond bydd hyn ond yn gweithio'n ymarferol lle mae pob sector yr un mor agored i reolaeth a lle y gellir sicrhau rheolaeth yn y dyfodol.** |
| Methu â chynnwys effeithiau sy'n gysylltiedig ag ansawdd dŵr o wasgaru tail o fewn cwmpas asesiadau HRA, lle arweiniodd cynnig datblygu at gynhyrchu tail organig (e.e. gweithgareddau da byw). | **Argymhelliad: Mae'r effeithiau cronnus graddol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau amaethyddol yn cynrychioli risg sylweddol o achosi dirywiad i ansawdd dŵr os na chaiff ei ystyried yn briodol fel rhan o'r gweithdrefnau cynllunio/trwyddedu.** |

## 2.4 Cyngor CNC ar gyfer darparu datblygiadau yng Nghymru sy'n effeithio ar afonydd ACA

2.4.1 Cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig ar dargedau ansawdd dŵr, gan gynnwys y rhai ar gyfer ffosfforws, gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn 2016[4]. Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) adroddiad a oedd yn cyflwyno eu hasesiad o faint o ffosfforws sydd yn afonydd ACA Cymru wedi'i fesur yn erbyn targedau ansawdd dŵr diwygiedig[5]. Dangosodd yr adolygiad tystiolaeth fod dros 60% o'r cyrff dŵr a aseswyd yn nalgylchoedd afonydd ACA yn methu â chyrraedd y targedau ansawdd dŵr diwygiedig ar gyfer ffosfforws gyda phryderon cysylltiedig ar gyfer afonydd ACA a'u gallu i gyflawni eu hamcanion cadwraeth. Yn ddiweddarach, adolygodd CNC yr Amcanion Cadwraeth ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) afonydd yng Nghymru ac yn 2022 cyhoeddodd dargedau ffosfforws diwygiedig ar gyfer y 9 afon ACA yng Nghymru, ynghyd ag asesiad cydymffurfiaeth yn erbyn y targedau hynny[6]. Mae targedau ar gyfer dangosyddion ansawdd dŵr eraill bellach wedi'u cyhoeddi hefyd.[7]

2.4.2 Ym mis Awst 2023 cyhoeddodd CNC, yn eu rôl fel corff cadwraeth natur statudol, gyngor cysylltiedig i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy’n sensitif i ffosfforws, y mae'n rhaid i awdurdodau cymwys 'roi sylw' iddo. Mae'r canllawiau hyn wedi'u diweddaru ers hynny ac, ar adeg ysgrifennu, mae'r fersiwn gyfredol wedi'i dyddio Mehefin 2024[8].

2.4.3 Mae'r canllawiau'n esbonio bod CNC ar hyn o bryd yn adolygu trwyddedau cyfredol (Adolygiad Trwyddedau) ac y gall ceisiadau datblygu, lle bo'n briodol, ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwn. Mae'r Adolygiad Trwyddedau sydd ar y gweill felly yn gam pwysig i hwyluso'r gwaith o ddarparu datblygiadau ond cyngor CNC yw y gallai fod angen cyfyngu ar dwf nes bod gwelliannau i drwyddedau yn cael eu gweithredu (y dyddiadau gweithredu yw 2025 neu 2030). Felly gall y gofyniad hwn i gysylltu twf â’r gwaith o gyflawni gwelliannau wedi'u cynllunio gynrychioli cyfyngiad posibl ar gyflymder gwireddu datblygiadau.

2.4.4 Mae'r Adolygiad Trwyddedau yn defnyddio dull 'cyfran deg' lle mae gwelliannau i ffynonellau a ganiateir yn gymesur â'u cyfraniad at y llwyth cyffredinol.

## 2.5 Beth yw 'cyfran deg'?

2.5.1 Mae Adolygiad Trwyddedau CNC yn cael ei gynnal fel cam priodol i osgoi dirywiad o dan Erthygl 6(2) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (a adlewyrchir yn Rheoliad 9(3) o Reoliadau Cynefinoedd 2017 (fel y'u diwygiwyd)). Mae Erthygl 6(2) yn berthnasol i weithgareddau presennol neu barhaus sy'n peri risg o ddirywiad neu aflonyddwch sylweddol ar safle Ewropeaidd. Y gofyniad yw bod 'camau priodol yn cael eu cymryd i osgoi dirywiad neu

[4] https://data.jncc.gov.uk/data/1b15dd18-48e3-4479-a168-79789216bc3d/CSM-Rivers-2016-r.pdf
[5] 2021 Asesiad Cydymffurfiaeth CNC o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd Cymru yn erbyn Targedau Ffosfforws
[6] 2022 Diweddariad i dargedau ffosfforws ac asesiad cydymffurfio CNC
[7] https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/water-reports/water-quality/assessment-of-water-quality-in-protected-rivers-in-wales/?lang=cy
[8] 2024 Cyngor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy’n sensitif i ffosfforws

aflonyddwch sylweddol'. Nid yw Erthygl 6(2) yn darparu amserlen ar gyfer cymryd camau priodol ond yn Achos C-404/09[9] (Achos Alto Sil) dyfarnodd y Llysoedd Ewropeaidd fod caniatáu i aflonyddwch hysbys barhau am o leiaf 4 blynedd yn golygu bod Awdurdodau Sbaen wedi torri Erthygl 6(2). **Felly, disgwyliad Erthygl 6(2) yw, pan nodir risg o ddirywiad neu aflonyddwch, y dylid cymryd camau priodol yn brydlon.** Mae safleoedd cynefinoedd sy'n dibynnu ar ddŵr (gan gynnwys ACAau afonydd) hefyd yn cael eu diffinio fel ardaloedd gwarchodedig o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD). Gosododd y WFD ddyddiad penodol o 2015 ar gyfer cyflawni amcanion ar gyfer safleoedd o'r fath, ond mewn cylchoedd blaenorol o gynllunio basnau afonydd, mae dyddiadau penodol ar gyfer cyflawni'r amcanion wedi'u hymestyn am amrywiaeth o resymau. Mae rheoliadau WFD bellach yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau basn afonydd anelu at gyflawni eu hamcanion ar gyfer yr holl ardaloedd gwarchodedig sy'n weddill erbyn 2027.

2.5.2 Mae'r dull 'cyfran deg' yn cydnabod, er bod trwyddedau CNC yn cyfrannu at ddirywiad o fewn ACA, nid nhw yn unig sy'n gyfrifol am ddirywiad o'r fath. Mewn geiriau eraill, efallai na fydd gweithredu wedi'i gyfeirio at ffynonellau a ganiateir yn ddigonol i osgoi dirywiad. Mae dull 'cyfran deg' yn sicrhau bod gwelliannau a gyflwynir i ffynonellau a ganiateir yn gymesur â'u cyfraniad at y llwyth cyffredinol. Mae'r dull cyfran deg yn cyd-fynd â dwy egwyddor amgylcheddol allweddol sef y 'llygrwr sy'n talu' a 'chywiro'r ffynhonnell.'

2.5.3 Er bod Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r dull cyfran deg, y goblygiad sylfaenol yw, er mwyn i ACAau afonydd gyrraedd eu targedau amcanion cadwraeth, y bydd camau pellach hefyd yn cael eu cymryd i gyflawni'r gostyngiadau angenrheidiol (cymesur) o sectorau eraill yn ogystal â'r gwelliannau arfaethedig i drwyddedau. **Felly mae cyflawni'r amcanion cadwraeth yn afonydd ACA yn dibynnu ar y gwelliannau sy'n cael eu cyflawni trwy'r Adolygiad Trwyddedau ac ar gyflawni camau eraill yn amserol i sicrhau gostyngiadau angenrheidiol o ffynonellau eraill.**

2.5.4 Cynghorir awdurdodau cynllunio bod CNC wedi datgan, fel rhan o'r dull 'cyfran deg', bod CNC a rhanddeiliaid eraill yn cymryd 'camau priodol' eraill (yn unol ag Erthygl 6(2) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd) i fynd i'r afael â ffynonellau eraill presennol o ffosfforws ac adfer ACAau i gyflwr ffafriol, mewn perthynas â defnydd tir gwledig[10].

2.5.5 Pan fo CNC wedi mabwysiadu dull cyfran deg, bydd angen i awdurdod cynllunio fod yn fodlon bod y rhagdybiaethau sylfaenol ar gyfer yr afon ACA dan sylw yn gadarn. Cyn ystyried beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol, mae angen deall sut mae darpariaethau Erthygl 6(2) ar gyfer gweithgareddau presennol/parhaus yn berthnasol ochr yn ochr â'r rhai o dan Erthygl 6(3) ar gyfer cynlluniau a phrosiectau newydd.

## 2.6 Datblygiad newydd sy'n dibynnu ar drwyddedau presennol

2.6.1 Mae cynigion newydd yn cael eu trin yn wahanol i gynigion presennol o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, a Rheoliadau'r DU. Mae'r broses asesu ar gyfer cynnig <u>newydd</u> yn cyd-fynd â dyletswyddau o dan Erthygl 6(3) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Yn unol â rheoliad 63, wrth wneud asesiad o gynllun neu brosiect newydd, rhaid i benderfynwr fod yn fodlon y bydd effeithiau andwyol i uniondeb safleoedd yn cael eu hosgoi. Mae gwaith asesu mewn

[9] Achos C-404/09 EC v Sbaen (paragraff 152)
[10] Cyfeiriwch at nodyn briffio CNC: gollyngiadau ffosfforws i gyrff dŵr ACA nad ydynt yn bodloni eu hamcanion cadwraeth, 14 Gorffennaf 2023, Prosiect Afonydd ACA.

perthynas â gweithgaredd presennol/parhaus yn cyd-fynd â dyletswyddau o dan Erthygl 6(2) o'r Gyfarwyddeb i 'gymryd camau priodol i osgoi dirywiad'. Yn unol â rheoliad 66(3), wrth ystyried effeithiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau presennol/parhaus, gall penderfynwr ddibynnu ar 'gamau gweithredu i'w cymryd' pan fyddant yn fodlon y bydd y camau gweithredu yn sicrhau (ar bwynt yn y dyfodol) na fydd gweithgaredd presennol/parhaus yn effeithio'n andwyol ar uniondeb safle.

2.6.2 Yn ymarferol felly, **rhoddir rhywfaint o hyblygrwydd i weithgareddau presennol/parhaus nad yw ar gael i gynnig newydd.** Mae corff cyhoeddus yn cydymffurfio â'u dyletswyddau mewn perthynas â gweithgareddau parhaus sy'n peri risg i safle Ewropeaidd unwaith y bydd camau priodol i osgoi dirywiad neu aflonyddwch yn cael eu cymryd. Efallai y bydd oedi rhwng cymryd camau a chyflawni statws cadwraeth ffafriol, ond mae hynny'n dderbyniol o gydnabod natur barhaus y gweithgaredd dan sylw. Y prif ofyniad yw gwneud cynnydd amlwg i fynd i'r afael ag achosion dirywiad/aflonyddwch gyda'r bwriad o gyrraedd targedau amcan cadwraeth. **Mae dyletswyddau mewn perthynas â gweithgareddau newydd yn wahanol; mae angen rhoi camau ar waith i osgoi difrod o weithgaredd newydd / dyheadol cyn y gall y cynnig fynd yn ei flaen;** nid yw oedi rhwng camau o'r fath yn cyflawni eu nod a chaniatâd yn cael ei roi yn dderbyniol yn gyffredinol.


2.6.3 **Mae effeithiau gwaredu dŵr gwastraff o gynigion datblygu sy'n cysylltu â gwaith trin dŵr gwastraff yn cynrychioli sefyllfa anarferol lle mae cynigion 'newydd' (tai) yn dibynnu ar drwyddedau 'presennol'** (gwaith trin dŵr gwastraff). Mae ansicrwydd felly yn codi wrth gymhwyso'r profion cyfreithiol penodol o dan y Rheoliadau Cynefinoedd i gynnig newydd sy'n dibynnu ar drwydded bresennol. **Mae Polisi WG2 (cyfeiriwch at adran 4) wedi'i ddatblygu gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r ansicrwydd hwn ac i hwyluso cysondeb i awdurdodau cynllunio.**

# 3 Nod asesiad o dan Reoliadau 63 o'r Rheoliadau Cynefinoedd

## 3.1 Beth yw HRA a pha gwestiynau sy'n cael eu gofyn?

3.1.1 Cyn rhoi canllawiau, mae'n ddefnyddiol datgan nodau asesiad o dan reoliad 63 o'r Rheoliadau Cynefinoedd, fel y maent yn gymwys mewn perthynas ag asesiad o effeithiau ar ansawdd dŵr. **Mae rheoliad 63 yn gymwys mewn perthynas â chynlluniau neu brosiectau newydd.** Mae unrhyw asesiad o dan y Rheoliadau Cynefinoedd yn seiliedig ar ddull pedwar cam sefydledig, fel y'i crynhoir yn ffigur 3.3.1 isod, y cyfeirir ato'n gyffredin fel Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA). Darperir rhagor o wybodaeth mewn perthynas â chymhwyso profion HRA mewn cyd-destun ansawdd dŵr yn Atodiad 1.

**Ffigur 3.1.1:**
**Amlinelliad o'r dull 4 cam ar gyfer HRA**




## 3.2 Cam 1 - Sgrinio am effeithiau arwyddocaol tebygol

3.2.1 Wrth sgrinio am effaith arwyddocaol debygol (cam 1), mae cyfraith achos wedi sefydlu, er gwaethaf y defnydd bob dydd o'r gair '*tebygol*', bod y prawf sgrinio yn gofyn a yw effaith arwyddocaol yn *bosibl*. Mae effaith yn 'arwyddocaol' yn y cyd-destun hwn dim ond os yw'n tanseilio'r amcanion cadwraeth[11]. Gellir ail-eirio'r cwestiwn sy'n cael ei ofyn yn y cam sgrinio fel a ganlyn: 'a yw'n bosibl y gallai'r cynllun neu'r prosiect danseilio'r amcanion cadwraeth?' Rhaid gofyn y cwestiwn ynghylch effaith arwyddocaol debygol '*naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill*'

[11] Case C-127/02 *Waddenzee* cyfeiriwch at bara 47

## 3.3 Asesiad priodol a'r prawf uniondeb

3.3.1 Pan nodir y *gallai* cynnig danseilio'r amcanion cadwraeth, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill, mae angen asesiad priodol. Ar ôl asesiad priodol, dim ond ar ôl canfod na fydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar uniondeb y safle Ewropeaidd (y prawf uniondeb) y gellir rhoi caniatâd. Yn dilyn yn rhesymegol ymlaen o'r prawf sgrinio, mae canllawiau'r CE[12] ar y cysyniad o uniondeb safle wedi'u seilio ar y potensial i safle gyflawni ei amcanion cadwraeth. Mae adran 4.6.4 o ganllawiau'r CE yn esbonio '*it is clear from the context and from the purpose of the Directive that the 'integrity of a site' relates to the site's conservation objectives*'. Mae cymhwyso'r prawf uniondeb felly yn ymwneud â'r potensial cynhenid i safle gyflawni ei amcanion cadwraeth.

## 3.4 Y broses randdirymu

3.4.1 Mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn darparu ar gyfer dull fesul cam o ran gwneud penderfyniadau fel y'i crynhoir yn ffigur 3.1.1. Os nad yw'n bosibl, yn dilyn asesiad priodol ac ystyried mesurau lliniaru, dod i'r casgliad na fydd unrhyw effaith andwyol ar uniondeb y safle, nid yw'n anochel bod yn rhaid gwrthod caniatâd/cydsyniad. Mae'r darpariaethau rhanddirymu wedi'u nodi yn rheoliadau 64 a 68 o'r Rheoliadau Cynefinoedd ac mae'n amlwg bod disgwyl dull fesul cam mewn perthynas â'r profion rhanddirymu. Gyda'i gilydd, mae rheoliadau 64 a 68 yn golygu, lle nad yw'n bosibl dod i'r casgliad y bydd 'dim effeithiau andwyol i uniondeb safle' o ddatblygiad arfaethedig, ac mae awdurdod cymwys yn bwriadu cymhwyso'r darpariaethau rhanddirymu, rhaid iddynt:

- Yn gyntaf, bodloni eu hunain nad oes datrysiadau amgen i'r cynllun neu'r prosiect sy'n destun asesiad.
- Yn ail, gwneud penderfyniad ynghylch a oes rhaid i'r cynllun neu'r prosiect gael ei gyflawni am resymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig (yn amodol ar feini prawf penodol); ac
- Yn drydydd, bodloni eu hunain y gall yr awdurdod priodol (Gweinidogion Cymru) sicrhau bod 'cydlyniant cyffredinol y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol' yn cael ei ddiogelu[13].

[12] Managing Natura 2000 (Tachwedd 2018) – cyfeiriwch at adran 4.6.4
[13] Cyfeiriwch at reoliad 3

# 4 Egwyddorion allweddol a pholisi Llywodraeth Cymru

## 4.1 Trosolwg

4.1.1 Mae'r llwybr cyflawni a nodir yn adrannau 5-9 i bob pwrpas yn cynnwys proses 4 cam cyffredinol fel y'i crynhoir isod. Amlinellir rhai egwyddorion allweddol sy'n berthnasol wrth gymhwyso'r llwybr cyflawni yn adrannau 4.2-4.3 a darperir safbwyntiau polisi cysylltiedig Llywodraeth Cymru yn 4.4.

Llwybr Cyflawni cam 1 – A ellir cyflawni datblygiad trwy ddull sy'n seiliedig ar drothwy?

↓

Llwybr Cyflawni cam 2 – A ellir cyflawni datblygiad yn absenoldeb lliniaru pellach?

↓

Llwybr Cyflawni cam 3 – A ellir cyflawni datblygiad trwy ddull sy'n seiliedig ar liniaru?

↓

Llwybr Cyflawni cam 4 – A ellir cyflawni datblygiad trwy ddull sy'n seiliedig ar randdirymu?

4.1.2 Mae'r llwybr cyflawni a nodir yn y canllawiau hyn wedi'i gynllunio i hwyluso cysondeb wrth wneud penderfyniadau gan ddarparu digon o hyblygrwydd i ystyried amgylchiadau lleol. Wrth gymhwyso'r llwybr cyflenwi ar gyfer pob dalgylch ACA, dylid cymhwyso'r egwyddorion allweddol canlynol:

- Egwyddor 1: **Lleiaf Beichus** - Lle gallai nifer o opsiynau gyflawni canlyniad a ddymunir, dylai'r opsiwn a ddewisir fod y lleiaf beichus i'r rhai yr effeithir arnynt
- Egwyddor 2: **Dalgylch-benodol** – Dylai'r llwybr ar gyfer unrhyw ddalgylch ACA penodol gael ei lywio gan wybodaeth ac arbenigedd lleol i annog perchnogaeth gan bartneriaid cyflenwi ac i ystyried amgylchiadau lleol.

## 4.2 Egwyddor Allweddol 1 - Lleiaf beichus

4.2.1 Mae'r egwyddor 'lleiaf anodd' wedi'i chynnwys er mwyn hwyluso cytundeb rhwng rhanddeiliaid wrth ddewis mesurau i'w cyflawni o fewn dalgylch penodol. Yn enwedig lle bydd gwahanol opsiynau yn cael goblygiadau gwahanol i randdeiliaid.

4.2.2 Mae'r egwyddor **Lleiaf beichus** yn tarddu yn rheoliad 66 o'r Rheoliadau Cynefinoedd sy'n berthnasol mewn perthynas ag adolygiad o gydsyniad presennol o dan reoliad 65. Mae datblygu dull o ymdrin â maethynnau gormodol o fewn dalgylch afon ACA, lle mae maethynnau yn deillio o weithgareddau parhaus, yn debyg mewn sawl ffordd â bwriad a phwrpas adolygiad rheoliad 65. Mae'r rheoliadau'n darparu mwy o hyblygrwydd lle mae

gweithgaredd presennol yn destun asesu, o'i gymharu â chynllun neu brosiect newydd neu ddyheadol, ac mae rheoliad 66 yn sefydlu egwyddor bwysig sy'n berthnasol pan fydd gan benderfynwyr opsiynau ynghylch sut y gellid osgoi effeithiau andwyol i uniondeb safle o weithgareddau parhaus. Mae'n darllen fel a ganlyn (pwyslais wedi'i ychwanegu):

> **Consideration on review**
>
> **66.—(**1) The following provisions apply where a decision, or a consent, permission or other authorisation, falls to be reviewed under regulation 65.
>
> (2) Subject as follows, the provisions of regulations 63(5) and (6) and 64 apply, with the appropriate modifications, in relation to the decision on the review.
>
> (3) The decision, or the consent, permission or other authorisation, may be affirmed if it appears to the competent authority reviewing it that other action taken or to be taken by it, or by another authority, will secure that the plan or project does not adversely affect the integrity of the site.
>
> (4) **Where that object may be attained in a number of ways, the competent authority or authorities concerned must seek to secure that the action taken is the least onerous to those affected…**

4.2.3 Wrth gymhwyso'r egwyddor lleiaf beichus, rhagwelir y bydd golwg eang o ran adnabod rhanddeiliaid. Felly, dylid pwyso goblygiadau i bartïon yr effeithir arnynt yn *uniongyrchol* gan ddull a ffefrir (e.e. tirfeddianwyr, cwmnïau dŵr) yn erbyn y goblygiadau i'r rhai yr effeithir arnynt yn anuniongyrchol gan rwystrau parhaus i ddatblygu (e.e. y rhai yr effeithir arnynt gan brinder tai) o ystyried dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

## 4.3 Egwyddor Allweddol 2 - Dalgylch-benodol

4.3.1 Mae'r angen am ddull sy'n **ddalgylch-benodol** yn cydnabod nodweddion unigryw ac amodau amgylcheddol penodol pob dalgylch afon ACA. Er bod maethynnau gormodol yn broblem eang, bydd amgylchiadau lleol sy'n berthnasol i bob dalgylch yn wahanol. Bydd cyfranogiad rhanddeiliaid yn amrywio ar draws dalgylchoedd, yn ogystal â'r cyfraniadau cymharol o wahanol sectorau. Mae'r angen am gysondeb yn bwysig, ond mae'n anochel y bydd angen teilwra dulliau yn unol â hynny. Mae cydnabod gofyniad i ystyried materion dalgylch-benodol fel 'egwyddor allweddol' yn pwysleisio pwysigrwydd materion o'r fath a bydd yn rhoi hyder o ran disgwyl a derbyn gwahaniaethau rhwng dulliau dalgylchoedd.

4.3.2 Mae'r dull llwybr a nodir yn y canllawiau hyn wedi'i gynllunio i ddarparu rhywfaint o hyblygrwydd i ganiatáu i ddulliau gael eu teilwra i ystyried amgylchiadau lleol. **Amcan y canllawiau yw darparu fframwaith a dull cyffredin (am resymau cysondeb), gan ddarparu digon o hyblygrwydd i gael eu llunio a'u llywio gan wybodaeth leol. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gwella pan fydd gwybodaeth ac arbenigedd lleol yn cael ei gydnabod a'i alluogi i ddylanwadu ar y broses o ddewis opsiynau. Mae pwysigrwydd perchnogaeth leol ar ddull gweithredu, o ran canlyniadau cyflawni, hefyd yn cael ei gydnabod.**

## 4.4 Safbwyntiau Polisi Llywodraeth Cymru

4.4.1 Mae mynd i'r afael â'r heriau o faethynnau gormodol yn afonydd ACA Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff statudol ymgysylltu â buddiannau rhanddeiliaid ac amcanion trawsbynciol a allai fod yn gwrthdaro. Wrth gymhwyso'r llwybr cyflawni, a'r ddwy egwyddor a amlinellir yn adran 4.2 - 4.3, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob corff statudol wneud penderfyniadau yn unol â safbwyntiau polisi presennol y Llywodraeth a dyletswyddau deddfwriaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd yr angen i gydbwyso buddiannau rhanddeiliaid gwahanol yn creu ansicrwydd i asiantaethau statudol sydd â'r dasg o nodi a chyflawni datrysiadau ac ansicrwydd cysylltiedig i gynigwyr prosiectau.

4.4.2 Er mwyn a) rhoi sicrwydd i gynigwyr prosiectau; b) egluro disgwyliadau ar gyrff cyhoeddus; a c) hwyluso cysondeb, mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu cyfres o safbwyntiau polisi y disgwylir i asiantaethau statudol roi sylw iddynt. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod gyda'r testun esboniadol cysylltiedig.

| |
|---|
| **Cyflawni canlyniadau 'cyfran deg' a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**<br><br>Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus Cymru (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) i weithredu "yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy", sy'n golygu bod yn rhaid i'r cyrff hyn weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.<br>Mae gwelliannau sy'n cael eu cyflawni gan CNC o dan yr Adolygiad Trwyddedau presennol yn cymhwyso dull 'cyfran deg'. Mae'r dull cyfran deg yn tybio y bydd camau cyfatebol yn cael eu cymryd i gyflawni gwelliannau o ffynonellau eraill o faethynnau o fewn dalgylch yr effeithir arno. Mae'r rhagdybiaeth hon yn berthnasol i egwyddorion amgylcheddol allweddol y llygrydd sy'n talu, integreiddio a chywiro yn y ffynhonnell.<br><br>**Polisi WG1 – Mae cyflawni'r targedau'r amcan cadwraeth o fewn afonydd ACA yn ganolog i nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer 'Cymru gydnerth', 'Cymru lewyrchus', 'Cymru iachach' a 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang'. Mae'r gwelliannau sy'n cael eu cyflawni gan CNC o dan yr Adolygiad Trwyddedau presennol yn cymhwyso dull 'cyfran deg' ac mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys asiantaethau statudol, weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod camau pellach i leihau llwyth maethynnau i ddalgylchoedd afonydd ACA o dan ddull cyfran deg yn cael eu nodi a'u cyflawni yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Er budd cenedlaethau'r dyfodol, rhaid i gyrff cyhoeddus wneud defnydd cymesur o bwerau statudol i gyflawni camau angenrheidiol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Gall awdurdodau cynllunio lleol a chynigwyr prosiectau ddibynnu ar ddull cyfran deg lle gellir dangos yr ymrwymiad angenrheidiol i gamau gweithredu sy'n ofynnol gan bob sector.** |
| **Prosiectau newydd sy'n dibynnu ar drwyddedau presennol**<br><br>Mae cynigion datblygu o fewn dalgylchoedd ACA yn cynnwys cynigion 'newydd' (er enghraifft, tai) sy'n dibynnu ar drwyddedau 'presennol' (gwaith trin dŵr gwastraff). Mae cynigion newydd yn cael eu trin yn wahanol i gynigion presennol o dan y Rheoliadau Cynefinoedd. Mae'r broses asesu ar gyfer cynnig newydd yn cyd-fynd â dyletswyddau o dan Erthygl 6(3). Yn unol â rheoliad 63, wrth wneud asesiad o gynllun neu brosiect newydd, rhaid i benderfynwr fod yn fodlon y bydd effeithiau andwyol i uniondeb safleoedd yn cael eu hosgoi. Mae'r broses hon ar gyfer gweithgareddau presennol yn cyd-fynd â dyletswyddau o dan Erthygl 6(2) i gymryd camau priodol i osgoi dirywiad. |

Yn unol â rheoliad 66(3), wrth ystyried effeithiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau presennol neu barhaus, gall penderfynwr ddibynnu ar 'gamau gweithredu i'w cymryd' pan fyddant yn fodlon y bydd y camau gweithredu yn sicrhau na fydd gweithgaredd parhaus yn effeithio'n andwyol ar uniondeb safle. Felly, gall ansicrwydd godi i awdurdodau cymwys ynghylch i ba raddau y gallant ddibynnu ar gamau gweithredu i'w cymryd wrth gymhwyso'r profion cyfreithiol penodol i gynnig newydd sy'n dibynnu ar drwydded bresennol.

**Polisi WG2 – Pan fo cynnig newydd yn dibynnu ar drwydded bresennol sy'n cynrychioli risg o ddirywio, a bod penderfynwr yn fodlon bod camau priodol (camau gweithredu eraill) i osgoi dirywiad o dan Erthygl 6(2) wedi'u sicrhau, gall penderfynwr ddibynnu ar y camau gweithredu sydd i'w cymryd wrth gymhwyso'r prawf uniondeb o dan reoliad 63 mewn perthynas â'r cynnig newydd. Gellir ystyried bod camau gweithredu i'w cymryd (camau priodol) yn 'sicr' os:**

- **Amcangyfrifwyd graddfa'r gwelliannau pellach sy'n angenrheidiol i osgoi dirywiad o weithgareddau presennol/parhaus (cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol bosibl ar sail y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd);**
- **Mae'r 'camau priodol' sydd i'w cymryd wedi'u nodi'n glir a'u cysylltu â mecanwaith cyflawni priodol, gan wneud defnydd cymesur o bwerau statudol fel sy'n angenrheidiol i hwyluso'r gwaith o gyflawni cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol;**
- **Mae amserlen glir ar gyfer gweithredu 'camau priodol' i'w cymryd gyda cherrig milltir cynnydd cyflawni cysylltiedig tuag at gyflawni targedau ffosfforws yr amcan cadwraeth;**

**Pan fo datblygiad newydd yn dibynnu ar gamau gweithredu i'w cymryd, rhaid sefydlu cyd-ddibyniaeth trwy ddull cafeat polisi (cyfeiriwch at adran 14) i sicrhau bod penderfyniadau ar gyfer datblygiad newydd yn amodol ar gerrig milltir cynnydd cyflawni cysylltiedig.**

**Sicrhau nad yw mesurau lliniaru yn tanseilio cyflawni amcanion adfer**

Mae gan awdurdodau cymwys ddyletswydd i ddiogelu, gwarchod ac adfer safleoedd Ewropeaidd ac ni ddylai darparu mesurau lliniaru beryglu gallu mentrau eraill i gyflawni gwaith adfer angenrheidiol. Gan gyfeirio at bolisi WG1, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gyrff cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod camau gweithredu pellach i leihau llwyth maethynnau i ddalgylchoedd afonydd ACA o dan ddull cyfran deg yn cael eu nodi a'u cyflawni yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru yn annog cyrff cyhoeddus i weithredu dull integredig o ddarparu prosesau rheoli, adfer a lliniaru yn Afonydd ACA Cymru yr effeithir arnynt gan ffosffad gormodol. O dan ddull integredig, bydd camau i gyflawni'r targedau cadwraeth yn cael eu nodi a'u cysylltu â cherrig milltir cyflawni diffiniedig ac mae angen am liniaru yn codi i gydnabod y risg y gallai cyflwyno datblygiad beryglu'r gwaith o gyflawni canlyniadau adfer. Wrth nodi opsiynau lliniaru, y prif fater i awdurdodau cynllunio felly yw sicrhau nad yw mesurau lliniaru yn peryglu amserlenni adfer.

**Polisi WG3: Wrth ystyried effeithiau sy'n gysylltiedig â llygredd maethynnau, mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng mesurau i gyflawni rheoli/adfer a'r rhai y gellid dibynnu arnynt i gyflawni lliniaru. Ni ddylai lliniaru dan arweiniad datblygwyr gynnwys cyflawni mesurau sydd eisoes wedi'u nodi fel mesurau rheoli/adfer ac sy'n gysylltiedig â mecanwaith cyflawni priodol neu rai a allai beryglu rheolaeth / adfer yn y dyfodol trwy erydu capasiti'r dalgylch ar gyfer ymyriadau yn y dyfodol. Gellir integreiddio mesurau lliniaru â rheoli ac adfer lle mae cyfraniadau datblygwyr:**

- **yn cynyddu graddfa, maint neu gwmpas mesurau rheoli/adfer wedi'u cynllunio; neu**
- **yn cyflymu'r broses o gyflawni mesurau rheoli/adfer wedi'u cynllunio y tu hwnt i'r hyn a fyddai'n cael ei gyflawni fel arfer, lle mae perygl o ddirywiad ecolegol ystyrlon yn y cyfamser o dan amserlenni gweithredu presennol.**

# 5 Cyn i chi ddechrau - Cael y wybodaeth sylfaenol

## 5.1 Deall eich llinell sylfaen

5.1.1 Wrth asesu arwyddocâd effaith ar safle Ewropeaidd, mae cyfraith achos wedi sefydlu bod yn rhaid cynnal yr asesiad o risg yng ngoleuni'r nodweddion a'r amodau amgylcheddol penodol ar y safle dan sylw[14], a elwir fel arall yn 'amodau amgylcheddol sy'n bodoli' neu'r 'llinell sylfaen'.

5.1.2 Man cychwyn ar gyfer datblygu llwybr penderfynu sy'n benodol i'r dalgylch yw deall graddfa a maint gormodiant y maethynnau o fewn yr ACA dan sylw, ar sail y wybodaeth orau sydd ar gael. Oni bai bod ffynonellau data lleol dibynadwy ar gael, ystyrir mai'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn Asesiad Cydymffurfiaeth CNC o ACA Afonydd Cymru yn erbyn targedau ffosfforws[15] sydd fwyaf addas at y diben hwn. Mae'n darparu gwybodaeth am nifer y cyrff dŵr sy'n methu targedau, graddfa'r gormodiant a natur y gormodiant (boed yn gyfnodol neu'n gyson). Diweddarwyd targedau P ar gyfer chwe chorff dŵr yn ddiweddarach yn 2022[16].

5.1.3 Ar ôl diffinio'r amodau sylfaenol, cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl, yng ngoleuni'r wybodaeth orau sydd ar gael, mae angen deall gwelliannau a ragwelir yn y dyfodol a'r graddau y gallent 'osgoi dirywiad' (mewn perthynas â dyletswyddau o dan Erthygl 6(2) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd), ac a yw gwelliannau o'r fath yn cael eu sicrhau neu'n rhai dyheadol.

## 5.2 Pa lefel o welliannau fydd yn cael eu cyflawni trwy fentrau eraill

5.2.1 Wrth ystyried effeithiau datblygiad arfaethedig, gellir ystyried gwelliannau wedi'u cynllunio yn y senario waelodlin. Mewn geiriau eraill, lle mae disgwyl i gamau gweithredu eraill gyflawni gwelliannau, mae'n dderbyniol ystyried effeithiau'r datblygiad arfaethedig yng ngoleuni'r newidiadau disgwyliedig i'r amodau sylfaenol presennol[17]. Mae hyn yn briodol gan fod angen i asesiad mewn perthynas ag uniondeb safle ystyried effeithiau'r datblygiad arfaethedig dros y tymor byr, tymor canolig a thymor hir o'i gymharu â senario lle nad oes cydsyniad. Mae'r angen i ystyried 'cynlluniau a phrosiectau eraill' wrth gymhwyso'r prawf uniondeb yn caniatáu i effeithiau cynigion eraill (a all fod naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol) hysbysu'r broses o wneud penderfyniadau.

5.2.2 Mae CNC yn cynnal Adolygiad Trwyddedau ac mae gwybodaeth ar gael am welliannau arfaethedig i drwyddedau. Bydd yr Adolygiad Trwyddedau yn sicrhau gostyngiadau mewn llwythi maethynnau ar draws holl ddalgylchoedd ACA ac mae'r gostyngiadau sydd i'w cyflawni yn cael eu cyfrifo ar sail dull 'cyfran deg'. Rhagdybiaeth sylfaenol 'cyfran deg' yw bod y gwelliannau, ynddynt eu hunain, yn annhebygol o fod yn ddigonol i gyflawni targedau

[14] Refer Case C-127/02 The Waddenzee Ruling (para 49)

[15] CNC Asesiad Cydymffurfiaeth o ACAau Afonydd Cymru yn erbyn Targedau Ffosfforws

[16] CNC Diweddariad i dargedau ffosfforws ar gyfer cyrff dŵr mewn afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) yng Nghymru

[17] Yn Archwiliad Cyhoeddus Cynllun Lleol Wealden a gyflwynwyd yn 2018, ac er gwaethaf tystiolaeth nad oedd mesuriadau lleol yn adlewyrchu gwelliannau a ragwelwyd yn genedlaethol, daeth yr Arolygiaeth Gynllunio i'r casgliad serch hynny fod rhagolygon a ragwelwyd yn seiliedig ar ffactorau allyriadau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol (sy'n cyfrif am fesurau sydd eisoes ar waith neu y gellir dibynnu'n rhesymol arnynt i fod ar waith) yn darparu sail ddigonol i asesu effeithiau disgwyliedig datblygiad yn y dyfodol. Gwnaeth yr Arolygiaeth Gynllunio ystyried cyngor gan Natural England wrth lunio'r farn hon.

maethynnau amcan cadwraeth i lawr yr afonydd, oni bai bod tystiolaeth leol ar gael i'r gwrthwyneb.

5.2.3 Bydd angen i awdurdodau cynllunio ofyn am wybodaeth gan CNC i ddeall graddfa'r gwelliannau sydd i'w cyflawni gan y diwygiadau arfaethedig i Drwyddedau ac i ba raddau y bydd angen 'camau gweithredu eraill' i gyflawni gwelliannau pellach. Mae'r data dosbarthu ffynonellau a gasglwyd fel rhan o'r Adolygiad Trwyddedau i bennu'r gwelliannau 'cyfran deg' i'r trwyddedau sy'n destun adolygiad eisoes yn cael ei ddal gan CNC a dylid sicrhau ei fod ar gael mewn fformat addas.

**Blwch 5.2.1 Enghraifft o rannu gwybodaeth sylfaenol**

Cyfanswm llwyth P ar waelod y dalgylch = XX kg

Rhagwelir y bydd camau gweithredu cyfran deg ar waith trin dŵr gwastraff yn lleihau cyfraniad P y cwmni dŵr gan X% ac mae 'cyfran deg' yn tybio gostyngiad cyfatebol o ffynonellau eraill.

Llwyth P a gostyngiadau cyfran deg tybiedig o bob sector fel a ganlyn:

| Sector | Cyfanswm llwyth P i'r dalgylch (kg) | Gostyngiad cyfran deg tybiedig (Kg P) |
|---|---|---|
| Gwaith trin dŵr gwastraff | X | XX |
| Ffynonellau amaethyddol | Y | YY |
| Arall | Z | ZZ |

5.2.4 Ar ôl deall y gostyngiadau tybiedig i'w cyflawni o ffynonellau eraill ar lefel dalgylch strategol trwy ddull 'cyfran deg', mae'n bosibl ystyried gwelliannau yn y dyfodol a ragwelir o fentrau parhaus eraill. Er enghraifft, gwaith gorfodi sy'n cael ei gyflawni gan CNC yn unol â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021, a gwaith adfer afonydd i'w gyflawni trwy'r prosiect Pedair Afon LIFE[18]. Bydd cryn ansicrwydd mewn ymdrechion i feintioli graddfa'r gwelliannau y gellid eu cyflawni o fentrau o'r fath. Fodd bynnag, dylai awdurdodau cymwys perthnasol arfer barn broffesiynol i gytuno ar lefel hyder (Uchel/Canolig neu Isel) y bydd y mentrau'n ddigonol i gyflawni'r gostyngiadau 'cyfran deg' dros amserlen ddiffiniedig.

**Blwch 5.2.2 Enghraifft o amcangyfrif y gostyngiadau sydd i'w cyflawni o gamau gorfodi CNC**

Nid oedd 80% o'r 83 o ffermydd llaeth a arolygwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru rhwng 2020 a 2022 yn cydymffurfio â rheoliadau gwrth-lygredd[19]. Ar gyfartaledd, disgwylir i gamau cydymffurfio a gorfodi sicrhau o leiaf gostyngiad o x% mewn llwythi P cyffredinol mewn cyrff dŵr ar fferm nad yw'n cydymffurfio. Rhagwelir felly y bydd camau gorfodi wedi'u cynllunio yn arwain at ostyngiad canrannol o x wedi'i luosi â 80 mewn llwythi P o ffynonellau amaethyddol.

[18] https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/our-projects/our-nature-projects/4-rivers-for-life/?lang=cy:~:text=Four%20Rivers%20for%20LIFE%20is,%2C%20Cleddau%2C%20Tywi%20and%20Usk.

[19] https://www.theguardian.com/environment/2024/apr/19/most-uk-dairy-farms-ignoring-pollution-rules-as-manure-spews-into-rivers

5.2.5 Mae elfen o ansicrwydd wrth ddeall gwelliannau yn y dyfodol yn dderbyniol. Pwrpas deall yr amodau sylfaenol yw darparu *syniad* o'r graddau y gallai fod angen camau gweithredu pellach, yn ychwanegol at fesurau sydd eisoes wedi'u gweithredu neu sydd eisoes wedi'u sicrhau er mwyn cyflawni'r gwelliannau cyfran deg. Mae dyletswyddau o dan Erthygl 6(2) i gymryd camau priodol i osgoi dirywiad yn rhai parhaus eu natur. Os nad yw mesurau'n cyflawni gwelliannau digonol mewn ansawdd dŵr, bydd dyletswydd barhaus i nodi mesurau pellach. Er bod rhywfaint o bwyll yn synhwyrol, **nid oes angen i awdurdodau fod yn rhy rhagofalus wrth aseinio lefel hyder. Nid yw'r prawf cyfreithiol i gael gwared ar 'amheuaeth wyddonol resymol' yn berthnasol mewn perthynas â dyletswyddau i gymryd camau priodol i osgoi dirywiad o dan Erthygl 6(2). Yn hytrach, mae'r Llysoedd Ewropeaidd wedi dyfarnu '*the term appropriate steps contained in Article 6(2) of the Habitats Directive implies that Member States enjoy discretion when applying that provision'*[20].**

[20] Case C-399/14 Reference for a Preliminary Ruling in the Grüne Liga Sachsen case (Cyfeiriwch at baragraff 40)

# 6 Llwybr Cyflawni cam 1 – A ellir cyflawni datblygiad trwy ddull sy'n seiliedig ar drothwy?

## 6.1 Beth yw dull gweithredu sy'n seiliedig ar drothwy?

6.1.1 At ddibenion yr adroddiad hwn, gellir diffinio trothwy fel maen prawf cytunedig y gellir gwerthuso penderfyniadau ar gyfer cynlluniau a phrosiectau yn ei erbyn. Pan fydd effeithiau'r datblygiad arfaethedig yn is na throthwy cytunedig, ystyrir nad yw'n debygol o gael effaith arwyddocaol, naill ai ar ei ben ei hun neu'n gyfunol â chynlluniau a phrosiectau eraill. Fel y cyfryw, defnyddir y trothwy i nodi cynlluniau a phrosiectau y gellir ystyried eu cyfraniad at unrhyw effaith gyfunol, at ddibenion gwneud penderfyniadau, yn ddibwys h.y. lle na fydd asesiad pellach cyfunol yn newid canlyniad y penderfyniad.

6.1.2 Mae'r Llysoedd wedi sefydlu'n gyson bod y defnydd o drothwyon gwneud penderfyniadau o dan y Rheoliadau Cynefinoedd yn dderbyniol mewn egwyddor. Darperir rhagor o wybodaeth am benderfyniadau perthnasol gan y Llysoedd yn Atodiad 3. Wrth gymhwyso dull sy'n seiliedig ar drothwy, **y cwestiwn canolog yw a ellir dangos na fydd lefel ddiffiniedig o dwf yn tanseilio'r gwaith o gyflawni'r amcanion cadwraeth.** Mae'r cwestiwn hwn yn bwysig gan nad yw effeithiau nad ydynt yn tanseilio'r amcanion cadwraeth yn 'arwyddocaol' yn nhermau HRA (cyfeiriwch at Atodiad 1).

6.1.3 Mae absenoldeb trothwyon gwneud penderfyniadau mewn perthynas â chynlluniau a phrosiectau sy'n cyfrannu maethynnau mewn afonydd ACA yng Nghymru i raddau helaeth yn ganlyniad a) yr heriau ymarferol o ddod o hyd i sylfaen dystiolaeth i gefnogi trothwy generig, y gellir ei gymhwyso ar draws pob prosiect sy'n effeithio ar afonydd ACA; a b) pryderon ynghylch y potensial ar gyfer 'sleisio salami' ac ymdrechion tebyg gan gynigwyr prosiectau i danseilio'r gwaith o gymhwyso'r Rheoliadau'n gywir trwy isrannu prosiectau yn artiffisial er mwyn cwrdd â gwerth rhifiadol penodol. **At ddibenion y canllawiau hyn, ni chynghorir dull sy'n seiliedig ar drothwy sy'n berthnasol fesul prosiect mewn modd diderfyn.**

6.1.4 O ran darparu tai fforddiadwy, mae pwyntiau (a) a (b) yn cyfiawnhau myfyrio pellach. Mae targedau tai fforddiadwy yn ymwneud â math penodol o ddatblygiad y gellir ei feintioli sy'n golygu bod modd amcangyfrif y llwyth ffosffad cyffredinol. Pan gaiff trothwy ei ddeillio i fod yn berthnasol i fath diffiniedig o ddatblygiad (e.e. tai fforddiadwy) yn hytrach nag i bob math o ddatblygiad, nid yw'r risg o 'sleisio salami' bellach yn berthnasol.

6.1.5 Wrth ystyried effeithiau llwytho mwy o faethynnau i afonydd ACA o ddatblygiad tai, mae dull sy'n seiliedig ar y sector ac yn defnyddio synnwyr cyffredin (yn 6.3 isod) – sy'n ymwneud â'r risg debygol o gwantwm diffiniedig o ddatblygiad arfaethedig – yn haeddu ystyriaeth bellach. **Rhaid cymryd dull sy'n seiliedig ar drothwy sy'n deillio o sail synnwyr cyffredin gan gyfeirio at y cyfraniad cyffredinol gan dai fforddiadwy dros gyfnod amser diffiniedig.**

## 6.2 Cam 1a: Meintioli'r llwyth P ychwanegol o dai fforddiadwy

6.2.1 Y cam cyntaf wrth ystyried dull sy'n seiliedig ar drothwy yw deall y llwyth P ychwanegol y disgwylir iddo godi o ddatblygiad fforddiadwy o fewn y dalgylch ACA dan sylw. Mae'n rhesymol rhagweld y gallai cwantwm diffiniedig o dai fforddiadwy mewn dalgylch penodol

fod yn hysbys, neu y gellid ei gynllunio ar sail rhagofalus, ac y gellir amcangyfrif yn rhesymol y llwyth maethynnau ychwanegol yn sgil datblygiad o'r fath. Mae dwy elfen yn berthnasol i unrhyw amcangyfrif o'r fath:

1) Rhagdybiaethau am ddefnydd dŵr a graddfeydd meddiannaeth ar gyfer preswylwyr newydd.

2) Rhagdybiaethau ynghylch meddiannaeth tai fforddiadwy a pha gyfran o breswylwyr sy'n cynrychioli preswylwyr newydd, o'i chymharu â thrigolion presennol sydd eisoes yn byw yn y dalgylch.

6.2.2 Gellir defnyddio Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol i ganfod graddfeydd meddiannaeth a chyfran y preswylwyr newydd o fewn dalgylch o'i gymharu â'r rhai sydd eisoes yn byw yn y dalgylch. O ran defnydd dŵr, y defnydd cyfartalog o ddŵr gan gwsmeriaid domestig yng Nghymru (yn seiliedig ar ddata 2023) yw 150.7l y dydd y pen ar gyfer Dŵr Cymru Welsh Water a 130.6l y dydd y pen ar gyfer Hafren Dyfrdwy. Dylid nodi, fodd bynnag, bod y Rheoliadau Adeiladu yn nodi y dylai eiddo newydd gael uchafswm defnydd o ddŵr y pen o 110l y dydd a disgwylir i Ofwat osod targedau i gwmnïau dŵr leihau eu defnydd y pen yn yr adolygiad prisiau a gyhoeddir ym mis Rhagfyr 2024.

6.2.3 Wrth amcangyfrif y llwyth P ychwanegol o dai fforddiadwy arfaethedig, dylid cymryd y camau canlynol:

i) Amcangyfrif cwantwm cyffredinol y tai fforddiadwy i'w darparu o fewn dalgylch yr ACA dros amserlen ddiffiniedig.

ii) gwneud rhagdybiaethau rhesymol ynglŷn â'r defnydd o ddŵr, amcangyfrif y llwyth P cyffredinol o dai fforddiadwy fel % o'r llwyth P cyffredinol i'r dalgylch o waith trin dŵr gwastraff dros amserlen ddiffiniedig.

iii) Ar sail ragofalus, amcangyfrif uchafswm % o breswylwyr a allai gynrychioli preswylwyr *newydd* i'r dalgylch.

## 6.3 Dull synnwyr cyffredin sy'n seiliedig ar y sector

6.3.1 Gellir gwneud penderfyniad ynghylch a ellir ystyried y cyfraniad cymharol o dai fforddiadwy yn ddigon dibwys (o ran a allai danseilio'r amcanion cadwraeth ac felly fod yn 'arwyddocaol' yn nhermau HRA). Os yw'n ddigon dibwys, gellid cymhwyso dull synnwyr cyffredin, heb fod angen gwaith pellach i feintioli neu lunio cymariaethau â gwelliannau disgwyliedig yn y dyfodol. Ar ôl diffinio'r llwyth ychwanegol cyffredinol o dai fforddiadwy dros amserlen ddiffiniedig, gall awdurdod cynllunio gael digon o dystiolaeth gyda chyfeiriad at amodau sylfaenol (cyfeiriwch at adran 5) a gwelliannau disgwyliedig yn y dyfodol i ddadlau na fydd unrhyw effaith weddilliol yn peri unrhyw risg posibl i'r safle.

6.3.2 Gellid cyfiawnhau penderfyniad o'r fath o ystyried i ba raddau y bydd y llwyth ychwanegol yn rhwystro gallu mentrau cyfochrog (presennol ac yn y dyfodol) i gyflawni'r gwelliannau

angenrheidiol, gan ystyried yr oedi disgwyliedig y bydd cyfraniadau gan dai fforddiadwy yn ei gyflwyno i'r gwaith o gyflawni gwelliannau yn y dyfodol.

6.3.3 Mae'n bosibl deillio lefel o lwyth ychwanegol y gellir ei hystyried yn dderbyniol heb fod angen asesiad pellach cyfunol, trwy ganfod:

- Beth sydd angen ei wneud, yn ymarferol, i gyflawni targedau maethynnau yr amcan cadwraeth.
- I ba raddau y mae mentrau eraill ar waith i gyflawni gwelliannau.
- Y gyfradd a'r cyflymder y gallai gwelliannau disgwyliedig o'r mesurau presennol ddigwydd a'r oedi a allai ddeillio o ddatblygiad 'islaw y trothwy'.

6.3.4 Yn achos ACAau afonydd Cymru, mae'r Adolygiad Trwyddedau yn fenter gyfochrog a fydd yn cyflawni gwelliannau waeth beth fo'r twf. Gellir ystyried bod y gwelliannau a gyflawnwyd trwy'r Adolygiad Trwyddedau yn sicr yn unol â pholisi CNC, ond bydd yr amserlen ar gyfer cyflawni a pha raddau y mae angen camau pellach i gyflawni'r amcanion cadwraeth yn ystyriaeth berthnasol.

6.3.5 Er mwyn cytuno ar ddull trothwy, bydd angen i awdurdodau cynllunio fod yn fodlon na fydd y llwyth ychwanegol o ddatblygiad fforddiadwy yn tanseilio'r gwaith o gyflawni'r amcanion cadwraeth. Mewn geiriau eraill, ni fydd y llwyth ychwanegol yn cael unrhyw ddylanwad ystyrlon ar effeithiolrwydd y camau sydd i'w cymryd i gyflawni'r amcanion cadwraeth, nac ychwaith yn achosi oedi i'r gwaith o gyflawni amcanion o'r fath. Mae penderfynu na fydd cwantwm datblygiad o fewn dalgylch yn effeithio'n andwyol ar uniondeb safle yn wahanol i benderfyniad sy'n nodi na fydd unrhyw effaith o gwbl. Mae'r cysyniad o uniondeb safle yn ganolog ac nid yw pob effaith yn cynrychioli effaith andwyol ar uniondeb safle.

**Blwch 6.3.1: Enghraifft o resymu synnwyr cyffredin sy'n seiliedig ar y sector**

Amserlen ar gyfer cyflawni'r gwelliant drwy Adolygiad Trwyddedau CNC = YYYY

Gostyngiad disgwyliedig yn y llwyth o welliannau Adolygiad Trwyddedau CNC = Xkg/dydd

Dros y cyfnod hwnnw, bydd y llwyth ychwanegol o dai fforddiadwy arfaethedig yn y dalgylch yn cyfrannu xkg/dydd a fydd yn achosi oedi i'r gwaith o gyflawni gwelliannau Adolygiad Trwyddedau o xxxx.

Ni fydd effeithiau cyfunol cynigion tai fforddiadwy arfaethedig yn tanseilio'r gwaith o gyflawni'r amcanion cadwraeth trwy fentrau eraill, ac ni fyddant yn cynrychioli effaith andwyol ar uniondeb safle.

6.3.6 Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â Dyfarniad Nitrogen yr Iseldiroedd (cyfeiriwch at Atodiad 3) a gadarnhaodd yn bendant nad yw'r Gyfarwyddeb yn atal defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar drothwy. Sefydlodd y dyfarniad ofyniad i unrhyw ddull sy'n seiliedig ar drothwy gael ei gefnogi gan 'asesiad ymlaen llaw' i ddangos nad oes amheuaeth wyddonol resymol ynghylch diffyg effeithiau andwyol (o effeithiau cyfunol cynigion sy'n dod o fewn cwmpas dull trothwy) ar uniondeb y safleoedd dan sylw.

6.3.7 Mae dull synnwyr cyffredin hefyd yn cael ei gefnogi gan Lysoedd y DU yn achos ***Boggis***[21] sy'n cydnabod, er bod angen dull rhagofalus o dan y Rheoliadau Cynefinoedd, bod yn rhaid bod tystiolaeth gredadwy bod risg ganfyddedig i'r safle dan sylw yn real, yn hytrach na'n ddamcaniaethol. Felly, gellir ystyried y cyfraniad cymharol o ddatblygiad tai fforddiadwy yng ngoleuni i ba raddau y mae tystiolaeth gredadwy ei fod yn cynrychioli risg wirioneddol i uniondeb y safle dan sylw, neu a yw'r risg honno'n ddamcaniaethol.

6.3.8 Yn olaf, cefnogir y dull hwn hefyd gan egwyddor 8 yn adran C.8 o'r Llawlyfr HRA[22] sy'n cydnabod y gall sefyllfaoedd penodol...

> *'might lead to a conclusion that the risk of the subject proposal contributing to a significant adverse effect in combination is hypothetical rather than realistic. Where this is the case, cumulative effects are taken into account, and excluded on the basis of lack of credibility, without having to identify all other plans and projects and undertake what might be a costly and time consuming assessment, on the basis of effects which are not credible. To put it another way, such an effect can properly be described as: an 'insignificant effect'; or a 'de minimis' effect; or a 'trivial' effect; or as having 'no appreciable effect'.*

6.3.9 Y rhagdybiaeth sylfaenol gyda dadl synnwyr cyffredin sy'n seiliedig ar y sector yw y bydd cynigion datblygu eraill yn y dalgylch yn destun asesiad llawn naill ai ar eu pennau eu hunain neu'n gyfunol â'i gilydd i sicrhau y bydd effeithiau 'arwyddocaol' (h.y. y rhai sy'n cynrychioli risg ystyrlon i'r amcanion cadwraeth) yn dal i gael eu datrys.

## 6.4 Sut mae'r defnydd o ddull sy'n seiliedig ar drothwy yn llywio'r HRA

6.4.1 Gellir cymhwyso dull sy'n seiliedig ar drothwy yn y penderfyniad ynghylch yr effaith arwyddocaol debygol. Mae'n cael ei gyfiawnhau ar y sail bod penderfyniad wedi'i wneud nad yw'r datblygiad yn tanseilio'r amcanion cadwraeth ac felly ni all fod yn 'arwyddocaol'.

## 6.5 Y camau nesaf

6.5.1 Os nad yw dull sy'n seiliedig ar drothwy yn cael ei ystyried yn briodol, neu os yw cwantwm y datblygiad yn golygu na fydd dull sy'n seiliedig ar drothwy yn briodol, bydd angen symud ymlaen i gam 2 yn adran 7.

[21] Boggis v Natural England and Waveney DC paragraff 37 [2009] EWCA Civ 1061

[22] Tyldesley, D., and Chapman, C., (2013) The Habitats Regulations Assessment Handbook, (Feb) (2024) edition UK: DTA Publications Limited

# 7 Llwybr Cyflawni cam 2 – A ellir cyflawni datblygiad yn absenoldeb lliniaru pellach?

## 7.1 Cyngor CNC i awdurdodau cynllunio

7.1.1 Cyhoeddodd CNC gyngor i awdurdodau cymwys ym mis Awst 2023 (fersiwn gyfredol dyddiedig Mehefin 2024). Wrth ystyried y cyngor, mae awdurdodau cynllunio yn parhau i fod yn gyfrifol am eu hasesiadau eu hunain o dan y Rheoliadau Cynefinoedd ac felly rhaid iddynt fod yn fodlon bod y dull a awgrymir gan CNC, ac unrhyw ragdybiaethau sylfaenol, yn briodol.

7.1.2 Mae'r Adolygiad Trwyddedau yn defnyddio dull 'cyfran deg' lle mae gwelliannau i ffynonellau a ganiateir yn gymesur â'u cyfraniad at y llwyth cyffredinol. Mae'r dull cyfran deg yn cyd-fynd â'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu i sicrhau bod beichiau a roddir ar wahanol sectorau yn deg. **Y rhagdybiaeth sylfaenol yw, yn ogystal â'r gwelliannau arfaethedig i drwyddedau, y bydd camau eraill i gyflawni gostyngiadau angenrheidiol (cymesur) o sectorau eraill hefyd yn cael eu cyflawni. O dan ddull cyfran deg, gall cyflawni'r amcanion cadwraeth felly fod yn dibynnu ar y gwelliannau sy'n cael eu cyflawni trwy'r Adolygiad Trwyddedau *ac* ar gyflawni camau eraill yn amserol i sicrhau gostyngiadau angenrheidiol o sectorau eraill.**

7.1.3 Bydd angen i awdurdodau cynllunio ystyried goblygiadau dull cyfran deg ar gyfer y dalgylch ACA dan sylw. O ystyried rhagdybiaeth sylfaenol dull cyfran deg, oni bai bod tystiolaeth leol ar gael i'r gwrthwyneb, dylid tybio na fydd diwygiadau arfaethedig Adolygiad Trwyddedau CNC ar eu pennau eu hunain yn ddigon i gyrraedd targedau P i lawr yr afon. Fodd bynnag, os yw tystiolaeth leol yn awgrymu y gallai diwygiadau arfaethedig i drwyddedau CNC ar gyfer gwaith trin dŵr penodol fod yn ddigonol i gyrraedd targedau ffosfforws i lawr yr afon, nid yw'r cwestiwn cyfran deg yn berthnasol. Felly, y cwestiwn cyntaf i roi sylw iddo yw:

**C. A fydd diwygiadau arfaethedig Adolygiad Trwyddedau CNC yn cyflawni'r targedau P i lawr yr afon?**

Bydd – Ewch i 7.2
Na fydd - Ewch i adran 8.

## 7.2 A ellir cyflawni datblygiad yn unol â chanllawiau CNC?

7.2.1 Pan fo'r gwelliannau a gyflwynwyd i drwyddedau CNC yn ddigonol i gyflawni targedau P i lawr yr afon, **nid oes angen i awdurdodau cynllunio fodloni eu hunain mewn perthynas â rhagdybiaethau a wneir o dan ddull 'cyfran deg'** a gellir dilyn cyngor CNC sydd ar gael yma. Mae cyngor CNC yn nodi meini prawf y dylid eu bodloni er mwyn caniatáu i ddatblygiad ddibynnu ar welliannau wedi'u trefnu gan yr Adolygiad Trwyddedau a dylid eu dilyn yn unol â hynny.

7.2.2 Cyngor CNC i awdurdodau cynllunio yw rhoi amod ar amseriad datblygiad i gyfateb i gyflawni gwelliannau yn y dyfodol mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff a drefnir o dan y Rhaglen Rheoli Asedau. O ganlyniad, efallai y bydd angen i awdurdodau cynllunio ystyried y dyddiadau gweithredu ar gyfer gwelliannau wedi'u trefnu a'r graddau y gellir cyflawni datblygiad mewn pryd.

**C. A ellir bodloni'r meini prawf perthnasol a nodir o fewn cyngor CNC fel y gellir cyflawni'r datblygiad?**

Gellir - Gan dybio bod yr ymgymerwr carthffosiaeth wedi cadarnhau capasiti i drin dŵr gwastraff ychwanegol o'r datblygiad arfaethedig, gellir rhoi caniatâd gyda'r amodau angenrheidiol.
Na ellir - Ewch i adran 8.

# 8 Llwybr Cyflawni cam 3 – A ellir cyflawni datblygiad yn unol â dull sy'n seiliedig ar liniaru?

## 8.1 Cyflwyniad

8.1.1 Mae'r angen i ystyried opsiynau lliniaru yn codi lle nad yw dull sy'n seiliedig ar drothwy yn briodol, ac ni ellir cyflawni datblygiad trwy ddibynnu ar ddiwygiadau i drwyddedau CNC. Wrth ystyried opsiynau lliniaru, dylid ystyried y gwaith o gyflawni'r datblygiad yn amserol fel yr eglurir ym mlwch 8.1.1 isod.

| **Blwch 8.1.1: Cyflawniad amserol datblygiad wrth ystyried opsiynau lliniaru** |
|---|
| At ddibenion y canllawiau hyn, mae angen cydnabod y gall fod angen i'r dull o sicrhau opsiynau lliniaru ystyried amserlenni cyflawni. Gall y gwaith o gyflawni rhywfaint o ddatblygiad fod yn gysylltiedig â thargedau'r Llywodraeth (e.e. tai fforddiadwy) a gall oedi fod yn fater sy'n ymwneud â budd i'r cyhoedd. Pan na ellir cyrraedd y targed trwy ddibynnu ar opsiynau sy'n seiliedig ar liniaru, dylai awdurdodau cynllunio ystyried y profion rhanddirymu cyn gwrthod caniatâd ar gyfer cynigion datblygu tai fforddiadwy.<br><br>Er y bydd yr amserlen hon yn dylanwadu ar yr opsiynau sy'n cael eu hystyried yn gyraeddadwy, rhaid gwneud pob ymdrech i gytuno ar ddull sy'n seiliedig ar liniaru ac ni ddylid defnyddio amserlenni heriol fel esgus i osgoi asesiad llawn o opsiynau. Dim ond lle nad yw dulliau sy'n seiliedig ar liniaru yn ymarferol y gellir archwilio opsiynau sy'n seiliedig ar randdirymu. **Wrth eithrio opsiynau sy'n seiliedig ar liniaru ar sail cyfyngiadau amserlen ar gyfer cynigion datblygu sy'n darparu budd cyhoeddus, disgwylir y bydd yr *holl* opsiynau wedi'u harchwilio, gan gynnwys y rhai sy'n dibynnu ar arfer pwerau statudol.** Felly, nid yw'n dderbyniol symud ymlaen i ddull sy'n seiliedig ar randdirymiad ar sail awydd i osgoi arfer pwerau statudol. |

## 8.2 A yw camau gweithredu 'cyfran deg' eraill i gyflawni gwelliannau pellach wedi'u sicrhau?

8.2.1 Pan nad yw'r gwelliannau a gyflwynwyd i drwyddedau CNC yn ddigonol i gyflawni targedau P i lawr yr afon, bydd angen i awdurdodau cynllunio fodloni eu hunain mewn perthynas â rhagdybiaethau a wneir o dan ddull 'cyfran deg' a 'chamau gweithredu eraill' y mae angen eu cymryd er mwyn cyflawni gwelliannau pellach i fodloni dyletswyddau o dan Erthygl 6(2) er mwyn osgoi dirywiad, gan fod yn ymwybodol o ddyletswyddau cysylltiedig ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i ddiogelu, gwarchod ac adfer safleoedd Ewropeaidd[23].

8.2.2 Dylid cymhwyso'r meini prawf a nodir ym mholisi WG2 i benderfynu a yw camau gweithredu eraill y mae CNC yn dibynnu arnynt wrth fabwysiadu dull cyfran deg wedi'u 'sicrhau'. Mae polisi WG2 yn glir y gellir ystyried camau gweithredu eraill yn 'ddiogel' os:

- Amcangyfrifwyd graddfa'r gwelliannau pellach sy'n angenrheidiol i osgoi dirywiad o weithgareddau presennol/parhaus (cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol bosibl ar sail y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd);

[23]https://www.llyw.cymru/dyletswydd-i-ddiogelu-gwarchod-ac-adfer-safleoedd-ewropeaidd-html

- Mae'r 'camau priodol' sydd i'w cymryd wedi'u nodi'n glir a'u cysylltu â mecanwaith cyflawni priodol, gan wneud defnydd cymesur o bwerau statudol fel sy'n angenrheidiol i hwyluso’r gwaith o gyflawni cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol;
- Mae amserlen glir ar gyfer gweithredu 'camau priodol' i'w cymryd gyda cherrig milltir cynnydd cyflawni cysylltiedig tuag at gyflawni targedau ffosfforws yr amcan cadwraeth;

**C. Gan gyfeirio at bolisi Llywodraeth 2, a yw camau gweithredu 'cyfran deg' eraill i gyflawni gwelliannau pellach eisoes wedi'u 'sicrhau'?**

Ydynt – Ewch i 8.4
Nag ydynt – Ewch i 8.3

## 8.3 A yw camau gweithredu 'cyfran deg' eraill i gyflawni gwelliannau angenrheidiol yn gyraeddadwy yn ymarferol?

8.3.1 Lle nad yw camau gweithredu 'cyfran deg' i gyflawni gwelliannau angenrheidiol wedi'u sicrhau eto, dylai awdurdodau cynllunio benderfynu a ellir sicrhau camau gweithredu o'r fath. Mewn geiriau eraill, a yw camau gweithredu pellach i gyflawni gwelliannau cyfran deg o ffynonellau eraill yn gyraeddadwy yn ymarferol?

8.3.2 Disgwylir i gyrff statudol perthnasol gyflawni camau gweithredu pellach fel y bo'n angenrheidiol i sicrhau gwelliannau angenrheidiol ac osgoi dirywiad ACAau. Dylid ystyried y defnydd cymesur o bwerau statudol i sicrhau gwelliannau mewn ansawdd dŵr cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Wrth fynd i'r afael â'r cwestiwn hwn, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gyrff cyhoeddus perthnasol weithredu yn unol â pholisi WG1, yr egwyddor datblygu cynaliadwy, a'r '5 ffordd o weithio' sydd eu hangen ar gyrff cyhoeddus i gyflawni'r saith nod llesiant[24].

8.3.3 Mae cymryd camau priodol i osgoi dirywiad yn bennaf o fewn cylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru a bydd y gwaith sy'n cael ei gynnal drwy Brosiect Afonydd ACA yn nodi i ba raddau y gellir cyflawni gwelliannau angenrheidiol yn ymarferol. Bydd angen i awdurdodau cynllunio weithio'n agos gyda CNC a rhanddeiliaid eraill i ddeall pa gamau pellach sydd eisoes yn cael eu cymryd ganddynt i fynd i'r afael â ffynonellau ffosffad presennol. Efallai na fydd cynnydd gyda chamau eraill yn bodloni meini prawf polisi WG2 ar hyn o bryd o ran eu bod eisoes wedi'u sicrhau, ond gall awdurdodau cynllunio ystyried pa waith ychwanegol a allai fod ei angen i fodloni meini prawf polisi WG2.

8.3.4 Mae manylion am y mesurau y gellid eu cymryd i gyflawni targedau ffosfforws i lawr yr afon wedi'u cynnwys yn adran 12 a rhaid i gyrff statudol weithio gyda'i gilydd i nodi unrhyw gamau pellach a allai fod eu hangen i gyflawni gostyngiadau cyfran deg. Dylid arfer pwerau statudol yn gymesur i gyflwyno mesurau wedi'u targedu i sicrhau’r canlyniadau ecolegol gorau ac ystyriaethau effeithlonrwydd cost ac mae’r egwyddor leiaf beichus yn berthnasol. Caiff arfer pwerau statudol ei ystyried ymhellach yn adran 13.

[24] Cyfeiriwch at https://futuregenerations.wales/cym/darganfod/cenedlaethaur-dyfodol-cymru/deddf-cenedlaethaur-dyfodol-2015/

**C. O ran polisi WG2, a rhagdybiaethau CNC yn ystod yr Adolygiad Trwyddedau, a oes modd cyflawni camau gweithredu 'cyfran deg' eraill i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol yn ymarferol?**

Oes - Ewch i adran 8.4.
Nag oes - Ewch i adran 8.6.

## 8.4 Dull integredig o ddarparu mesurau rheoli, adfer a lliniaru

8.4.1 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gyrff cyhoeddus weithredu yn unol â pholisi WG2 a chymhwyso'r 5 ffordd o weithio fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru; integreiddio, y tymor hir, atal, cyfranogiad a chydweithio. Er mwyn sicrhau na fydd cyflawni datblygiad yn tanseilio'r gwaith o gyflawni'r amcanion adfer, i hwyluso integreiddio a chydweithio ymhlith rhanddeiliaid, a sicrhau bod penderfyniadau datblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, oni bai bod amgylchiadau lleol yn dangos fel arall, **mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gyrff cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i weithredu dull integredig o ddarparu mesurau rheoli, adfer a lliniaru yn Afonydd ACA Cymru. Yng nghyd-destun y canllawiau hyn, dylai'r dull integredig anelu at gydlynu camau gweithredu i sicrhau tuedd o welliant hirdymor mewn lefelau maethynnau o fewn dalgylchoedd ACA wrth reoli twf (a bygythiadau a phwysau eraill) yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Darperir canllawiau pellach ar ddull integredig o ddarparu mesurau rheoli, adfer a lliniaru yn adran 11.**

8.4.2 Mae gan awdurdodau cymwys ddyletswydd i ddiogelu, gwarchod ac adfer safleoedd Ewropeaidd. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol pan fydd awdurdodau cymwys yn gwneud penderfyniadau a allai effeithio ar safle, ac mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl i awdurdodau cymwys weithredu yn unol â'r ddyletswydd honno wrth ystyried eu rôl mewn dull integredig o reoli, adfer a lliniaru. Os gall corff cyhoeddus gymryd camau ond yn penderfynu peidio â gwneud hynny, dylent allu rhoi rhesymau clir a phriodol pam eu bod wedi gwneud y penderfyniad hwnnw[25]. Mae dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried sut y gallant helpu i:

- diogelu, gwarchod neu adfer nodweddion dynodedig y safle i gyflawni eu hamcanion cadwraeth
- atal dirywiad cynefinoedd y safle rhag gweithgarwch dynol neu newidiadau naturiol, gan gynnwys cynefinoedd sy'n cefnogi rhywogaethau dynodedig
- atal tarfu sylweddol ar rywogaethau dynodedig y safle rhag gweithgarwch dynol neu newidiadau naturiol

8.4.3 Pan fo awdurdodau cynllunio yn penderfynu nad yw dull integredig o reoli, adfer a lliniaru yn gyraeddadwy yn ymarferol, dylent roi esboniad i Lywodraeth Cymru i gefnogi'r safbwynt hwn wrth gynnig defnyddio'r llwybr rhanddirymu.

[25] Cyfeiriwch at https://www.llyw.cymru/dyletswydd-i-ddiogelu-gwarchod-ac-adfer-safleoedd-ewropeaidd-html

8.4.4 Lle mae dull integredig o ddarparu mesurau rheoli, adfer a lliniaru yn gyraeddadwy yn ymarferol, bydd angen i awdurdodau cynllunio ystyried a ellid defnyddio cyfraniadau datblygwyr i gyflawni mesurau lliniaru integredig i ganiatáu i ddatblygiadau gael eu cyflawni. **Darperir canllawiau pellach ar nodi opsiynau lliniaru fel rhan o ddull integredig o ddarparu mesurau rheoli, adfer a lliniaru yn adran 11.**

**C. Gan ystyried polisi WG3, a ellir defnyddio cyfraniadau datblygwyr i gyflawni mesurau lliniaru integredig i ganiatáu i ddatblygiad gael ei gyflawni?**

Gellir: Ewch i adran 8.5.
Na ellir - Ewch i adran 8.6.

## 8.5 A yw dull cafeat polisi i sicrhau cyd-ddibyniaeth rhwng cerrig milltir cyflawni cysylltiedig a thwf arfaethedig yn galluogi datblygiad i gael ei gyflawni mewn modd amserol?

8.5.1 Bydd camau sy'n cael eu cymryd (neu i'w cymryd) i osgoi dirywiad o dan Erthygl 6(2) yn arwain at gyflwr sylfaenol sy'n gwella ar y safle dan sylw. Wrth gymhwyso'r prawf uniondeb o dan reoliad 63, gall awdurdodau cynllunio roi sylw i amodau sylfaenol sy'n gwella ac sydd wedi'u 'sicrhau' (cyfeiriwch at 5.2).

8.5.2 Mae'r angen i ddatblygu gael ei gyflawni 'mewn pryd' yn cydnabod y gallai rhai cynigion datblygu fod yn gysylltiedig â thargedau'r Llywodraeth sydd o bosibl yn codi materion ynghylch budd y cyhoedd (cyfeiriwch at flwch 8.1.1). Mae'r elfen 'mewn pryd' yn berthnasol <u>dim ond</u> pan fo'r angen i ddatblygu ddigwydd o fewn amserlen benodol er budd y cyhoedd, fel y gallai oedi o ran cyflawni targedau perthnasol y Llywodraeth gael eu pwyso yn erbyn y buddiannau cadwraeth a allai fod mewn perygl o ganiatáu dirywiad pellach yn ansawdd y dŵr o fewn y dalgylch afon ACA dan sylw. Lle mae 'camau gweithredu eraill' wedi'u sicrhau, gall awdurdodau cynllunio ystyried a fydd dull cafeat polisi (cyfeiriwch at adran 14) i sicrhau cyd-ddibyniaeth rhwng cerrig milltir cyflawni cysylltiedig a thwf arfaethedig yn galluogi datblygiad i gael ei gyflawni mewn modd amserol. Os felly, gellir rhoi caniatâd gyda'r amodau angenrheidiol.

8.5.3 Gan gyfeirio at bolisi WG2, lle mae awdurdod cynllunio yn fodlon bod datblygiad *newydd* yn dibynnu ar drwydded *bresennol*, ac y gellir dibynnu ar gamau gweithredu priodol **sydd i'w cymryd** i gyflawni gwelliannau cyfran deg, fel na fydd datblygiad newydd yn achosi effaith andwyol ar uniondeb y safle o ystyried y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd, dylid cymhwyso dull cafeat polisi a gellir dyrannu'r capasiti a ganiateir i dwf. Ceir rhagor o fanylion am ddull cafeat polisi a sut y dylid ei gymhwyso yn adran 14.

**C. A fydd dull cafeat polisi i sicrhau cyd-ddibyniaeth rhwng cerrig milltir cyflawni cysylltiedig a thwf arfaethedig yn galluogi datblygiad i gael ei gyflawni mewn modd amserol?**

Bydd - Gan dybio bod yr ymgymerwr carthffosiaeth wedi cadarnhau capasiti i drin dŵr gwastraff ychwanegol o'r datblygiad arfaethedig, gellir rhoi caniatâd o dan ddull cafeat polisi gyda'r amodau angenrheidiol.
Nag oes - Ewch i adran 8.6.

## 8.6 A ellir sicrhau gweithgaredd lliniaru dan arweiniad datblygwyr i sicrhau niwtraliaeth maethynnau ar hyd oes y datblygiad?

8.6.1 Pan fo cyrff cyhoeddus yn cytuno na ellir sicrhau camau gweithredu 'cyfran deg' i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol (ac mae CNC wedi cadarnhau bod targedau P ar gyfer y darnau o afonydd dan sylw yn parhau i fod yn briodol) neu lle nad yw dull integredig o gyflawni mesurau rheoli, adfer a lliniaru yn gyraeddadwy yn ymarferol, neu lle y gallai hynny beryglu’r gwaith o wireddu amserlenni perthnasol y Llywodraeth, fe fydd angen ystyried mesurau lliniaru ar arweinir gan ddatblygwyr i gyflawni niwtraliaeth maethynnau ar hyd oes y datblygiad arfaethedig.

8.6.2 Darperir canllawiau pellach ar niwtraliaeth maethynnau yn adran 15 ac ystyrir mesurau a allai fod yn gyraeddadwy i ddarparu niwtraliaeth yn adran 12.

**C. A ellir sicrhau mesurau lliniaru dan arweiniad datblygwyr i gyflawni niwtraliaeth maethynnau ar hyd oes y datblygiad er mwyn cyflawni datblygiad mewn modd amserol?**

Gellir: Gan dybio bod yr ymgymerwr carthffosiaeth wedi cadarnhau capasiti i drin dŵr gwastraff ychwanegol o'r datblygiad arfaethedig, gellir rhoi caniatâd o dan ddull cafeat polisi gyda'r amodau angenrheidiol.

Na ellir - Ewch i adran 9.

# 9 Llwybr cyflawni cam 4 – A ellir cyflawni datblygiad trwy ddull sy'n seiliedig ar randdirymu?

## 9.1 Cyflwyniad

9.1.1 Dylid ystyried opsiynau i gyflawni datblygiad trwy ddull sy'n seiliedig ar randdirymu fel dewis olaf. Mae'n ddisgwyliad gan Lywodraeth Cymru y bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i nodi dulliau sy'n seiliedig ar drothwy a lliniaru.

9.1.2 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd yr egwyddor gweithredu dan arweiniad dalgylch ac, lle nad ystyrir bod opsiynau sy'n seiliedig ar drothwy neu liniaru ar gael, gellir ystyried dull sy'n seiliedig ar randdirymu fel dewis olaf. Dylid hysbysu Llywodraeth Cymru os bydd penderfyniad i symud ymlaen gyda dull sy'n seiliedig ar randdirymu yn cael ei wneud gyda chyfiawnhad pam nad yw dulliau seiliedig ar drothwy neu liniaru yn gyraeddadwy.

9.1.3 Wrth ystyried sut y gallai dull seiliedig ar randdirymu weithio yn ymarferol, mae angen cydnabod bod datblygiadau sy'n gysylltiedig â pholisïau neu dargedau diffiniedig y Llywodraeth yn fwy tebygol o fod yn berthnasol, er y bydd angen cydnabod bod targedau'r Llywodraeth yn aml yn berthnasol ar lefel gwlad yn hytrach na lefel dalgylch. Er enghraifft, mae'r targed tai fforddiadwy ar adeg ysgrifennu[26] yn berthnasol ledled Cymru gyfan. Nid oes unrhyw awdurdod cymwys unigol yn gyfrifol am ddarparu 20,000 o gartrefi newydd; yr amcan cyffredinol yw darparu 20,000 o gartrefi carbon isel newydd i'w rhentu yng Nghymru o fewn y sector cymdeithasol yn ystod tymor presennol y Llywodraeth (2021-2026).

9.1.4 Fodd bynnag, mae awdurdodau cymwys unigol yn gyfrifol am wneud darpariaeth ar gyfer safleoedd tai fforddiadwy yn eu cynlluniau datblygu. Bydd safleoedd o'r fath yn cynnwys o leiaf 50% o dai fforddiadwy yn seiliedig ar feini prawf sy'n adlewyrchu amgylchiadau lleol a nodir yn y cynllun. Byddant yn cael eu diffinio fel tai rhent cymdeithasol a ddarperir gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a thai canolradd lle mae prisiau neu renti yn uwch na rhent cymdeithasol ond yn is na lefelau'r farchnad ac mae trefniadau sicr i ailgylchu derbyniadau i'w defnyddio ar gyfer tai fforddiadwy yn y dyfodol lle cyflawnir perchnogaeth lawn. **Er mwyn cymhwyso'r profion rhanddirymu ar lefel dalgylchoedd afonydd ACA, efallai y bydd angen trosi 'amcan' cyffredinol Cymru mewn perthynas â chartrefi fforddiadwy i gynlluniau datblygu lleol neu strategol trwy Asesiadau o’r Farchnad Dai Leol (LHMA).** Gellid disgrifio 'amcan' ceisiadau datblygu o fewn dalgylch penodol o ran nifer y tai fforddiadwy y mae angen eu darparu o fewn y dalgylch hwnnw yng ngoleuni'r targed cyffredinol ar gyfer Cymru. Yn ddelfrydol, bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy Gyd-bwyllgorau Corfforedig a’r gwaith o baratoi cynlluniau datblygu strategol, neu drwy gydweithredu priodol rhwng awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi CDLlau.

9.1.5 Bydd angen cyfiawnhau’r gwaith o ddeillio targedau lleol neu ranbarthol ar gyfer datblygu a bydd yr LMHA yn llywio hynny. Bwriad targedau'r Llywodraeth mewn perthynas â thai fforddiadwy yw hwyluso mynediad at dai fforddiadwy lle mae angen yn codi a rhagwelir y bydd Cynlluniau Datblygu eisoes yn cynnwys targedau ar gyfer tai fforddiadwy a bydd safleoedd yn cael eu dyrannu i fynd i'r afael â'r angen hwn. Bydd angen i awdurdodau cynllunio wneud yr achos dros hap-safleoedd y gellir eu cyfiawnhau yn unol â LHMA. Dylai

[26] Gall targedau sydd ar waith ar hyn o bryd newid dros amser. Wrth gymhwyso'r canllawiau hyn, dylid defnyddio'r targedau diweddaraf a’r rhai a ddiweddarwyd ddiwethaf.

safleoedd a ddyrannwyd a hap-safleoedd gyfrannu at gyflawni targedau lleol mewn perthynas â'r angen a nodwyd, ynghyd â bodloni'r egwyddor penodol i'r dalgylch (cyfeiriwch at adran 4).

## 9.2 Dangos absenoldeb datrysiadau amgen

9.2.1 Profi'r datrysiadau amgen yw cam y broses randdirymu sy'n cael ei gamddeall amlaf. Mae'r geiriad yn bwysig; y gofyniad yw i'r awdurdod cymwys fodloni *eu hunain* ynghylch absenoldeb datrysiadau amgen; mae hwn yn gwestiwn gwahanol i absenoldeb 'dewisiadau amgen' mewn ystyr fwy cyffredinol.

9.2.2 Er mwyn bod yn ddatrysiad amgen, mae angen deall yn gyntaf beth sydd angen ei *ddatrys* mewn ffordd wahanol. Mewn geiriau eraill, beth yw'r amcan y mae'r cynllun neu'r prosiect yn ceisio ei gyflawni ac a oes ffordd arall o'i gyflawni? Neu, pa broblem mae'r cynllun neu'r prosiect yn ei datrys ac a oes ffordd arall o'i datrys? Wrth ofyn y cwestiwn hwnnw (pa bynnag ffordd y byddwch chi'n ei eirio) mae datrysiad amgen yng nghyd-destun y rhanddirymiadau yn un sy'n cyflawni'r amcan, neu'n datrys y broblem, mewn ffordd sy'n llai niweidiol i safleoedd Ewropeaidd o'i chymharu â'r cynnig gwreiddiol.

9.2.3 Y cam cyntaf felly yw diffinio amcan y cynnig, neu'r broblem y mae'n ceisio ei datrys. Bydd yr amcanion neu'r dibenion yn gosod y fframwaith ac o fewn hynny bydd y gwaith o chwilio am ddatrysiadau amgen yn cael ei gyfyngu; bydd hyn felly yn rhoi ffocws i'r gwaith ymchwilio. Mae canllawiau'r CE[27] yn esbonio fel hyn: '*The first task is to review possible alternatives that could exist for achieving the objectives of the plan or project'*.

*9.2.4* Cyfrifoldeb awdurdodau cynllunio yw gosod eu hamcanion eu hunain ond dylent fod yn unol â pholisi a chanllawiau ym Mholisi Cynllunio Cymru a TAN 2 Cynllunio a Thai Fforddiadwy a bod yn seiliedig ar gydweithrediad effeithiol ar draws ardaloedd gweinyddol lle mae hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod modd diwallu anghenion mewn ardaloedd priodol o fewn dalgylchoedd Afonydd ACA.

9.2.5 Yna gellir cynnal asesiad i ddangos absenoldeb datrysiadau amgen gan gyfeirio at yr amcanion sy'n seiliedig ar y lle. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru wedi nodi targed sydd i'w gyflawni o fewn amserlen benodol. Nid yw datrysiadau amgen yn ddewisiadau amgen ymarferol os bydd y broses o gyflenwi tai yn cael ei gohirio y tu hwnt i amserlenni sy'n gysylltiedig â thargedau penodol.

9.2.6 Cadarnhawyd y cyfeiriad at amserlenni cyflawni o fewn amcanion y prosiect at ddibenion cymhwyso'r profion rhanddirymu gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth ystyried absenoldeb datrysiadau amgen i fferm wynt alltraeth Hornsea Project 3[28]. Yn yr achos hwn, roedd yr amcanion terfynol a ddrafftiwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, y gwerthuswyd datrysiadau amgen yn eu herbyn, yn cynnwys amcan i '*deliver a significant volume of offshore wind in the 2020s*.'

[27] Assessment of plans and projects in relation to Natura 2000 sites – Methodological guidance on the provisions of Article 6(3) and (4) of the Habitats Directive, EC 2021.
[28] https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN010080/EN010080-003267-EN010080%20Hornsea%20Three%20-%20Habitats%20Regulations%20Assessment.pdf

9.2.7 Mae Blwch 9.2.1 isod yn nodi polisi perthnasol Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol wrth ystyried datrysiadau amgen fel y'i deilliwyd o gyfraith achosion a phenderfyniadau a chanllawiau awdurdodol.

**Blwch 9.2.1: Wrth ddangos absenoldeb datrysiadau amgen, mae'r safbwyntiau polisi canlynol yn berthnasol:**

- **Mae gwahaniaeth gwirioneddol, o ran sylwedd ac effaith, rhwng 'datrysiadau amgen' yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a 'dewisiadau amgen rhesymol' yn y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol. Nid yw o reidrwydd yn afresymol nac yn ddireswm cynnwys dewis arall fel 'dewis amgen rhesymol' o dan Asesiad Amgylcheddol Strategol tra'n ei wrthod fel 'datrysiad amgen' o dan HRA[29].**
- **Mae asesiad o ddatrysiadau amgen o reidrwydd wedi'i gyfeirio at amcanion neu ddibenion nodedig y cynnig gwreiddiol[30]. Mewn geiriau eraill, beth yw'r broblem y mae'r cynllun neu'r prosiect yn ceisio ei datrys ac a oes ffordd arall i'w datrys?**
- **Dylid diffinio amcanion neu ddibenion cynnig yng ngoleuni amcanion polisi perthnasol y Llywodraeth sy'n sail i'r angen am y cynnig[31].**
- **Wrth ystyried datrysiadau amgen, nid yw'r dewis yn cael ei benderfynu'n anochel gan ba ddewis amgen sy'n achosi'r effaith leiaf andwyol ar y safle dan sylw, yn hytrach dylid cadw cydbwysedd rhwng yr effeithiau andwyol a'r rhesymau perthnasol er budd cyhoeddus tra phwysig[32].**

## 9.3 Resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig

9.3.1 Os yw penderfynwr yn fodlon nad oes datrysiadau amgen sy'n galluogi amcanion y prosiect i gael eu cyflawni, bydd angen pwyso'r budd cyhoeddus a wireddir yn erbyn y budd cadwraeth sydd mewn perygl. Bydd y cam hwn yn gofyn am ystyried goblygiadau ecolegol llwyth maethynnau ychwanegol yng ngoleuni'r budd cyhoeddus sy'n cael ei wireddu trwy gyflawni datblygiad. Mae'r penderfyniad sydd angen ei wneud fel a ganlyn, sef a yw'r budd cyhoeddus yn drech, neu'n dwyn mwy o bwysau, na'r budd cadwraeth a allai fod mewn perygl.

9.3.2 Wrth ystyried rhesymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig, rhaid i benderfynwyr fod yn fodlon yn gyntaf bod y cynnig yn gwireddu budd cyhoeddus. Nid yw'n angenrheidiol i'r cynnig wireddu budd cyhoeddus *yn unig* (sy'n annhebygol) ond rhaid bod budd cyhoeddus yn cael ei wireddu. Ni ddylid rhoi ystyriaeth bellach i gynlluniau a phrosiectau sy'n gwireddu buddiannau preifat yn unig.

9.3.3 Mae elfen y penderfyniad sy'n 'drech' yn farn sy'n gofyn i bob pwrpas a yw'r angen am y prosiect yn gorbwyso (neu'n drech na) y budd cadwraeth y gellid ei golli/niweidio. Gall hyn fod yn amlwg mewn rhai achosion. Er enghraifft, roedd natur drechol bwnd tswnami i amddiffyn Gorsaf Bŵer Niwclear Dungeness yn amlwg wrth wynebu'r posibilrwydd o golli cynefin graean â llystyfiant. Mewn achosion eraill, mae angen i'r penderfyniad gael ei lywio gan bwysau neu bwysigrwydd cymharol y budd cadwraeth sydd mewn perygl.

[29] Plan B Earth v SoS and Heathrow Airport [2020] EWCA Civ 214 – cyfeiriwch at baragraff 113
[30] Spurrier v SoS and Heathrow Airport [2019] EWHC 1070 (Admin) – cyfeiriwch at baragraff 334
[31] Spurrier v SoS and Heathrow Airport [2019] EWHC 1070 (Admin) – cyfeiriwch at baragraff 335
[32] Achos C-239/04 EC v Portugal (Achos Castro Verde) - AG Opinion para 45

9.3.4 Gall paragraff 2 o reoliad 64 achosi dryswch. Mae'r paragraff hwn yn nodi, pan fo'r safle yn cynnal cynefin neu rywogaeth â blaenoriaeth, rhaid i resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig fod yn rhesymau sy'n ymwneud ag iechyd pobl, diogelwch y cyhoedd neu ganlyniadau manteisiol o bwysigrwydd sylfaenol i'r amgylchedd. Mae'r is-baragraff cyntaf hwn wedi'i ddehongli i awgrymu mai dim ond y rhesymau hyn y gellir eu hystyried pan effeithir ar nodweddion blaenoriaethol o’r fath. Mae'r haeriad hwnnw'n anghywir gan fod y rheoliad yn parhau gyda 'or' pwysig ... ac yn mynd ymlaen i gyfeirio at *any other reasons*... gan roi sylw dyledus i farn Gweinidogion Cymru. Yn amodol ar geisio barn o'r fath felly, gellir ystyried rhesymau eraill o fudd cyhoeddus (gan gynnwys rhai o natur gymdeithasol neu economaidd) a fydd yn drech na’r budd cadwraeth lle mae cynefinoedd neu rywogaethau â blaenoriaeth mewn perygl.

9.3.5 Mae Blwch 9.3.1 isod yn nodi polisi perthnasol Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig.

**Blwch 9.3.1: Wrth ystyried rhesymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig ar gyfer cynnig datblygu, mae'r safbwyntiau polisi canlynol yn berthnasol:**

- **Wrth ystyried rhesymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig, mae’n angenrheidiol pwyso’r budd cyhoeddus sy'n cael ei wireddu yn erbyn y budd cadwraeth sydd mewn perygl.**
- **Mae tai yn gwireddu budd cyhoeddus ar raddfa genedlaethol a dylid rhoi pwyslais sylweddol ar fforddiadwyedd fel ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar y galw a'r angen am dai.**
- **O ystyried bod yr argyfwng tai presennol yn fater o frys, a maint cymharol y llwyth ffosffad ychwanegol o gartrefi fforddiadwy, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn debygol y bydd budd cyhoeddus a wireddir wrth gyflwyno cynigion fforddiadwy yn drech na’r buddion cadwraeth a allai fod mewn perygl.**

9.3.6 Os yw'r awdurdod cymwys yn fodlon bod y budd cyhoeddus yn drech na’r budd cadwraeth a allai fod mewn perygl, gellir rhoi caniatâd ar gyfer y datblygiad a sicrhau mesurau cydbwyso.

## 9.4 Mesurau cydbwyso

9.4.1 Gellir cyflawni mesurau cydbwyso fesul prosiect neu ar lefel strategol. Pe bai opsiwn sy'n seiliedig ar randdirymu yn symud ymlaen o fewn dalgylch ACA penodol, y cam mwyaf effeithiol fyddai sicrhau a chyflawni mesurau cydbwyso ar lefel strategol mewn perthynas â chwantwm y datblygiad sy'n debygol o gael ei gyflawni. Fodd bynnag, gellir mabwysiadu dull fesul achos hefyd lle mae'n fwy addas i amgylchiadau lleol, mae'r egwyddor dalgylch-benodol yn berthnasol.

9.4.2 Amcan mesurau cydbwyso yw diogelu cydlyniant cyffredinol y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol. Lle disgwylir y bydd cwantwm cyffredinol y datblygiad yn isel, ni ragwelir y bydd mesurau cydbwyso yn ormodol neu'n rhy feichus i'w nodi a'u cyflawni. Y cwestiwn sylfaenol i'w ddatrys wrth werthuso mesurau cydbwyso yw a ellir dibynnu ar y mesurau i gyflawni eu hamcanion. Yn ymarferol, mae hyn yn gofyn am werthuso:

- graddfa ofodol y mesurau

- lleoliad y mesurau
- amserlenni ar gyfer cyflawni mesurau
- sut yr eir ati i ymdrin ag ansicrwydd
- 'ychwanegoldeb' mesurau

9.4.3 Nid oes rheol gyffredinol i'w chymhwyso o ran y raddfa ofodol y dylid cyflawni mesurau drosti. Yn gyffredinol, derbynnir y dylai cymarebau cydbwyso fod yn llawer mwy na 1:1. Mae cymarebau cydbwyso mwy yn aml yn gysylltiedig â risgiau uwch o niwed, ansicrwydd neu oedi mewn mesurau sy'n cyflawni canlyniadau ecolegol.

9.4.4 Fel egwyddor, dylid lleoli mesurau cydbwyso mewn ardaloedd sy'n darparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer canlyniadau ecolegol. Mewn llawer o achosion, mae'n debygol y bydd yr amodau lleol sy'n angenrheidiol i adfer asedau ecolegol yn agos at yr ardal yr effeithir arni. Lle mae gwrthdaro rhwng agosrwydd at y safle a chanlyniadau ecolegol, yr amcan cyffredinol o sicrhau'r canlyniadau ecolegol gorau posibl fydd drechaf. Rhaid targedu mesurau cydbwyso at y nodwedd(ion) gymhwysol sydd mewn perygl ond gellir eu cyflwyno er budd safle gwahanol i'r un yr effeithir arno os oes rhwystrau i gyflawni mesurau effeithiol ar y safle yr effeithir arno.

9.4.5 Wrth ddangos digonolrwydd mesurau cydbwyso, mae canllawiau'r CE yn nodi, er mwyn sicrhau cydlyniant cyffredinol y rhwydwaith, y dylai mesurau cydbwyso fod yn 'ychwanegol' at y camau gweithredu arferol o dan y Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar[33]. Gall dryswch godi ynghylch sut y dylid dehongli'r cysyniad hwn o 'ychwanegoldeb' (h.y. yr angen i fesurau cydbwyso fod yn 'ychwanegol at y camau gweithredu arferol) wrth ddiffinio mesurau cydbwyso.

9.4.6 Mae'r cyfeiriad at 'fesurau normal/safonol' yn pwysleisio mai'r mesurau y mae'r comisiwn yn bwriadu eu heithrio yw'r rhai sy'n cael eu derbyn yn rhesymol fel 'arfer cyffredin' (h.y. o fewn ffiniau y sefyllfa ariannol a gwleidyddol arferol). Mae ymgynghoriad diweddar gan Defra mewn perthynas â chyflawni mesurau cydbwyso mewn ardaloedd morol gwarchodedig[34] wedi rhoi eglurhad pellach ac yn datgan y gellir nodi 'mesurau arferol' fel a ganlyn:

- cyfeirio at arferion rheoli ac adfer presennol a blaenorol sy'n ymwneud â'r safle dan sylw (neu safleoedd cyfatebol), ar yr amod nad yw'r arfer blaenorol yn gysylltiedig â gweithgaredd a ganiatawyd yn y gorffennol ac nad yw newidiadau i gyflwr y safle y golygu bod y gweithgaredd yn y gorffennol yn annerbyniol
- gwirio a oes mecanwaith cyflawni wedi'i nodi (gan gynnwys unrhyw gamau rheoleiddio a gorfodi angenrheidiol gan gorff cyhoeddus), a
- lle bo angen, gwirio a oes cyllid ar waith neu a oes disgwyliad rhesymol y bydd y mesur yn cael ei ariannu.

9.4.7 Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r canllawiau drafft a gyhoeddwyd gan Defra mewn perthynas â sut y dylid dehongli a chymhwyso'r cysyniad o ychwanegoldeb wrth

---

[33] -Mabwysiadwyd y Gyfarwyddeb Adar (Cyfarwyddeb 79/409/EEC) ym 1979. Fe'i diwygiwyd yn 2009 (Cyfarwyddeb 2009/147/EC) - gwnaed newidiadau i Atodiad II rhan B yn sgil derbyn Aelod-wladwriaethau newydd.

[34] https://consult.defra.gov.uk/offshore-wind-environmental-improvement-package/consultation-on-updated-guidance-for-environmental/

ddylunio mesurau cydbwyso. Yn absenoldeb canllawiau cyfatebol yng Nghymru, nodir y safbwyntiau a fynegwyd gan Defra isod gan eu bod yn adlewyrchu yr hyn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar faterion o'r fath ar adeg ysgrifennu. Mae canllawiau drafft Defra yn awgrymu na ellir ystyried mesurau yn ychwanegol:

- os y'u derbynnir yn rhesymol fel rhan o waith arferol rheoli safle gwarchodedig
- os ydynt yn gamau arferol i osgoi dirywiad neu aflonyddwch (neu'r ddau) neu'n mynd i'r afael â bygythiadau a phwysau i safleoedd gwarchodedig


9.4.8 Mae'r canllawiau yn parhau i nodi y gellir ystyried mesurau yn ychwanegol os ydynt yn gwella neu'n ymestyn neu'n ategu naill ai mesurau rheoli safle arferol neu'r camau arferol i osgoi dirywiad neu aflonyddwch (neu'r ddau). Mae hyn yn cynnwys mesurau a fyddai'n:

- cynyddu graddfa, maint neu gwmpas mesurau arferol
- cyflymu'r broses o gyflawni y tu hwnt i'r hyn a fyddai'n cael ei gyflawni fel arfer yn absenoldeb y cynllun neu'r prosiect arfaethedig a lle mae perygl o ddirywiad ecolegol ystyrlon yn y cyfamser o dan amserlenni gweithredu presennol

9.4.9 Bydd angen ystyried yr amserlenni ar gyfer cyflawni datblygiad yn ofalus wrth nodi mesurau cydbwyso. Fel egwyddor, dylai mesurau cydbwyso fod ar waith ac yn gweithio'n effeithiol cyn i risg o niwed godi a rhaid iddynt fod yn effeithiol am y cyfnod y disgwylir i effeithiau andwyol godi. Dylai dyluniad mesurau cydbwyso wneud pob ymdrech resymol i gydnabod ac ystyried yr amser sydd ei angen ar gynefinoedd/rhywogaethau i adfer neu sefydlu, ond mae amgylchiadau eithriadol lle na fydd hyn yn bosibl a gellir ystyried gor-gydbwyso lle disgwylir oedi.

9.4.10 Bydd angen i'r awdurdod cymwys fod yn fodlon y bydd mesurau cydbwyso yn cael eu cyflawni mewn modd amserol ac y gellir dibynnu arnynt i sicrhau cydlyniant cyffredinol y rhwydwaith safleoedd cenedlaethol. Mae monitro, ac ymrwymiadau clir i gymryd camau priodol lle mae mesurau'n methu â gweithio yn ôl y disgwyl, yn elfen bwysig o unrhyw becyn o fesurau cydbwyso.

## 10 Trosolwg o'r dull gweithredu



# 11 Canllawiau pellach - Dull integredig o ddarparu mesurau adfer, rheoli a lliniaru

## 11.1 Nodau dull integredig o ddarparu mesurau adfer, rheoli a lliniaru?

11.1.1 Nod cyffredinol dull integredig o adfer, rheoli a lliniaru (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel dull integredig) yw cyflawni'r gwaith adfer ar draws rhwydwaith ACA Cymru wrth hwyluso datblygiad yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy[35]. At ddibenion y canllawiau hyn, ac er ystyried effeithiau ansawdd dŵr, dylid cynllunio dull integredig i gyflawni tri **chanlyniad** cyffredinol.

- Canlyniad 1: **Adfer** - Cyflawni tuedd wella gyson hirdymor o ran lefelau maethynnau o fewn y dalgylch, gydag amserlen i gyflawni'r targedau amcan cadwraeth erbyn dyddiad amcangyfrifedig.
- Canlyniad 2: **Rheoli** - Rheoli twf (a bygythiadau a phwysau eraill) o fewn y dalgylch yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel na fydd y gallu i gyflawni canlyniad 1 yn cael ei danseilio.
- Canlyniad 3: **Lliniaru** - Mae cyflawni twf canlyniad 2 yn gofyn am roi dull integredig o liniaru ar waith.

11.1.2 Mae canlyniad **Adfer** yn bwysig yng ngoleuni'r ddyletswydd ar awdurdodau cymwys i 'ddiogelu, gwarchod ac adfer Safleoedd Ewropeaidd'[36]. Mae'r Llysoedd wedi sefydlu, lle mae rhagori eisoes ar safon amgylcheddol, bod y gallu ar gyfer twf pellach yn 'gyfyngedig o ran anghenrhaid'. Fel y cyfryw, yn absenoldeb mentrau rhagweithiol i gyflawni adfer, bydd cyflawni datblygiad o fewn dalgylchoedd ACA sydd eisoes â lefelau ffosffad sydd yn fwy na thargedau yn cael ei gyfyngu am gyfnod amhenodol.

11.1.3 Mae llinell sylfaen sy'n gwella, gydag amserlen ddiffiniedig i gyrraedd y targedau ffosffad yn ganolog i greu capasiti ar gyfer twf yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Cytunodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rhanddeiliaid Masnachu Maethynnau, wrth archwilio dichonoldeb masnachu maethynnau yng Nghymru, fod yr holl randdeiliaid eisiau gweld afonydd ACA yn gwella a '*There is no point investing time, energy and money in this solution unless a trading mechanism includes an element of betterment'.*[37]

11.1.4 Mae **Rheoli** twf a bygythiadau a phwysau eraill yn angenrheidiol os am gyflawni canlyniad 1. Rhaid rheoli graddfa'r datblygiad sy'n digwydd mewn dalgylchoedd ACA yn ystod cyfnod o adfer yn unol â'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy. Ni ddylai cyflawni twf beryglu gallu mentrau eraill i gyflawni canlyniad 1.

11.1.5 Mae angen am **Liniaru** yn dilyn yn naturiol o ganlyniadau 1 a 2. Ar ôl dylunio dull o gyflawni tuedd wella mewn ansawdd dŵr i gyrraedd targed diffiniedig erbyn dyddiad penodol, gellir cytuno ar ddull lliniaru i hwyluso cyflawni'r cwantwm cynaliadwy o ddatblygiad a ddiffinnir gan ganlyniad 2.

---

[35] Fel y'i diffinnir gan adran 2 o [Dddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)]

[36] https://www.llyw.cymru/dyletswydd-i-ddiogelu-gwarchod-ac-adfer-safleoedd-ewropeaidd-html

[37] Sleidiau Dichonoldeb Masnachu Maethynnau yng Nghymru, Trydedd Uwchgynhadledd Llygredd Afon, Tachwedd 2023.

11.1.6 Fel y nodir ym mholisi WG3. er mwyn sicrhau na fydd cyflawni datblygiad yn tanseilio'r gwaith o gyflawni'r amcanion adfer, ac i hwyluso integreiddio, ymgysylltiad a chydweithio, **oni bai bod amgylchiadau lleol yn dangos fel arall, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gyrff cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i weithredu dull integredig o ddarparu mesurau rheoli, adfer a lliniaru yn Afonydd ACA Cymru.**

11.1.7 Mae adrannau 11.3 i 11.6 yn esbonio sut y bydd dull integredig yn gweithio'n ymarferol gyda chanllawiau ategol pellach yn cael eu darparu yn adrannau 11.7-11.9. Cyn ystyried dull integredig o reoli, adfer a lliniaru yn fwy manwl, mae'n ddefnyddiol ystyried sut y dylid ymdrin ag ansicrwydd.

## 11.2 Ymdrin ag Ansicrwydd

11.2.1 Dylid mynd i'r afael â dull integredig o reoli, adfer a lliniaru mewn ffordd bragmatig a chymesur. Disgwylir i gyrff cyhoeddus arfer barn broffesiynol a defnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael, ond mae natur yr heriau sy'n gysylltiedig â ffosfforws gormodol a'r newidynnau yn yr amgylchedd naturiol yn golygu y bydd rhywfaint o ansicrwydd yn anochel.

11.2.2 Mae'n bwysig cadw'n gryf mewn golwg nad yw gweithredu mesurau cadwraeth o dan Erthygl 6(1) a chyflawni camau priodol i osgoi dirywiad o dan Erthygl 6(2) yn ddarostyngedig i'r gyfraith achosion sy'n berthnasol mewn perthynas ag Erthygl 6(3). Wedi dweud hynny, mae'r Llysoedd wedi dyfarnu bod yn rhaid dehongli Erthygl 6 yn ei chyfanrwydd cydlynol ac wedi pwysleisio bod Erthyglau 6(2) a (3) wedi'u cynllunio i sicrhau'r un lefel o amddiffyniad[38], felly mae angen dull rhagofalus.

11.2.3 Mae'r angen hwn i gymryd camau priodol o dan Erthygl 6(2) yn cael ei sbarduno ar sail *risg* o ddirywio. Yn achos *Grüna Liga Saschen*[39] ailbwysleisiodd y Llys egwyddor sefydledig sef *'the very existence of a probability or a risk… is capable of constituting an infringement of Article 6(2) of the Habitats Directive, without a cause and effect relationship… having been proved'*. Mae'r dull hwn sy'n seiliedig ar risg yn debyg i'r dull o osgoi effeithiau andwyol i uniondeb safle o dan Erthygl 6(3). Yn ymarferol, fodd bynnag, mae cymhwyso dull sy'n seiliedig ar risg tuag at weithredu mewn perthynas â dirywiad *parhaus* yn wahanol iawn i ddull tuag at benderfyniad mewn perthynas â gweithgaredd *dyheadol* newydd.

11.2.4 Mae angen gofal felly wrth ymestyn cyfraith achosion sy'n berthnasol i Erthygl 6(3) i Erthygl 6(2). Aeth achos *Grüna Liga Saschen* ymlaen i nodi *'the wording of Article 6(2) does not define any particular criterion for implementing the measures to be taken'.* Wrth werthuso'r hyder y bydd dirywiad yn cael ei osgoi, mae dadleuon y dylai'r prawf 'dim amheuaeth wyddonol resymol'[40] fod yn berthnasol yn brin o gydlyniad. Mae hyn oherwydd y gwahaniaethau cynhenid rhwng gweithgaredd parhaus ac un dyheadol. Mae Erthygl 6(2) yn gymwys i weithgareddau parhaus sydd eisoes yn cynrychioli risg i safle; ni fyddai cyfyngu ar y broses o gymryd camau i osgoi dirywiad nes y gellir dangos, y tu hwnt i amheuaeth wyddonol resymol, y byddant yn effeithiol yn cynrychioli unrhyw bwrpas defnyddiol wrth gyflawni amcan cyffredinol y Gyfarwyddeb i gynnal neu adfer cynefinoedd a rhywogaethau i statws cadwraeth ffafriol. Mae angen cydnabod hefyd bod Erthygl 6(2) yn ddyletswydd barhaus *rhagweithiol* ar Lywodraeth Cymru; nid yw'n codi ar adeg benodol (fel sy'n wir

[38] Achos C-404/09 EC v Sbaen (Cyfeiriwch at bara 142)
[39] Achos C-399/14 Grüne Liga Saschen Cyfeiriad at ddyfarniad rhagarweiniol
[40] Cyfeiriwch at The Waddenzee Ruling Achos C-127/02.

gydag Erthygl 6(3)). Gellir mynd i'r afael â chymryd camau priodol mewn modd addasol, gan adolygu a mireinio hynny yn unol â monitro a'r dystiolaeth sydd ar gael nes bod y canlyniad a ddymunir yn cael ei gyflawni.

11.2.5 Mae erthygl 6(3) yn ddarpariaeth *adweithiol*, sy'n berthnasol ar adeg ddiffiniedig pan fydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a ddylid caniatáu i brosiect a allai fod yn niweidiol fynd rhagddo, ai peidio. Mae'r gofynion i gael gwared ar amheuaeth wyddonol resymol ynghylch absenoldeb effeithiau andwyol i uniondeb safle fel rhan o broses o wneud penderfyniadau yn gwbl briodol o ystyried natur adweithiol Erthygl 6(3) a'r ffaith nad yw'r gweithgaredd eto yn cael unrhyw ddylanwad ar y safle dan sylw a bod cyfleoedd i fynd i'r afael ag effeithiau andwyol a allai godi yn ddiweddarach yn gyfyngedig. Ystyrir cyfraith achosion pellach sy'n berthnasol i ymdrin ag ansicrwydd yn Atodiad 2.

11.2.6 Wrth gynllunio'r camau sydd i'w cymryd i osgoi dirywiad o dan Erthygl 6(2), a/neu gamau adfer o dan Erthygl 6(1), mae cyngor Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

- Mae gofyniad i gymryd camau priodol i osgoi dirywiad neu i weithredu mesurau adfer yn cael ei sbarduno ar sail risg o ddirywiad / niwed. Cymerir ymagwedd rhagofalus o ran yr *angen* i weithredu mesurau.
- Ar ôl nodi'r angen am gamau/mesurau, dylai'r drefn i'w dilyn fod yn benodol, yn gydlynol ac yn gyflawn, yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael.
- Mae'r dyletswyddau rhagweithiol o dan Erthygl 6(1) a (2) yn barhaus eu natur; dylai camau i osgoi dirywiad a chyflawni adfer fod yn destun adolygiad rheolaidd a dylid eu haddasu neu eu mireinio yn ôl yr angen nes bod y canlyniadau a ddymunir yn cael eu cyflawni.

## 11.3 Sut mae dull integredig o adfer, rheoli a lliniaru yn gweithio yn ymarferol – Cam 1 sicrhau camau i osgoi dirywiad / cyflawni adfer

11.3.1 Wrth ystyried opsiynau lliniaru integredig, dylai cyrff cyhoeddus ystyried polisïau WG2 a 3. Yn unol â pholisi WG3, pan fo penderfynwr yn fodlon bod camau priodol i gyflawni gwelliannau ‘cyfran deg’ ac osgoi dirywiad wedi'u sicrhau, gall penderfynwr ddibynnu ar y camau gweithredu sydd i'w cymryd wrth gymhwyso'r prawf uniondeb o dan reoliad 63 mewn perthynas â chynnig newydd, ac wrth nodi opsiynau lliniaru posibl. Cam cyntaf felly yw nodi a sicrhau mesurau adfer a rheoli. Gan gyfeirio at WG2, gellir ystyried bod camau gweithredu i'w cymryd yn 'sicr' os:

- Amcangyfrifwyd graddfa'r gwelliannau pellach sy'n angenrheidiol i osgoi dirywiad o weithgareddau presennol/parhaus (cyn belled ag y bo hynny’n rhesymol bosibl ar sail y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd);
- Mae'r 'camau priodol' sydd i'w cymryd wedi'u nodi'n glir a'u cysylltu â mecanwaith cyflawni priodol, gan wneud defnydd cymesur o bwerau statudol fel sy'n angenrheidiol i hwyluso’r gwaith o gyflawni cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol;
- Mae amserlen glir ar gyfer gweithredu 'camau priodol' i'w cymryd gyda cherrig milltir cynnydd cyflawni cysylltiedig tuag at gyflawni targedau ffosfforws yr amcan cadwraeth;

### *Amcangyfrif gwelliannau pellach er mwyn osgoi dirywiad*

11.3.2 Bydd gwybodaeth sylfaenol a gafwyd o dan adran 5 (gan gynnwys gwaith modelu a wnaed gan CNC fel rhan o’r Adolygiad Trwyddedau i ddiffinio dull 'cyfran deg') yn llywio’r gwaith o amcangyfrif y gwelliannau ychwanegol sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r gwelliannau cyfran deg. Tybir y bydd y cam hwn yn cael ei gymryd ar lefel dalgylch strategol, gan dynnu ar ddata priodoli ffynonellau sydd eisoes yn cael ei ddal gan CNC (cyfeiriwch at flwch 5.2.1).

*Nodi camau priodol i'w cymryd*

11.3.3 Rhagwelir y bydd cyflwyno gwelliannau cyfran deg yn gofyn am gyfres o gamau/mesurau gan gynnwys:

- **Mesurau rheoleiddio** – e.e. Adolygiad Trwyddedau CNC a gorfodi gofynion deddfwriaethol amgylcheddol presennol.
- **Mesurau Rheoli/Adfer** - i leihau bygythiadau a phwysau o weithgareddau a defnydd tir cyfagos. Mae'n debygol y bydd angen targedu'r rhain er mwyn sicrhau’r canlyniadau ecolegol gorau (cyfeiriwch at adran 13). A gall gynnwys 'mesurau etifeddol' i gael gwared ar ffosffad sydd eisoes yn bresennol yn y dalgylch sy'n peri risg sylweddol i'r amserlenni ar gyfer cyflawni targedau amcan cadwraeth.

11.3.4 Bydd nodi 'camau priodol' yn cael ei lywio gan waith o dan adran 5 i amcangyfrif y gwelliannau sydd i'w cyflawni o dan yr Adolygiad Trwyddedau ac unrhyw fentrau pellach (megis camau gorfodi CNC neu brosiectau adfer lleol). Mae adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol i neilltuo lefel hyder o ran digonolrwydd y gwelliannau a nodwyd eisoes i gyflawni gwelliannau angenrheidiol. Pan fo lefel uchel neu ganolig o hyder y bydd mesurau presennol yn ddigonol, efallai na fydd angen nodi mesurau pellach. Fodd bynnag, lle mae lefel isel o hyder y bydd mentrau presennol yn ddigonol, bydd angen nodi mesurau rheoli/adfer pellach.

11.3.5 Mae rhagor o wybodaeth am fesurau y gellid eu cymryd i leihau llwyth P i'r dalgylch wedi'i chynnwys yn adran 12. Dylid dewis camau/mesurau i'w cymryd gyda'r nod o gyflawni gwelliannau angenrheidiol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Pan fo cytundeb tirfeddiannwr yn rhwystr i gyflawni mesurau, dylid archwilio'n llawn a ellid arfer pwerau statudol yn gymesur (cyfeiriwch at adran 13) er mwyn hwyluso cyflawni yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Dylai'r egwyddorion lleiaf beichus a dalgylch-benodol fod yn berthnasol (cyfeiriwch at adran 4).

11.3.6 Wrth ddewis mesurau, mae angen bod yn hyderus y bydd mesurau'n fuddiol eu natur ac y byddant yn cyflawni gostyngiadau gwirioneddol yn llwyth P i'r dalgylch. Efallai na fydd meintioli manwl gywir o'r gostyngiadau a fydd yn cael eu cyflawni o gyfres benodol o fesurau yn dechnegol ymarferol a bydd angen gweithio gydag amcangyfrifon a thebygolrwydd.

11.3.7 Dylid diffinio'r gyfres o gamau/mesurau i'w cymryd cyn belled â phosibl yn nhermau’r lleoliad a'r raddfa ofodol y rhagwelir y gellid gweithredu mesurau drosti. Elfen allweddol o ddull integredig yw sicrhau nad yw lliniaru yn erydu gallu'r dalgylch i adfer neu achosi oedi i’r gwaith o gyflawni'r adfer mewn unrhyw fodd. Felly, **dylid 'diogelu' graddfa a maint y gyfres o gamau/mesurau a nodwyd fel camau/mesurau sy'n ofynnol ar gyfer adfer neu osgoi dirywiad.**

11.3.8 Mae dyletswyddau o dan Erthygl 6(1) a (2) yn barhaus eu natur; bydd y rhestr o gamau/mesurau yn destun adolygiad rheolaidd a rhagwelir y gellir diwygio a diweddaru rhestr o fesurau mewn ymateb i ganlyniadau monitro (gweler adran 11.6).

*Amserlen a cherrig milltir cyflawni*

11.3.9 Mae angen amserlen ar gyfer cyflawni mesurau rheoli/adfer a cherrig milltir cynnydd cyflawni ar gyfer dull integredig er mwyn lleihau ansicrwydd yn y ddibyniaeth ar fesurau i'w cymryd. Dylid diffinio'r amserlen hon ar sail y wybodaeth orau sydd ar gael a'r farn broffesiynol ynghylch y camau i'w cymryd.

11.3.10 Mae **cerrig milltir cynnydd cyflawni** yn ymwneud â phryd y bydd camau/mesurau a nodwyd yn cael eu cymryd. Bydd angen i bartïon sy'n ymwneud â chyflwyno, nodi dyddiadau o'r fath fel rhan o unrhyw ddull cydgysylltiedig o weithredu. Rhagwelir y gellir pennu dyddiadau o'r fath trwy'r Bwrdd Rheoli Maethynnau (neu grŵp arall sydd â'r dasg o gyflwyno mesurau). Mae Prosiect Afonydd ACA CNC wedi nodi cyfres o fesurau, yn ychwanegol at welliannau arfaethedig i drwyddedau, i'w cymryd i fynd i'r afael â llwyth maethynnau o ffynonellau eraill o fewn dalgylchoedd ACA. Mae'r gwaith gorfodi mewn perthynas â rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol yn ddarostyngedig i Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda Llywodraeth Cymru a rhagwelir y bydd y gwaith parhaus sy'n cael ei gyflawni trwy CNC felly yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer gosod cerrig milltir cyflawni. Rhagwelir hefyd y bydd gwaith adfer arall (e.e. trwy brosiect Pedair Afon LIFE[41]) hefyd yn gysylltiedig ag amserlenni cyflawni fel rhan o oruchwyliaeth y prosiect hwnnw.

11.3.11 **Mae dyddiad cwblhau ar gyfer cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol mewn ansawdd dŵr** yn fwy heriol. Mae rhywfaint o ansicrwydd yn anochel o ystyried cymhlethdod mynd i'r afael â maethynnau o fewn dalgylchoedd afonol naturiol a'r newidynnau a fydd yn dylanwadu ar effeithiolrwydd y camau i'w cymryd. Bydd targed cyflawni ar gyfer cyflawni'r amcanion cadwraeth o reidrwydd yn amcangyfrif wedi'i lywio gan wybodaeth leol a'r wybodaeth orau sydd ar gael. Mae erthyglau 6(1) a (2) yn darparu fframwaith sy'n gofyn am gymryd camau rhagweithiol ond nid ydynt yn gosod dyddiad pendant erbyn pryd y bydd yn rhaid cyflawni canlyniadau. Er bod dyletswyddau mewn perthynas ag adfer safleoedd Ewropeaidd yn berthnasol i'r holl awdurdodau cymwys, bydd CNC yn cymryd rôl flaenllaw. **Felly, dylai CNC amcangyfrif y dyddiadau cwblhau ar gyfer cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol i ansawdd dŵr gan y gallai fod angen ystyried amserlenni adfer o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.**

## 11.4 Sut mae dull integredig o adfer, rheoli a lliniaru yn gweithio yn ymarferol – Cam 2 nodi mesurau lliniaru integredig

11.4.1 Mae polisi WG3 yn berthnasol wrth ystyried sut olwg sydd ar liniaru integredig yn ymarferol. Pan fo cyfres o fesurau rheoli/adfer wedi'u nodi a'u cysylltu ag amserlen gyflawni, mae cymhwyso'r prawf uniondeb yn ymwneud â sicrhau nad yw cyflawni'r datblygiad yn tanseilio’r gwaith o gyflawni'r amcanion adfer nac yn peryglu adfer yn y dyfodol trwy erydu capasiti’r dalgylch ar gyfer ymyriadau adfer yn y dyfodol.

11.4.2 Gyda hyn mewn golwg, ni ddylai lliniaru integredig dan arweiniad datblygwyr gynnwys cyflawni mesurau sydd eisoes wedi'u nodi fel mesurau adfer ac sy'n gysylltiedig â mecanwaith cyflawni priodol. Felly, dylid 'diogelu' graddfa a maint y gyfres o fesurau a nodwyd o dan 11.3 fel mesurau adfer.

[41] CNC Prosiect Pedair Afon LIFE.

11.4.3 Mae Polisi WG3 yn berthnasol o ran sut y gellid integreiddio lliniaru â chyflawni adfer fel ei fod yn gweithredu i osgoi oedi wrth gyflawni'r gwaith adfer. Mae cyflawni'r gwaith adfer yn ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gael ei gyflawni gan gyrff cyhoeddus a chronfeydd. Bydd targedau cyflawni a'r cynnydd a wneir felly yn cael eu cyfyngu gan yr adnoddau sydd ar gael. Lle mae camau priodol yn cael eu cymryd i gyflawni'r targedau amcan cadwraeth, mae'r angen am liniaru o ddatblygiad newydd yn codi i gydnabod y risg y gallai cyflwyno datblygiad beryglu'r gwaith o gyflawni adfer. **O dan ddull integredig, mae effeithiolrwydd y lliniaru arfaethedig yn cael ei werthuso yn erbyn yr amodau sylfaenol sy'n gwella yn unol â'r targedau cyflawni cyfredol a'r graddau y mae oedi i'r gwaith o gyflawni targedau adfer wedi'i osgoi. Gall lliniaru integredig gynnwys mesurau hollol newydd ond gellir integreiddio'r lliniaru yn agosach â'r gwaith o gyflawni adfer lle mae cyfraniadau datblygwyr yn:**

- **cynyddu graddfa, maint neu gwmpas mesurau adfer arfaethedig (y tu hwnt i'r hyn a fyddai fel arall wedi cael ei gyflawni); neu**
- **cyflymu'r broses o gyflawni mesurau adfer wedi'u cynllunio y tu hwnt i'r hyn a fyddai'n cael ei gyflawni fel arfer, lle mae perygl o ddirywiad ecolegol ystyrlon yn y cyfamser o dan amserlenni gweithredu presennol.**

11.4.4 Mae'r meini prawf uchod wedi'u llywio gan adolygiad Llywodraeth Cymru o bolisi drafft Defra mewn perthynas â'r cysyniad o ychwanegoldeb wrth nodi mesurau cydbwyso ar gyfer ffermydd gwynt ar y môr yn Lloegr, a sut mae mesurau cydbwyso yn cael eu gwerthuso yng ngoleuni'r mesurau a gymerir fel arall o dan Erthygl 6(1) a (2) [42]. Darperir rhagor o wybodaeth am liniaru integredig a'r prawf uniondeb yn 11.8.

| **Blwch 11.4.1 Enghreifftiau o fesurau integredig** |
| --- |
| **Enghraifft 1 - mesur newydd:** Gellir sicrhau cyfraniadau datblygwyr i gyflawni mesur lliniaru strategol fel gwlyptir adeiledig. Mae hyn yn debygol o fod yn fwyaf perthnasol lle gallai gwaith ar gynlluniau o'r fath fod eisoes ar y gweill.<br>**Enghraifft 2 - cynyddu graddfa, maint neu gwmpas mesurau rheoli/adfer wedi'u cynllunio:** Gellid sicrhau cyfraniadau datblygwyr i ymestyn graddfa'r mesurau adfer arfaethedig i ddarparu effeithlonrwydd gweithredol ychwanegol, megis cynyddu hyd byffer torlannol sy'n cael ei ddarparu o dan fenter ar wahân.<br>**Enghraifft 3 - cyflymu cyflawni'r mesurau adfer arfaethedig:** Gall cyfraniadau datblygwyr i garlamu'r gwaith o gyflawni mesurau adfer fod yn berthnasol lle mae mesurau cydymffurfio a gorfodi rheoleiddiol wedi'u nodi ond mae amserlenni cyflawni wedi'u cyfyngu gan yr adnoddau sydd ar gael. O dan amgylchiadau o'r fath gellid sicrhau cyfraniadau datblygwyr i ariannu swydd seiliedig ar ddalgylch ychwanegol o fewn tîm cydymffurfio a gorfodi CNC i gyflymu'r broses o gyflawni mesurau o fewn y dalgylch dan sylw. Mae'r opsiwn hwn yn fwyaf addas lle mae graddfa'r datblygiad yn ddigonol i sicrhau nad yw cyfraniadau datblygwyr fesul annedd yn ormodol. |

11.4.5 Mae mesurau lliniaru integredig i'w nodi'n ganolog, trwy'r Bwrdd Rheoli Maethynnau. Rhaid nodi cyfleoedd ar gyfer lliniaru integredig gan gyfeirio yn ôl at gamau/mesurau a 'ddiogelir' a

[42] https://consult.defra.gov.uk/offshore-wind-environmental-improvement-package/consultation-on-updated-guidance-for-environmental/

ddiffinnir yng ngham 1. At ddibenion tryloywder, dylai fod gwahaniaeth clir rhwng mesurau rheoli/adfer wedi'u cynllunio a chyfleoedd lliniaru integredig posibl.

11.4.6 Rhagwelir y bydd mesurau lliniaru integredig yn cael eu cynllunio a'u gweithredu ar lefel strategol. Gall datblygwyr ariannu'r mesurau (yn unol â'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu) ond byddant yn gyffredinol yn cael eu cyflawni gan barti arall.

11.4.7 Unwaith y bydd cyfleoedd yn cael eu nodi, gellir eu rhannu â datblygwyr. Mae darparu lliniaru fel rhan o ddull integredig yn darparu mwy o hyblygrwydd o'i gymharu â dulliau lliniaru fesul achos. Mae hyn oherwydd:

- Mae lliniaru integredig yn ymwneud yn bennaf ag osgoi unrhyw oedi o ran cyflwyno camau a gymerir i osgoi dirywiad, yn hytrach na dangos 'niwtraliaeth'. Mae'n symlach dangos mesurau allweddol o effeithiolrwydd a chaiff hyn ei bennu yn nhermau'r hyder na fydd mesurau cyflawni adfer yn cael eu tanseilio. Unwaith y dangosir hyn, gellir ystyried bod y lliniaru yn effeithiol.
- Mae opsiynau lliniaru integredig yn caniatáu i gyfraniadau'r datblygwr gael eu defnyddio i ymestyn natur neu raddfa neu amserlen cyflawni mesurau sydd eisoes yn cael eu cyflawni trwy arfer pwerau statudol sy'n caniatáu i liniaru gael ei gyflawni'n fwy effeithiol ac effeithlon.
- Gall dulliau integredig wedi'u cydlynu'n ganolog gynnwys casglu cyfraniadau datblygwyr i gronfa a reolir yn ganolog i ddarparu mesurau lliniaru integredig ledled y dalgylch. Gellir lleihau'r angen am ddulliau lliniaru pwrpasol fesul achos gyda manteision cysylltiedig ar gyfer mewnbwn staff ac ystyriaethau gorfodi cysylltiedig.

11.4.8 Bydd amserlenni gweithredu yn bwysig lle bwriedir sicrhau bod modd cyflawni datblygiad trwy gyflwyno mesurau lliniaru fel rhan o ddull integredig. Mewn rhai dalgylchoedd, efallai y bydd mentrau eisoes ar y gweill i adfer neu i reoli bygythiadau a phwysau presennol a gall cyfleoedd i ymestyn natur neu raddfa mesurau o'r fath ddarparu lliniaru mewn modd amserol.

11.4.9 Pan fo ansicrwydd mewn perthynas â'r amserlenni ar gyfer cyflawni mesurau adfer, ac na ellir meintioli'n ddibynadwy i ba raddau y gallai datblygiad achosi oedi o ran cyflawni targedau adfer, **efallai y bydd angen mesurau lliniaru integredig sy'n cyflymu'r gwaith o gyflawni mesurau, fel y bydd targedau adfer yn cael eu cyflawni yn gynt nag y byddent yn absenoldeb datblygiad, er mwyn darparu digon o hyder y bydd effeithiau andwyol i uniondeb y safle yn cael eu hosgoi.** Mae ymdrin â'r egwyddor ragofalus fel hyn, o gymhwyso cyfraddau rhagofalus i newidynnau, yn cael ei gymeradwyo gan Lysoedd y DU yn Nyfarniad Wyatt. Lle dyfarnodd y Llys mai holl bwynt yr egwyddor ragofalus yw bod *'uncertainty is addressed by applying precautionary rates to variables, and in that manner reasonable scientific certainty as to the absence of a predicated adverse outcome will be achieved'.* Gwrthododd y Llys ddadl yn benodol, lle roedd ansicrwydd gwyddonol yn golygu na ellid caniatáu unrhyw ddatblygiad oherwydd nad oedd modd eithrio effeithiau niweidiol yn rhesymegol. Ystyrir y mater o ansicrwydd ymhellach yn Atodiad 2.

11.4.10 Wrth ddewis rhwng opsiynau lliniaru, dylid cymhwyso'r egwyddor lleiaf beichus. Pan fo datblygiad newydd yn dibynnu ar gamau gweithredu i'w cymryd, dylid sefydlu cyd-ddibyniaeth trwy ddull cafeat polisi (cyfeiriwch at adran 14) i sicrhau bod y penderfyniadau ar gyfer datblygiad newydd yn amodol ar gyflawni'r cerrig milltir cynnydd cysylltiedig. Dylid mynd i'r afael ag ansicrwydd cynhenid trwy gymhwyso cyfraddau rhagofalus i newidynnau.

## 11.5 Sut mae dull integredig o adfer, rheoli a lliniaru yn gweithio yn ymarferol – Cam 3 sicrhau a chyflawni mesurau lliniaru integredig

11.5.1 Mae'r defnydd o gyfraniadau datblygwyr i gyflwyno dulliau strategol o liniaru wedi'i hen sefydlu mewn perthynas â dulliau lliniaru ar gyfer pwysau gweithgareddau hamdden sy'n effeithio ar safleoedd Ewropeaidd[43]. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r dulliau o sicrhau a chyflawni mesurau lliniaru gael eu llywio gan y model ar gyfer pwysau gweithgareddau hamdden lle bo hynny'n berthnasol.

11.5.2 Yn unol â'r egwyddor 'mai'r llygrwr sy'n talu', hyd yn oed lle gellir cyflawni mesurau integredig gan gorff statudol neu mewn partneriaeth â chorff, mae'n bwysig sicrhau bod y costau llawn yn cael eu hysgwyddo gan gynigwyr prosiectau. Agwedd bwysig ar y dulliau strategol o ymdrin â hamdden yw bod costau yn cynnwys cyfraniadau datblygwyr i sicrhau adnoddau staff angenrheidiol i oruchwylio a gweithredu'r dull lliniaru. Er enghraifft:

- Mae Thames Basin Heaths Delivery Framework[44] yn cynnwys costau staffio ar gyfer cyfnod y cynllun 20 mlynedd.
- Mae Solent SPAs Recreational Disturbance Avoidance & Mitigation Strategy (RAMS)[45] yn cynnwys costau i geidwaid a staff eraill.
- Roedd Essex Coast Recreational Disturbance Avoidance & Mitigation Strategy (RAMS)[46] yn cynnwys costau i ddau feili dŵr i orfodi is-ddeddfau ac yn darparu sgïau jet i alluogi beilïaid i wneud eu gwaith.

11.5.3 Wrth fynd i'r afael â'r gwaith o gyflawni mesurau, gall NMBau felly ystyried a allai fod angen rôl swyddog prosiect lliniaru integredig i gydlynu'r gwaith o gyflawni mesurau a gofynion monitro cysylltiedig. Mae dulliau o gyflawni mesurau lliniaru strategol sy'n osgoi effeithiau andwyol o bwysau gweithgareddau hamdden wedi'u hen sefydlu ac mae'r mecanweithiau ariannol a chyfreithiol ar gyfer sicrhau cyfraniadau ariannol yn darparu model y gellir ei addasu'n hawdd.

11.5.4 Y cam cyntaf wrth bennu cyfraniadau unigol yw cyfrifo costau ar gyfer cyflawni'r mesurau lliniaru integredig i hwyluso'r gwaith o gyflawni datblygiad. Dylai costau gynnwys darpariaeth ar gyfer adnoddau staff a'r holl gostau cysylltiedig y gellir rhagweld yn rhesymol y byddant yn codi o weithredu dull integredig. Ar ôl cytuno ar y costau cyffredinol, gallai ail gam yn rhesymol gynnwys trafodaethau cychwynnol gyda rhanddeiliaid ynghylch sut y gellid neilltuo costau i brosiectau unigol. Rhagwelir y gellir dyrannu'r rhain yn weddol deg ar sail y llwyth ffosffad cyffredinol o'r datblygiad.

11.5.5 Ar ôl diffinio ffordd o briodoli costau, y cam olaf fyddai sicrhau'r cyfraniad ariannol. Gan gyfeirio at ddulliau strategol o ymdrin â phwysau gweithgareddau hamdden, ceisir penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygu a chyfraniadau trwy amrywiaeth o fecanweithiau. Yn fwyaf cyffredin trwy ddefnyddio cytundeb adran 106 ond mae opsiynau

---

[43] Cyfeiriwch at Thames Basin Heaths Delivery Framework, Dorset Heathlands Planning Framework, Deben Estuary Pertnership.
[44] https://www.bracknell-forest.gov.uk/sites/default/files/documents/thames-basin-heaths-spa-delivery-framework.pdf
[45] https://birdaware.org/solent/about-us/our-strategy/
[46] https://birdaware.org/essex/bird-aware-essex-about-us/our-strategy/

eraill yn cynnwys defnyddio cyfraniadau Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL). Mae rhai o'r dulliau hefyd yn derbyn taliadau ymlaen llaw gan ymgeiswyr (sy'n cael eu had-dalu pe bai caniatâd yn cael ei wrthod)[47]. Mae taliadau ymlaen llaw yn addas i senario lle mae llawer o geisiadau bach yn cael eu heffeithio gan ei fod yn osgoi'r angen i Gynghorau gymryd rhan mewn nifer o drafodaethau s106 ar bob cais ac yn lleihau'r baich ar ymgeiswyr.

## 11.6 Sut mae dull integredig o adfer, rheoli a lliniaru yn gweithio yn ymarferol – Cam 4 monitro a rheoli addasol

11.6.1 Mae'r defnydd o ddull sy'n seiliedig ar cafeat polisi (cyfeiriwch at adran 14) yn ganolog i gyflawni lliniaru integredig. Amcan dull cafeat polisi yw gwneud cyflawni datblygiad yn amodol ar unrhyw fesurau y dibynnir arnynt yn cael eu cyflawni mewn gwirionedd yn unol ag amserlen a sefydlwyd ymlaen llaw. Mae monitro felly yn rhan ganolog o ddull integredig o adfer, rheoli a lliniaru.

11.6.2 O safbwynt adfer a rheoli, mae angen monitro canlyniadau i ddeall a yw'r mesurau wedi cyflawni'r amcan a ddymunir, neu a oes angen mesurau pellach. Mae monitro canlyniadau yn angenrheidiol o ran cydymffurfio â dyletswyddau rhagweithiol o dan Erthygl 6(1) a (2). Nid yw'r Gyfarwyddeb yn gosod amserlen y mae'n rhaid cyflawni amcanion cadwraeth o'i mewn; mae'r ddyletswydd gyfreithiol yn ymwneud â chymryd camau priodol felly, cyn belled â bod camau priodol yn cael eu cymryd mewn modd amserol, ac yn parhau i gael eu cymryd nes bod yr amcanion cadwraeth yn cael eu cyflawni, nid oes unrhyw faterion cydymffurfio yn codi.

11.6.3 Mae monitro mewn perthynas â lliniaru yn wahanol. O dan ddull integredig, mae lliniaru yn ymwneud â dangos na fydd datblygiad newydd yn tanseilio nac yn peryglu cyflawni mesurau rheoli/adfer diogel, ac felly ni fydd yn tanseilio cyflawni'r amcanion cadwraeth. Mae'r cysylltiad rhwng amcanion cadwraeth ac uniondeb safle yn cael ei esbonio ymhellach yn adran 11.8.

11.6.4 Mae monitro i gefnogi lliniaru felly yn ymwneud â chyflawni'n amserol unrhyw fesurau rheoli/adfer a ystyriwyd wrth gymhwyso'r prawf uniondeb, a chyflwyno camau ychwanegol (lliniaru integredig) i osgoi unrhyw oedi wrth gyflawni'r gwelliannau a ragwelir.

11.6.5 Felly, bydd monitro o dan ddull integredig yn cynnwys dwy elfen:

- Monitro canlyniadau ecolegol. Mae hyn yn gysylltiedig â'r dyletswyddau adfer a rheoli a bydd yn bwydo i mewn i ddull rheoli addasol. Mae dyletswyddau o dan Erthygl 6(1) a (2) yn rhagweithiol ac yn barhaus a rhagwelir y bydd mesurau'n cael eu mireinio a'u diwygio yng ngoleuni canlyniadau monitro.
- Monitro cyflawni mesurau rheoli/adfer ac unrhyw gamau ychwanegol i osgoi unrhyw oedi wrth gyflawni'r gwelliannau a ragwelir. Pan fydd penderfyniadau o dan Erthygl 6(3) yn ystyried mesurau rheoli/adfer, ac yn dibynnu ar eu cyflawni, mae angen monitro i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni. Pan fo penderfyniadau o dan 6(3) yn dibynnu ar fesurau *i'w cymryd*, dylid defnyddio dull cafeat polisi i sicrhau bod cyflawni datblygiad yn amodol ar fesurau y dibynnir arnynt yn cael eu gweithredu.

[47] Eastleigh District Council – Guidance on making up-front payment in lieu of entering s.106 agreements

## 11.7 Dull integredig a'r system gynllunio

11.7.1 Er y bydd cyrff cyhoeddus yn penderfynu sut y dylid gweithredu dull integredig o adfer, rheoli a lliniaru o fewn y dalgylch dan sylw, dylid nodi'n glir dull integredig o gyflawni lliniaru mewn canllawiau cynllunio atodol. Lle bo hynny'n briodol, gellir cynhyrchu atodiad i HRA y Cynllun Datblygu Lleol i ddiweddaru'n ffurfiol gasgliadau HRA cynharach mewn perthynas â datblygiadau sydd i'w cyflawni o fewn cyfnod y cynllun presennol. Gall y canllawiau cynllunio atodol gyfeirio at unrhyw atodiad i HRA y cynllun ac esbonio sut y gall awdurdodau cynllunio fabwysiadu canfyddiadau HRA y cynllun wrth wneud penderfyniadau cynllunio o fewn dalgylchoedd yr effeithir arnynt.

11.7.2 Dylid dilyn dull cafeat polisi lle mae dull lliniaru integredig yn cael ei fabwysiadu. Darperir canllawiau pellach ar ddull cafeat polisi yn adran 14.

11.7.3 Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyngor pellach ar ddatblygu canllawiau cynllunio atodol a chymorth pellach i gyflymu'r gwaith o'u mabwysiadu.

## 11.8 Sut mae dull integredig o liniaru yn ymwneud â'r prawf uniondeb?

11.8.1 Mae dull integredig o adfer, rheoli a lliniaru yn galluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ystyried mesurau adfer a rheoli cynlluniedig wrth gymhwyso'r prawf uniondeb mewn perthynas â datblygiad newydd. Wrth wneud hynny, mae effeithiau cynllun neu brosiect newydd yn cael eu hasesu yn erbyn senario 'heb ganiatâd' lle bydd mesurau adfer a rheoli yn arwain at welliant parhaus mewn lefelau P o fewn yr ACA.

11.8.2 Yn hyn o beth, mae'n safbwynt sefydledig gan y Llysoedd bod effaith ond yn 'arwyddocaol' (yn nhermau HRA) os yw'n 'tanseilio'r amcanion cadwraeth'[48]. Mae canllawiau'r CE wedi esbonio bod y cysyniad o uniondeb safleoedd yn ymwneud ag amcanion cadwraeth safleoedd ac felly, wrth gymhwyso'r prawf uniondeb '*if none of the qualifying feature are 'significantly' affected site integrity cannot be considered to be adversely affected'.* Felly, wrth gymhwyso'r prawf uniondeb o dan ddull integredig o adfer, rheoli a lliniaru, **mae risg i uniondeb safle o gynigion newydd yn cael ei werthuso o ran a fydd y datblygiad yn tanseilio'r gwaith o gyflawni'r amcanion cadwraeth trwy gyflwyno mesurau rheoli ac adfer.**

11.8.3 Ffordd arall o edrych ar y cwestiwn i'w ddatrys wrth gymhwyso'r prawf uniondeb o dan senario o'r fath yw, a fydd datblygiad newydd yn tanseilio cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion cadwraeth o gamau priodol sy'n cael eu cymryd o dan Erthyglau 6(1) neu 6(2)? Os gellir dangos na fydd datblygiad newydd yn peryglu nac yn 'tanseilio'r gwaith o gyflawni'r amcanion cadwraeth ar gyfer y safle dan sylw, ni fydd datblygiad newydd yn effeithio'n *arwyddocaol* ar y safle ac, o ganlyniad, ni ellir effeithio'n andwyol ar uniondeb y safle.

11.8.4 Wrth ystyried dull integredig, tybir felly:

- gall y risg i uniondeb safle o ddatblygiad newydd fod â chysylltiad uniongyrchol â'r angen i gymryd camau/mesurau priodol i osgoi dirywiad neu gyflawni adfer o weithgareddau presennol.

[48] Achos C-127/02 The Waddenzee Ruling (cyfeiriwch at bara 47)

- Pe bai camau/mesurau o'r fath yn cael eu cymryd, byddai'r risg i uniondeb safle o ddatblygiad newydd yn lleihau neu'n cael ei osgoi.
- Mae unrhyw gamau/mesurau y dibynnir arnynt wedi'u targedu at y mecanwaith effaith sy'n cynrychioli'r risg i uniondeb safle o'r datblygiad arfaethedig.

11.8.5 Mae cyflwyno mesurau rheoli/adfer yn gyfochrog felly yn rhagofyniad angenrheidiol wrth ystyried dull integredig o gyflawni lliniaru, a rhaid targedu mesurau rheoli/adfer i'r mecanwaith effaith sy'n cynrychioli'r risg i uniondeb safle o ddatblygiad arfaethedig.

11.8.6 Fel y nodir ym mholisi WG2, pan fo cynnig newydd yn dibynnu ar drwydded bresennol sy'n cynrychioli risg o ddirywio, a bod penderfynwr yn fodlon bod camau priodol i osgoi dirywiad wedi'u sicrhau (gan ystyried camau gweithredu ar ffynonellau eraill fel y bo'n briodol), gall penderfynwr ddibynnu ar y camau gweithredu sydd i'w cymryd wrth gymhwyso'r prawf uniondeb o dan reoliad 63 mewn perthynas â'r cynnig newydd.

11.8.7 Mae sicrhau camau i osgoi dirywiad yn annigonol, ynddo'i hun, i osgoi effeithiau andwyol i uniondeb y safle. Byddai dull o'r fath yn methu â chydnabod y potensial i effeithiau andwyol godi o ddatblygiad newydd tra bod camau o'r fath yn cael eu cymryd. Yn hytrach, mae polisi WG2 yn caniatáu i benderfynwr *roi sylw* i'r camau sy'n cael eu cymryd i gyflawni adfer wrth gymhwyso'r prawf uniondeb i gynigion datblygu newydd, a nodi opsiynau lliniaru posibl.

## 11.9 Ystyried y gofynion cyfunol

11.9.1 Mae dull integredig o reoli, adfer a lliniaru yn ddull strategol sy'n ystyried y potensial i ddatblygiad weithredu'n gyfunol â chynlluniau a phrosiectau eraill. Pan fydd datblygiad yn cael ei gyflawni yn unol â dull strategol o reoli, adfer a lliniaru, ystyrir ei fod wedi osgoi ei effeithiau. Nid oes unrhyw effeithiau gweddilliol ar ôl pan fo holl ofynion angenrheidiol dull strategol wedi'u bodloni ac **nid oes angen asesiad pellach cyfunol â chynlluniau a phrosiectau eraill mewn perthynas ag ystyriaethau ansawdd dŵr sy'n berthnasol i ffosffad.** At ddibenion sicrhau eglurhad, efallai y bydd angen asesiad pellach cyfunol mewn perthynas â mecanweithiau effaith eraill nad ydynt yn cael eu hystyried gan y canllawiau hyn.

# 12 Canllawiau pellach - Mathau o fesurau lliniaru sy'n berthnasol i leihau maethynnau

## 12.1 Cyflwyniad

12.1.1 Bydd angen dewis mesurau i gyflawni gwelliannau mewn llwyth maethynnau, boed hynny trwy ddulliau niwtraliaeth maethynnau neu ddulliau integredig o adfer, rheoli a lliniaru ar sail dalgylch-benodol. Pwrpas yr adran 12 hon yw rhoi trosolwg o'r mesurau a allai fod ar gael.

12.1.2 Yn gyffredinol, gellir categoreiddio mesurau sy'n berthnasol i leihau llwyth maethynnau ychwanegol yn fras fel a ganlyn:

- mesurau ar y safle (mesurau dan arweiniad datblygwyr a gyflwynir o fewn ffin y safle datblygu),
- mesurau oddi ar y safle (mesurau a gyflwynir y tu hwnt i ffin y safle datblygu gan y datblygwr neu barti arall) a
- mesurau rheoleiddio (a gyflwynir wrth arfer offer a phwerau statudol).

12.1.3 Cyflwynir mesurau ar y safle ac oddi ar y safle yn adrannau 12.2 a 12.3 isod. Mae angen i brosesau dylunio a chyflawni mesurau o'r fath ystyried y wybodaeth orau sydd ar gael.

12.1.4 Ystyrir mesurau rheoleiddio yn fanylach yn adran 12.5 lle darperir tabl o fesurau posibl.

## 12.2 Mesurau ar y safle

12.2.1 Yn gyffredinol, bydd y rhain o dan reolaeth y datblygwr i arwain ac i weithredu. Gellir eu rhannu ymhellach fel a ganlyn:

- Mesurau lliniaru mewnbwn – cyfyngiadau neu amodau a osodir ar y datblygiad i leihau faint o faethynnau ychwanegol a gynhyrchir gan y datblygiad ac sy’n cynnwys lefelau meddiannaeth, amseroedd defnydd a defnyddio a rheoli dŵr.
- Mesurau lliniaru allbwn – ymdrinnir â maethynnau sy'n deillio o'r safle yn uniongyrchol o fewn ffin y datblygiad. Gall y rhain gynnwys datrysiadau trefol eu natur i gael gwared ar faethynnau fel cyfleuster parod i drin carthion (gyda gwlyptiroedd integredig a adeiladwyd ar gyfer cynlluniau mwy o faint), Systemau Draenio Cynaliadwy a gwlyptiroedd dŵr storm. Lle mae digon o dir ar gael o fewn y safle, gall mesurau eraill fod yn ymarferol fel byfferau ar hyd cyrsiau dŵr neu blannu coetir i arafu llifoedd.

12.2.2 Ym mhob achos mae angen gwybodaeth gadarn o'r safle datblygu, ei ddefnydd tir a'r gyllideb faethynnau bresennol. Bydd angen uwchgynllun mwy ar safleoedd mwy o faint a ddylai ystyried y cyfleoedd a gynigir ar gyfer datrysiadau arloesol sy'n seiliedig ar natur sy'n gweithio ochr yn ochr â choridorau ecolegol, byfferau ar hyd cyrsiau dŵr a defnyddio dulliau integredig. Gellir sicrhau bod hyblygrwydd mewn cynllun, er enghraifft i alluogi cysylltiad â gwaith trin dŵr gwastraff yn y dyfodol, yn enwedig lle mae capasiti cyfyngedig yn y dalgylch i gyflawni amcanion adfer ansawdd dŵr yn y dyfodol.

## 12.3 Mesurau oddi ar y safle

12.3.1 Gall y rhain fod yn gamau gweithredu pwrpasol ar raddfa lai dan arweiniad y datblygwr neu gallant fod yn rhan o ddull strategol o gyflawni adfer neu liniaru sy'n gweithredu ar raddfa fwy (e.e. dalgylch). Mae'r rhain yn cynnwys y mesurau y cyfeirir atynt uchod yn ogystal â mesurau megis stribedi byffro torlannol, ail-naturoli afonydd, adeiladu tagfeydd coed, rhwystro ffosydd draenio ac eraill a restrir yn 12.5 isod. Gellir cyflwyno'r rhain ar raddfa ofodol fawr i ddarparu credydau maethynnau y gall datblygwyr eu prynu fel mesurau liniaru ar gyfer cynigion unigol.

12.3.2 Mae’r gwaith o gyflwyno mesurau oddi ar y safle yn cael ei arwain gan amlaf gan grwpiau o bartïon â diddordeb (fel cynlluniau masnachu maethynnau dan arweiniad ffermwyr) neu wedi'i gydlynu'n ganolog gan gyrff cyhoeddus fel cwmnïau dŵr ac asiantaethau'r llywodraeth. Mae’r gwaith o gyflawni'r holl brosiectau yn cael ei ariannu gan ddatblygwyr ac yn dibynnu ar gytundeb tirfeddianwyr. Felly, gall cyrff statudol ddarparu goruchwyliaeth weinyddol a gallant gyfrannu at drafod datrysiadau a gweithredu, ond mae'r holl gostau yn cael eu talu gan gyfraniadau datblygwyr.

12.3.3 Gall lliniaru integredig fod yn rhan o ddull ehangach o reoli, adfer a lliniaru ar gyfer y dalgylch a'i safleoedd dynodedig cysylltiedig. Gellir darparu lliniaru integredig ochr yn ochr â chynlluniau eraill sy'n anelu at adfer ymarferoldeb yn y dalgylch fel y Prosiect Sbarduno ar gyfer Rheoli Llifogydd yn Naturiol a lansiwyd yn ddiweddar a chynlluniau adfer tirwedd a mentrau safleoedd gwarchodedig eraill.

12.3.4 Gall mesurau mwy confensiynol i greu capasiti amgylcheddol ychwanegol ar gyfer rheoli maethynnau o fewn y dalgylch, megis gwelliannau i weithfeydd trin dŵr gwastraff a ariennir trwy Adolygiadau Cyfnodol y diwydiant dŵr, hefyd fod yn rhan o gynllun lliniaru strategol o'r fath. Gall creu capasiti ychwanegol yn y modd hwn ganiatáu mwy o hyblygrwydd mewn opsiynau lliniaru lleol. Er enghraifft, gall lliniaru dros dro (fel newidiadau i arferion amaethyddol â defnydd llai dwys o faethynnau) fod yn dderbyniol fel mesur tymor byr hyd nes y bydd opsiynau strategol mwy hirdymor fel uwchraddio gweithfeydd trin dŵr gwastraff , lle gallai fod yn anodd dangos ymrwymiad hirdymor.

12.3.5 Gall prynu tir ymlaen llaw er mwyn creu cynefinoedd ar raddfa mewn ymateb i bwysau datblygu ar fioamrywiaeth fod yn rhan o ddull strategol o liniaru maethynnau. Gall datblygwyr brynu credydau mewn cynlluniau o'r fath y gellir eu cefnogi trwy fentrau'r llywodraeth fel Cronfa Parodrwydd Buddsoddi Amgylchedd Naturiol y Llywodraeth (NEIRF). Mae Model Buddsoddi Bancio Cynefinoedd yr Ymddiriedolaethau Natur yn cael ei gefnogi yn y modd hwn ac er ei fod wedi'i gynllunio i annog creu cynefinoedd mwy gwerthfawr o dan Enillion net Bioamrywiaeth, gallai dull o'r fath gyd-fynd â dulliau strategol o leihau llwyth maethynnau o fewn dalgylch.

## 12.4 Mesurau a arweinir gan reoleiddio.

12.4.1 Mae'r rhain yn cynnwys gorfodi deddfwriaeth sy'n bodoli mewn perthynas â diogelu safleoedd, diogelu dŵr, rheoli gwastraff a rheoleiddio amaethyddol neu gymhwyso mecanweithiau presennol fel Parthau Diogelu Dŵr i fynnu camau gweithredu i wella ansawdd dŵr ar lefel y dalgylch neu'n ehangach. Gall pwerau rheoleiddio hefyd gynnwys cyflwyno gofynion cyfreithiol eraill neu fecanweithiau polisi y gellir eu defnyddio i hwyluso cyflawni mesurau ar raddfa neu mewn modd wedi'i dargedu, neu i gyflymu’r gwaith o

gyflawni i sicrhau neu osgoi'r angen am gytundeb tirfeddiannwr. Gall mesurau o'r fath amrywio o gyngor gwell ar ddiogelu dŵr a rheoli maethynnau i dirfeddianwyr; gofynion cyfreithiol ar gyfer safonau trin dŵr gwastraff llymach; rheoli defnydd tir presennol, bygythiadau a phwysau trwy gytundebau rheoli a gorfodi (gorchmynion cadwraeth natur statudol[49]) sy'n berthnasol i safleoedd Ewropeaidd fel y rhagwelir o dan Erthyglau 6(1) a (2) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

12.4.2 Gall y mesurau rheoleiddio a pholisi hyn greu cyfleoedd i ystyried cyfraniadau datblygwyr i wella neu ymestyn mesurau a fyddai fel arall yn cael eu cyflawni, neu i ddarparu staff i gyflymu camau gweithredu rheoleiddio o fewn dalgylchoedd yr effeithir arnynt.

12.4.3 Darperir crynodeb o'r mesurau rheoleiddio yn nhabl 12.4.1 isod.

| **Tabl 12.4.1: Crynodeb o'r Mesurau Rheoleiddio** | |
|---|---|
| **Mesur Rheoleiddio** | **Sylwadau ar ddichonoldeb a chyflawni** |
| Cydymffurfiaeth a gorfodi rheoleiddiol: Rheoliadau Gwastraff; Rheoliadau Adnoddau Dŵr; | Pwerau gorfodi sydd ar gael o dan Reoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol 2021. Mae pwerau ar gael o dan amgylchiadau penodol i drin tail a slyri fel gwastraff, ac mae angen trwydded i wneud hynny. |
| Pwerau o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol: rheoleiddio gollyngiadau, adolygu trwyddedau | Mae gan CNC rôl gorfodi i gymryd camau gweithredu lle mae person yn achosi gweithgaredd gollwng dŵr neu’n caniatáu i hynny ddigwydd o fwriad. Mae gan CNC ddyletswydd statudol i adolygu trwyddedau amgylcheddol o bryd i'w gilydd. |
| Gofynion ar gyfer ymchwiliadau o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr | Gall CNC gymryd camau o ganlyniad i ymchwiliadau o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Gall arwain at ofyniad am fesurau ychwanegol i sicrhau cyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o dan y Rhaglen o Fesurau yn y Cynllun Rheoli Basn Afon, sy'n cynnwys camau gweithredu ar ACAau / AGAau |
| Pwerau o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd: dyletswyddau i reoli'r rhwydwaith safleoedd; pwerau i ymrwymo i gytundebau rheoli; pwerau i wneud Gorchmynion Cadwraeth Natur Arbennig (SNCO); pwerau gwneud is-ddeddfau | Mae rheoliad 16(A) yn darparu i Weinidogion Cymru gefnogi'r gwaith o gyflawni datrysiadau strategol i gyflawni amcanion cadwraeth afonydd ACA. Gall cytundeb rheoli o dan Reoliad 20 osod rhwymedigaethau ar dirfeddianwyr, mae'n orfodadwy gan CNC a gall ddarparu ar gyfer gwneud taliadau. Nid yw'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio'n helaeth ond gallai fod yn fecanwaith pwysig. Yn yr un modd, nid yw Gorchmynion Cadwraeth Natur Arbennig wedi cael eu defnyddio'n helaeth ond gellir eu targedu at barseli o dir mewn dalgylch fel modd o newid defnydd tir. Nid yw pwerau gwneud is-ddeddfau[50] ychwaith yn cael eu defnyddio'n helaeth ond gellir dibynnu arnynt i sicrhau gostyngiadau mewn ffosffadau sy'n mynd i mewn i'r afon o ganlyniad i ddefnydd tir cyfagos. |
| Pwerau prynu gorfodol. Adran 226 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref ac Adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Leol | Mae adran 226 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref yn darparu pwerau i awdurdodau cynllunio lleol gaffael tir yn orfodol pan fydd hynny'n cyfrannu at gyflawni’r canlynol:<br>(a) hybu neu wella lles economaidd eu hardal; |

[49] Rheoliad 27 o'r Rheoliadau Cynefinoedd

[50] Rheoliadau 32 a 33 o'r Rheoliadau Cynefinoedd

| Tabl 12.4.1: Crynodeb o'r Mesurau Rheoleiddio | |
|---|---|
| **Mesur Rheoleiddio** | **Sylwadau ar ddichonoldeb a chyflawni** |
| (Darpariaethau Amrywiol) 1976 sy'n ymwneud â phrynu hawliau yn orfodol. | (a) hybu neu wella lles cymdeithasol eu hardal;<br>(a) hybu neu wella lles amgylcheddol eu hardal.<br><br>Mae adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn ymestyn y pwerau hyn i gaffael hawliau dros dir yn orfodol (yn hytrach na phrynu'r tir ei hun).<br><br>Mae prynu tir yn orfodol yn broses gymhleth ond gall prynu hawliau yn orfodol ddarparu cyfleoedd lle mae sicrhau cytundeb perchennog tir yn rhwystro cyflawni mesurau wedi'u targedu. Gellir defnyddio'r gallu i brynu hawliau yn orfodol i ysgogi tirfeddiannwr i ymrwymo i gytundeb rheoli lle mae hyn yn wir. |
| Pwerau ehangach sydd ar gael i Awdurdodau Cynllunio Lleol | Bydd pwerau Awdurdodau Cynllunio Lleol, gan gynnwys cytundebau S106 ac ardoll seilwaith cymunedol (CIL), yn bwysig wrth sicrhau cyfraniadau ariannol gan ddatblygwyr. Mewn egwyddor, gallai polisïau cynllunio hefyd wneud darpariaeth ar gyfer cefnogi ceisiadau am newid defnydd tir lle bydd yn arwain at ostyngiadau sylweddol mewn llwyth ffosffad i'r afon. |
| Polisi e.e. AMP TAL yn PR24, cyfran deg | Gellir cyflwyno gofynion polisi ar gyfer gwelliannau penodol i Waith Trin Dŵr Gwastraff (yn ogystal â mesurau sy'n seiliedig ar ddalgylch) trwy fecanweithiau cynllunio adnoddau statudol fel Adolygiadau Cyfnodol y diwydiant dŵr. |
| Parth Gwarchod Dŵr (o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Deddf Adnoddau Dŵr 1991 (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2009) | Gellir defnyddio parthau gwarchod dŵr i gyfyngu neu reoli gweithgareddau y gellir eu cynnal o fewn dalgylch ac yna efallai y bydd angen awdurdodi gweithgareddau o'r fath. Mae hwn yn offeryn pwysig i reoli llwyth maethynnau neu lygryddion eraill o sawl ffynhonnell (gan gynnwys ffynonellau gwasgaredig) o fewn dalgylch ond, hyd yn hyn, dim ond mewn un achos y mae wedi'i ddefnyddio (Afon Dyfrdwy). |
| Polisi – cynlluniau cyllido integredig i gefnogi camau ehangach fel cynnydd bioamrywiaeth, lliniaru carbon a pherygl llifogydd | Cyfle ar gyfer enillion ehangach ar draws dalgylch. Angen nodi lleoliadau allweddol yn y dalgylch lle gellir sicrhau manteision ansawdd dŵr a chyfleoedd eraill i'r eithaf. |
| Pwerau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gyfarwyddo CNC; dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus i roi sylw i ganllawiau; cyfarwyddo CNC i ymrwymo i gytundebau rheoli | Deddfwriaeth ymbarél a allai ei gwneud yn ofynnol i leihau ffosffad Mae cytundebau rheoli yn cael eu gwneud yn wirfoddol. Gallai canllawiau gan LlC helpu i gyfeirio polisi a lleihau oedi |

## 12.5 Dewis Opsiwn Lliniaru

12.5.1 Gellir darparu mesurau lliniaru fel dull a arweinir gan ddatblygwyr, yn annibynnol ar weithredu ehangach i adfer y safle ac arfer pwerau statudol, neu fel rhan o ddull integredig o adfer, rheoli a lliniaru. Yn unol â pholisi WG3, **oni bai bod amgylchiadau lleol yn dangos fel arall, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gyrff cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i weithredu dull integredig o ddarparu prosesau rheoli, adfer a lliniaru yn Afonydd ACA Cymru yr effeithir arnynt gan ffosffad gormodol.** Bydd y siart llif yn adran 10 a'r canllawiau cysylltiedig ar lwybrau yn adrannau 5-10 yn nodi pa ddull lliniaru y dylid ei ddewis.

12.5.2 Lle nad ystyrir bod dull lliniaru integredig yn gyraeddadwy (am ba bynnag reswm), bydd angen dull a arweinir gan ddatblygwyr. Yn absenoldeb mentrau cyfochrog i gyflawni adfer, bydd angen i ddull a arweinir gan ddatblygwyr ddangos niwtraliaeth maethynnau. Darperir canllawiau pellach ar niwtraliaeth maethynnau yn adran 15.

# 13 Canllawiau Pellach - Arfer pwerau statudol yn gymesur

## 13.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

13.1.1 Rhagwelir y bydd y defnydd o bwerau rheoleiddio yn creu trafodaeth ar lefel dalgylch. Mae Polisi WG1 yn cydnabod bod cyflawni'r targedau'r amcan cadwraeth o fewn afonydd ACA yn ganolog i nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer 'Cymru gydnerth', 'Cymru lewyrchus', 'Cymru iachach' a 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang'. Mae ecosystemau gweithredol iach yn sail i gydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (gan gynnwys newid yn yr hinsawdd). Mae'r disgrifiad o'r nod ar gyfer 'Cymru lewyrchus' yn cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang a'r angen i ddefnyddio adnoddau yn effeithlon ac yn gymesur.

13.1.2 Mae'r gwelliannau sy'n cael eu cyflawni gan CNC o dan yr Adolygiad Trwyddedau presennol yn cymhwyso dull 'cyfran deg' sy'n cydnabod bod angen cymryd camau pellach er mwyn mynd i'r afael yn llawn â'r problemau maethynnau sy'n wynebu afonydd ACA Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i asiantaethau statudol weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod camau pellach i leihau llwyth maethynnau i ddalgylchoedd afonydd ACA o dan ddull cyfran deg yn cael eu nodi a'u cyflawni yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a ddiffinnir yn adran 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) fel a ganlyn:

> *'Yn y Ddeddf hon, mae unrhyw gyfeiriad at y ffaith bod corff cyhoeddus yn gwneud rhywbeth "yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy" yn golygu bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.'*

13.1.3 Bydd lefelau uchel parhaus o faethynnau yn afonydd Cymru yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau; felly, rhaid i benderfyniadau a gymerir ynghylch sut i gyflawni gwelliannau angenrheidiol ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gyrff statudol perthnasol wneud pob ymdrech i osgoi'r trafferthion a gafwyd yn ystod 'Adolygiad Cydsyniadau' gwreiddiol 2010 (cyfeiriwch at adran 2.3) trwy ddibynnu ar fesurau 'meddal' a gwirfoddol.

13.1.4 Er budd cenedlaethau'r dyfodol, ac o ran dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, dylai cyrff cyhoeddus felly **wneud defnydd cymesur o bwerau statudol i gyflawni camau gweithredu angenrheidiol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac, mewn unrhyw achos, yn unol ag amserlenni o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.** Gellir a dylid archwilio sut i arfer pwerau statudol i gyflwyno mesurau wedi'u targedu mewn dalgylch i gyflawni'r canlyniadau ecolegol mwyaf effeithlon.

## 13.2 Yr angen am bwerau statudol

13.2.1 Mae cyflwyno mesurau i fynd i'r afael â ffynonellau llygredd gwasgaredig yn gymhleth ac yn gofyn am ymgysylltiad ar draws nifer o randdeiliaid. Mae profiad wedi dangos bod dulliau gwirfoddol o reoli llygredd gwasgaredig yn gofyn am fewnbwn amser sylweddol ymlaen llaw a gall y gwelliannau a gyflawnir fod yn gymedrol mewn cymhariaeth â hynny.

13.2.2 Mae natur oportiwnistaidd dulliau gwirfoddol hefyd yn golygu bod mesurau'n aml yn cael eu cyflawni lle mae cyfleoedd yn codi yn hytrach na lle gellir sicrhau'r canlyniadau ecolegol

mwyaf neu lle mae angen cyflawni targedau maethynnau penodol. Er enghraifft, mae stribedi byffro torlannol yn rhyng-gipio canran ddiffiniedig o'r maethynnau sy'n rhedeg oddi ar y tir felly mae targedu gwaith cyflenwi i'r rhannau cywir o ddalgylch o'r pwys mwyaf o ran ystyriaethau cost a budd a sicrhau’r canlyniadau ecolegol gorau.

13.2.3 Bydd cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol mewn afonydd SAC yn gofyn am nodi a chyflawni mesurau mewn modd bwriadol a thargedu’n ofalus. Ystyrir bod y defnydd o bwerau statudol yn bwysig iawn: i wireddu’r canlynol:

- Sicrhau newidiadau mewn arferion yn brydlon a chyda sicrwydd
- Sicrhau y defnydd gorau o'r arian sydd ar gael
- Sicrhau’r canlyniadau ecolegol mwyaf (trwy gyflwyno mesurau yn y lleoliadau gorau posibl)
- Sicrhau gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau
- Cyflawni dyletswyddau'r llywodraeth i ddiogelu'r amgylchedd
- Dileu rhwystrau i gyflawni datblygiad.

13.2.4 mae'r defnydd o bwerau statudol mewn perthynas â chydymffurfio a gorfodi eisoes yn rhan o'r gwaith a gynlluniwyd o dan Brosiect Afonydd ACA CNC.

## 13.3 Y defnydd cymesur o bwerau statudol

13.3.1 Pan fo cyrff cyhoeddus o'r farn bod angen defnyddio pwerau statudol i sicrhau bod gwelliannau yn cael eu cyflawni mewn modd amserol, ac y gellir cyflawni datblygiad yn unol â'r egwyddor cynaliadwyedd, bydd angen sicrhau bod y defnydd o bwerau yn gymesur. Dylid gofalu peidio ag ymateb yn fyrbwyll i’r defnydd o bwerau statudol gan y bydd goblygiadau i'r rhai yr effeithir arnynt yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar y math o bwerau y gellid eu harfer a'r raddfa ofodol/amserol y gellid arfer y pwerau drosti.

13.3.2 Wrth ystyried arfer pwerau statudol, a chymharu gwahanol ddulliau i gyflawni'r amcanion cadwraeth, rhaid cymhwyso'r egwyddor lleiaf beichus (cyfeiriwch at 4.2). Mae hyn yn golygu, *'lle y gellir cyflawni'r amcan hwnnw mewn nifer o ffyrdd, rhaid i'r awdurdod neu'r awdurdodau cymwys dan sylw geisio sicrhau mai'r camau a gymerir yw'r lleiaf beichus i'r rhai yr effeithir arnynt'.*

13.3.3 Felly, dylai'r defnydd cymesur o bwerau statudol gydbwyso'r goblygiadau i'r 'rhai yr effeithir arnynt' gyda chanlyniadau i eraill os nad yw’r pwerau yn cael eu cymryd (h.y. nad yw'r amcanion cadwraeth yn cael eu cyflawni, neu'n cael eu cyflawni yn ddiweddarach a goblygiadau cysylltiedig ar gyfer cyflawni datblygu).

13.3.4 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gyrff cyhoeddus archwilio'n llawn sut y gellir hwyluso gwelliannau i afonydd ACA drwy arfer pwerau statudol yn gymesur.

# 14 Canllawiau Pellach - Dull cafeat polisi

## 14.1 Yr angen i fynd i'r afael ag ansicrwydd

14.1.1 Lle mae angen lliniaru er mwyn osgoi effeithiau andwyol i uniondeb safle o ddatblygiad newydd (o dan reoliad 63), y rheol gyffredinol yw y dylai lliniaru fod yn effeithiol cyn y bydd effeithiau niweidiol o ddatblygiad a ganiateir yn codi, ac y dylid sicrhau lliniaru cyn rhoi cydsyniad neu ganiatâd. Mae hyn ar y sail bod unrhyw ddibyniaeth ar gam penderfynu ar ragdybiaethau mewn perthynas â mesurau *i'w cyflawni* yn y dyfodol yn cyflwyno lefel gynhenid o ansicrwydd; bydd posibilrwydd pob amser na fydd camau gweithredu y dibynnir arnynt pan roddir cydsyniad neu ganiatâd yn digwydd, am ba bynnag reswm. Gall yr angen i liniaru gael ei sicrhau cyn y gellir rhoi cydsyniad olygu cyfyngiadau ar wneud penderfyniadau.

14.1.2 Mewn perthynas â datblygiadau newydd, lle mae dull mwy strategol yn cael ei ddefnyddio i gyflawni lliniaru, mae Llysoedd y DU wedi cydnabod bod angen rhywfaint o hyblygrwydd i osgoi dulliau gormodol[51]. Mae'r defnydd o 'gafeatau' neu 'gyfyngiadau' polisi penodol yn cael eu derbyn gan Lysoedd y DU fel ffordd addas o fynd i'r afael ag ansicrwydd yn y cam gwneud penderfyniadau lle bydd lliniaru y dibynnir arno gan ddatblygiad arfaethedig yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol, neu lle nad yw manylion penodol mewn perthynas â mesurau lliniaru y dibynnir arnynt wedi'u cwblhau ar yr adeg y gwneir penderfyniad.

14.1.3 Mae Polisi WG2 yn bwysig yn hyn o beth. Pan fo datblygiad newydd yn dibynnu ar gydsyniad presennol (fel sy'n digwydd gyda datblygiad tai sy'n cysylltu â gwaith trin dŵr gwastraff a ganiateir) mae mwy o hyblygrwydd yn y graddau y gallai penderfyniad o dan reoliad 63 ystyried 'camau gweithredu i'w cymryd'.

## 14.2 Beth yw dull cafeat polisi?

14.2.1 Gall yr hyblygrwydd hwn gael ei ddarparu gan ddull cafeat polisi sy'n gweithio trwy ddarparu dolen adborth i sicrhau bod penderfyniad sy'n dibynnu ar fesurau/camau gweithredu yn y dyfodol yn destun rhyw fath o gyfyngiad polisi. Er enghraifft, mae cymhwyso polisi cynllunio cyffredinol sy'n effeithio ar ddatblygiad o fewn dalgylch ACA yn cael ei wneud yn amodol ar dystiolaeth bod y cam gweithredu y dibynnir arno yn mynd rhagddo fel y bwriadwyd. Os na fydd cerrig milltir cyflawni yn cael eu bodloni, gellir atal cymhwyso'r polisi cynllunio i gynigion datblygu dros dro nes bod y sefyllfa yn cael ei chywiro. Felly, mae dull cafeat polisi yn creu cyd-ddibyniaeth rhwng datblygiadau sy'n cael eu dwyn ymlaen a mesurau lliniaru y dibynnir arnynt yn unol â cherrig milltir cytunedig.

14.2.2 Gall rhyng-ddibyniaeth fod yn berthnasol ar lefel prosiect a chynllun, ond darperir mwy o hyblygrwydd mewn perthynas â rhyng-ddibyniaeth wrth ddylunio mesurau lliniaru ymlaen llaw, ar lefel strategol, ar gyfer swm cyffredinol o ddatblygiad. Byddai hyn fel arfer yn cael ei wneud fel rhan o HRA cynllun neu atodiad i HRA cynllun presennol (efallai yn dilyn newid

[51] Cyfeiriwch at Cairngorms Campaign v Cairngorms NPA [2012] CSOH 153; Feeney v Oxford City Council [2011] EWHC 2699 (Admin); a No Adastral New Town Ltd v Suffolk Coastal District Council [2015] EWCA Civ 88.

mewn amgylchiadau yn ystod cyfnod y cynllun). Mae adran F.10 o'r Llawlyfr HRA[52] yn cyfeirio at y defnydd o gyfyngiadau neu gafeatau polisi o'r fath fel a ganlyn:

> *'In some plans… in order to ascertain no adverse effects on site integrity, other kinds of mitigation measures may be required at this stage…*
>
> *Further mitigation measures that may be introduced during or after the 'appropriate assessment' stage may be:*
>
> - *Case-specific policy restrictions;*
> - *Case-specific policy caveats;…*
>
> *… To be an appropriate restriction or caveat (in (a) or (b) above), enabling the plan-making body to ascertain no adverse effect on the integrity of a European site, the restriction must be –*
>
> - *case-specific;*
> - *explicit; and*
> - *added to the policy and not merely added to the explanatory text or commentary, or not merely inserted into the implementation or monitoring chapters.'*

14.2.3 Pan fydd dibyniaeth ar gafeatau polisi neu gyfyngiadau achos-benodol, gall monitro cynnydd yn erbyn cerrig milltir y cytunwyd arnynt ymlaen llaw fod yn rhan o ddull rhyng-ddibynnol i alluogi caniatâd i gael ei roi cyn i fesurau gael eu gweithredu neu brofi i fod yn effeithiol. Mae'r dull yn aml yn gweithio mewn perthynas â chyfres o fesurau sy'n cael eu cyflwyno dros amserlen ddiffiniedig sy'n darparu lliniaru ar gyfer datblygiadau sy'n cael eu dwyn ymlaen o fewn yr amserlen honno.

14.2.4 Mae dull cafeat polisi yn dechrau o sefyllfa bod penderfyniadau datblygu yn y dyfodol yn dibynnu ar gyflawni cyfres o fesurau. Mae'r dull yn cydnabod, ar yr adeg y gwneir y rhagdybiaeth, fod risg o hyd na ellir cyflawni mesurau y dibynnir arnynt, am ba bynnag reswm. Mae'r cafeat polisi yn golygu bod penderfyniadau datblygu yn amodol ar gerrig milltir y cytunwyd arnynt ymlaen llaw yn cael eu bodloni; gan creu gofyniad parhaus i *wirio* bod y gwaith o gyflawni mesurau y dibynnir arnynt i osgoi effeithiau andwyol i uniondeb y safle yn mynd rhagddo. Mae'r gefnogaeth bolisi a ddarperir gan y cynllun mewn perthynas â datblygiad o'r fath yn dod yn amodol ar fesurau yn cael eu cyflawni yn unol â'r cerrig milltir arfaethedig. Os bydd cerrig milltir cyflawni yn cael eu colli, yna mae'r gwaith o gyflwyno datblygiad yn cael ei ohirio nes y gellir cywiro'r sefyllfa.

14.2.5 Gall rhyng-ddibyniaeth hefyd fod yn berthnasol ar lefel prosiect lle caniateir datblygu ar sail cyflawni mesurau yn y dyfodol. Y gofyniad yw sicrhau bod datblygiad yn amodol ar ryw fath o amod neu gyfyngiad sy'n gwahardd effeithiau a allai fod yn niweidiol nes bod mesurau y dibynnir arnynt wedi'u gweithredu ac yn effeithiol. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi derbyn y defnydd o amodau Grampian o dan rai amgylchiadau sy'n gysylltiedig â niwtraliaeth maethynnau[53] ac fe gyfeirir atynt yng nghyngor cyfredol CNC.

---

[52] Tyldesley, D., and Chapman, C., (2013) The Habitats Regulations Assessment Handbook, (Feb) (2024) edition UK: [DTA Publications Limited]()
[53] Cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio: APP/L2630/W/21/3289198

# 15 Dulliau sicrhau niwtraliaeth maethynnau

## 15.1 Pryd i ystyried dulliau sicrhau niwtraliaeth maethynnau

15.1.1 Mae'r angen am ddulliau sicrhau niwtraliaeth maethynnau wedi'i nodi yn y siart llif a ddarperir yn adran 4. Mae tri senario a allai arwain at ofyniad am niwtraliaeth maethynnau:

A. Lle mae diwygiadau arfaethedig Adolygiad Trwyddedau CNC yn cyflawni'r targedau P i lawr yr afon, ond ni fydd gwelliannau yn cael eu cyflawni cyn i effeithiau o'r datblygiad arfaethedig godi – ANGEN NIWTRALIAETH TYMOR BYR

B. Lle na ellir sicrhau camau gweithredu 'cyfran deg' eraill i gyflawni targedau P i lawr yr afon - ANGEN NIWTRALIAETH AR GYFER OES Y DATBLYGIAD.

C. Lle nad yw dull integredig o ddarparu mesurau rheoli, adfer a lliniaru yn gyraeddadwy yn ymarferol - ANGEN NIWTRALIAETH AR GYFER OES Y DATBLYGIAD.

## 15.2 Egwyddorion niwtraliaeth o ran maethynnau CNC

15.2.1 Mae CNC wedi cyhoeddi 'Egwyddorion niwtraliaeth o ran maethynnau mewn perthynas â datblygiadau neu drwyddedau gollwng dŵr arfaethedig'. Disgrifir niwtraliaeth o ran maethynnau fel:

> *'dull o reoli datblygiadau newydd a thrwyddedau gollwng dŵr arfaethedig er mwyn eu hatal rhag achosi unrhyw gynnydd net mewn maethynnau drwy gydol cyfnod yr awdurdodiad'.*

15.2.2 Mae cyngor CNC yn esbonio bod dangos niwtraliaeth ar gyfer datblygiad arfaethedig yn ddull cydnabyddedig o ddangos na fydd datblygiad yn cael effaith andwyol. Mae saith egwyddor niwtraliaeth o ran maethynnau ac fe'u nodir ym mlwch 16.2.1 isod:

| | Egwyddorion niwtraliaeth o ran maethynnau CNC |
|---|---|
| 1 | Rhaid i gyfrifiadau fod yn seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol a'r ymchwil orau sydd ar gael, sy'n cynnwys mewnbynnau a thybiaethau allweddol ar adeg cynnal yr Asesiad Priodol. |
| 2 | Mae mesurau yn effeithiol ac ar waith ar hyd oes datblygiad/ar gyfer effeithiau gweithgareddau a ganiateir gan ddangos sut y bydd hyn yn cael ei sicrhau, megis drwy gytundebau cyfreithiol. |
| 3 | Tystiolaeth y bydd mesurau lliniaru ar waith pan ddaw datblygiad arfaethedig yn weithredol. Rhaid sicrhau bod y mesurau lliniaru ar gyfer sicrhau niwtraliaeth o ran maethynnau ar waith ac yn weithredol pan fydd gollyngiadau i'r afon yn dechrau (yn uniongyrchol neu drwy system garthffosiaeth) yn sgil datblygiad arfaethedig neu drwydded gollwng dŵr. Os caiff yr effaith ei chyflwyno fesul cam, efallai y bydd angen ystod o fesurau i fynd i'r afael ag effeithiau dros amser. |
| 4 | Rhaid i fesurau lliniaru beidio â pheryglu adferiad yr ACA. Mae hyn yn golygu peidio â chyfyngu ar y mesurau hynny sydd eisoes ar waith neu y gall fod eu hangen yn y dyfodol i gynnal neu adfer yr ACA. Ni ddylai gweithredu mesurau lliniaru drwy ddull niwtraliaeth o ran maethynnau danseilio'r amcanion yn y Rheoliadau Cynefinoedd sy'n anelu at adfer y safle i gyflwr ffafriol. Er enghraifft, lle mae opsiynau lliniaru cyfyngedig ar gael, dylid eu defnyddio i gynnal neu wella'r safle yn hytrach na galluogi rhagor o ollyngiadau i'r afon ACA. |
| 5 | Ni ddylai mesurau a ddefnyddir i ddangos Niwtraliaeth o ran Maethynnau gael eu cyfrif ddwywaith. Mae'n debygol y bydd angen cadw cofrestr genedlaethol o gynlluniau er mwyn sicrhau na fydd unrhyw achosion o gyfrif dwywaith. |

| | |
|---|---|
| 6 | Lle bo modd, dylid gweithredu mesurau o fewn terfynau'r safle datblygu. Lle na chyflawnir hyn rhaid peidio ag achosi unrhyw niwed i'r ACA o hyd. Ni roddir caniatâd oni bai bod yr awdurdod cymwys yn fodlon na cheir effaith ar yr ACA. Bydd angen lliniaru effaith datblygiad neu drwydded gollwng dŵr arfaethedig sydd o fewn ffin afon mewn ACA naill ai ar y safle neu i fyny'r afon. Gellir gweithredu mesurau lliniaru ar gyfer datblygiad sy'n effeithio ar gwrs dŵr sy'n ymuno â ffin afon mewn ACA naill ai i fyny neu i lawr yr afon ar yr amod bod y gwrthbwyso'n digwydd cyn y pwynt y mae'r datblygiad yn cael effaith ar ffin yr ACA. |
| 7 | Rhaid sicrhau bod cyfrifiadau maethynnau yn seiliedig ar egwyddor ragofalus. Ymdrinnir â'r ansicrwydd yn y cyfrifiadau maethynnau trwy ddull rhagofalus sy'n defnyddio clustogfeydd. Bydd hyn yn golygu ychwanegu canran at y cyfrifiad wrth ddefnyddio offeryn cyfrifo maethynnau. Dylai hyn ddarparu'r lefel angenrheidiol o hyder i sicrhau na fydd datblygiadau newydd neu weithgareddau a drwyddedir yn cynyddu'r llwyth maethynnau sy'n mynd i afonydd mewn ACAau. |

15.2.3 Mae dull niwtraliaeth o ran maethynnau yn wahanol i'r dull integredig a ffefrir ar gyfer lliniaru y cyfeirir ato yn adran 11. **O dan ddull integredig o adfer a lliniaru, mae'r risg i uniondeb y safle yn deillio o'r risg y gall datblygiad achosi oedi o ran cyflawni mesurau sydd eisoes wedi'u nodi i gyflawni'r amcanion cadwraeth; mae effeithiolrwydd mesurau lliniaru yn ymwneud ag osgoi unrhyw oedi o'r fath. Mae dulliau sy'n seiliedig ar niwtraliaeth yn berthnasol lle nad yw'r camau priodol i gyflawni adfer neu osgoi dirywiad o dan Erthygl 6(1) neu (2) wedi'u nodi eto, neu nad ydynt eto yn gysylltiedig â mecanwaith cyflawni.** Pan fydd cynigion newydd yn gwaethygu problem etifeddol, mae'r risg gymharol i safle yn uniongyrchol gymesur â'r graddau y mae camau yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater etifeddol. Os na chymerir unrhyw gamau/mesurau, mae'r risgiau o gynigion newydd yn barhaol; maent yn achosi i broblem sy'n bodoli eisoes barhau (a gallant hyd yn oed waethygu'r broblem) ac yn cynrychioli risg barhaus amlwg i uniondeb safle. Er mwyn osgoi effeithiau andwyol o dan senario o'r fath, rhaid i opsiynau lliniaru osgoi dirywiad pellach (e.e. trwy ddull niwtraliaeth) a byddant yn cael eu gwerthuso yn unol â hynny.

## 15.3 Dangos niwtraliaeth maethynnau

15.3.1 Mae'r angen i ddangos na fydd unrhyw ddirywiad pellach yn digwydd yn golygu y gall cyfrifiadau sy'n seiliedig ar niwtraliaeth fod yn fwy beichus. Mae offer cyfrifo maethynnau ar gael i'r cyhoedd[54] ond bydd angen i awdurdodau cynllunio wirio eu haddasrwydd ar gyfer y senario dan sylw ar adeg eu defnyddio. Bydd cynghorwyr CNC yn gallu cynghori ar offer cyfrifiannu maethynnau a allai fod yn berthnasol. Mae cyfrifiannell Cymru Gyfan a'r canllawiau i'w gweld yn: https://www.llyw.cymru/cyfrifiannell-cyllideb-maetholion

15.3.2 Yn gyffredinol, er mwyn dangos niwtraliaeth maethynnau, bydd angen i gynigwyr prosiect, neu'r rhai sy'n gweithredu ar eu rhan:

- Cyfrifo'r cynnydd cyffredinol mewn llwyth maethynnau o'r datblygiad arfaethedig a'r llwyth maethynnau presennol o'r defnydd tir presennol.
- Cyfrifo'r cynnydd cyffredinol yn y llwyth maethynnau
- Nodi mesurau arfaethedig i leihau llwyth maethynnau (cyfeiriwch at adran 12)

[54] Mae Defra wedi cyhoeddi offer ac adnoddau ar gyfer cyfrifo niwtraliaeth maethynnau ar gyfer Afonydd yn Lloegr (gan gynnwys yr Afon Lugg) yma.

- Cyfrifo'r gostyngiadau i'w cyflawni o'r mesurau arfaethedig a dangos niwtraliaeth
- Sicrhau a chyflawni'r mesurau yn unol ag egwyddorion niwtraliaeth maethynnau

## 15.4 Niwtraliaeth maethynnau ar waith

15.4.1 Gellir dangos niwtraliaeth maethynnau fesul achos, gan ystyried pob prosiect yn ei dro. Mae hyn drwm ar adnoddau a gall osod beichiau sylweddol ar gynigwyr prosiectau, gwneuthurwyr penderfyniadau ac ymgynghorwyr statudol. Fel arall, gellir defnyddio dull strategol o ymdrin â niwtraliaeth lle gellir datblygu cynlluniau masnachu maethynnau a arweinir gan y Llywodraeth neu dirfeddianwyr. Mae cynllun masnachu maethynnau yn golygu cyflwyno mesurau ar raddfa fwy i leihau swm diffiniedig o faethynnau sydd wedyn yn cael eu 'masnachu' i bartïon allanol i gyflawni niwtraliaeth ar gyfer datblygiad arfaethedig. Wrth ddewis opsiynau niwtraliaeth maethynnau i gyflawni gwaith lliniaru digonol, mewn pryd, dylid cymhwyso'r egwyddor **lleiaf beichus**.

15.4.2 Pan ddewisir dull a arweinir gan ddatblygwyr, bydd angen nodi un mesur, neu gyfres o fesurau a fydd yn darparu digon o ostyngiadau mewn maethynnau i liniaru ar gyfer y llwyth maethynnau ychwanegol o'r datblygiad dan sylw. Wrth gymhwyso dull a arweinir gan ddatblygwyr, bydd cyflawni mesurau yn aml yn dibynnu ar gytundeb tirfeddianwyr a bydd angen ystyried i ba raddau y mae sicrhau cytundeb tirfeddianwyr yn realistig.

15.4.3 Wrth ystyried darparu tai fforddiadwy, mae'n berthnasol nodi bod y disgwylir i raddfa’r llwyth maethynnau ychwanegol o dai fforddiadwy fod yn gymedrol. Yn yr ymarfer casglu data o dan y Cynllun Gweithredu[55] nodwyd bod oddeutu 1795 o gartrefi fforddiadwy ledled Cymru o bosibl yn cael eu dal yn ôl gan y mater ffosffadau ac mae'n annhebygol y bydd y rhain i gyd yn effeithio ar yr un dalgylch. Gall cyflwyno un mesur niwtraliaeth maethynnau strategol ddarparu'r cyfleoedd gorau o ran effeithlonrwydd wrth ddarparu tai fforddiadwy a chanlyniadau ecolegol. Wedi dweud hynny, bydd dosbarthiad tai fforddiadwy o fewn dalgylch yn dylanwadu ar leoliad mesurau. **Rhaid lleoli mesurau i fod yn effeithiol ac, lle bynnag y bo modd, dylid eu cyflwyno yn uwch i fyny'r afon o leoliadau rhyddhau yr effeithir arnynt.** Felly, lle mae opsiwn mesur sengl yn cael ei roi ar waith, mae'r rhai sydd wedi'u lleoli yn uwch i fyny'r dalgylch yn fwy tebygol o fod yn effeithiol.

15.4.4 Fel rhan o liniaru strategol, gall awdurdodau ystyried cynllun lliniaru maethynnau sy'n debyg i'r hyn sydd ar waith yn Lloegr ar Afon Tees dan arweiniad Natural England[56]. Yn y cynllun hwnnw, mae datblygwyr yn prynu credydau gan Natural England i ariannu camau lliniaru fel creu coetiroedd neu wlyptiroedd sy'n cael eu targedu mewn lleoliadau strategol o fewn dalgylch ac ar raddfa na fyddai'n bosibl ei chyflawni trwy ddull codi cyfraniadau ar ddatblygwyr fesul achos. Yn gyffredinol, mae dulliau niwtraliaeth maethynnau yn gweithredu'n annibynnol ar arfer pwerau statudol (sy'n fwy cysylltiedig â dull lliniaru integredig) felly byddai angen i Cyfoeth Naturiol Cymru weithio'n rhagweithiol gyda rheolwyr tir i nodi tir addas ar gyfer mesurau lliniaru mewn dalgylchoedd sydd â risg uchel o lygredd maethynnau lle mae pwysau sylweddol ar gyfer datblygiadau tai newydd. Efallai y bydd yn bosibl i ddatblygwyr gyfuno taliadau amgylcheddol y allai fod eu hangen fel rhan o sicrhau

[55] Darpariaeth tai fforddiadwy: Ebrill 2021 i Fawrth 2022. Llywodraeth Cymru, Chwefror 2023.
[56] Mae rhagor o fanylion am weithrediad y cynllun yn nalgylch Afon Tees i'w gweld yn: https://www.middlesbrough.gov.uk/planning-and-development/planning-policy/nutrient-neutrality/#:~:text=The%20term%20'nutrient%20neutrality'%20is,up%20in%20the%20River%20Tees .


budd net i fioamrywiaeth i hwyluso’r gwaith o gyflawni camau gweithredu sy'n diogelu ac adfer yr amgylchedd.

# Atodiad 1: Trosolwg o'r broses HRA a'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn

## Beth yw HRA a pha gwestiynau sy'n cael eu gofyn?

Mae unrhyw asesiad o dan y Rheoliadau Cynefinoedd yn seiliedig ar ddull pedwar cam sefydledig, fel y'i crynhoir yn ffigur A1.1 isod, y cyfeirir ato'n gyffredin fel Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA).

**Ffigur A1.1**
**Amlinelliad o'r dull 4 cam ar gyfer HRA**




## Cam 1 - Sgrinio am effeithiau arwyddocaol tebygol

Wrth sgrinio am effaith arwyddocaol debygol (cam 1), mae cyfraith achosion wedi sefydlu bod effaith yn 'debygol' os na ellir ei heithrio ar sail gwybodaeth wrthrychol[57]. Yn ymarferol felly, ac er gwaethaf y defnydd bob dydd o'r gair 'tebygol', mae'r prawf sgrinio yn gofyn a yw effaith sylweddol yn *bosibl*. Mae effaith yn 'arwyddocaol' yn y cyd-destun hwn dim ond os yw'n tanseilio'r amcanion cadwraeth[58].

Wrth fynd i'r afael â'r cwestiwn hwn o ran llwyth ffosfforws o'r datblygiad arfaethedig, mae'r amcanion cadwraeth ar gyfer ACAau afonol yn cynnwys targedau ffosfforws felly, i ail-eirio’r

[57] Case C-127/02 *Waddenzee* cyfeiriwch at bara 45
[58] Case C-127/02 *Waddenzee* cyfeiriwch at bara 47

cwestiwn wrth gymhwyso'r prawf effaith arwyddocaol debygol, rhaid i benderfynwr benderfynu a yw'n bosibl y gallai'r amcanion cadwraeth gael eu tanseilio.

Rhaid gofyn y cwestiwn ynghylch effaith arwyddocaol debygol *'naill ai ar ei ben ei hun neu'n gyfunol â chynlluniau neu brosiectau eraill*' ac mae'r ddarpariaeth ar y cyd yn cael dylanwad sylweddol. Felly, lle na fydd effeithiau prosiect yn tanseilio'r amcanion cadwraeth 'ar eu pennau eu hunain', mae angen ystyried a allai'r effeithiau 'cyfunol â chynlluniau a phrosiectau eraill' wneud hynny. I fod yn fanwl gywir, felly, gellid dadlau y gallai hyd yn oed yr effaith leiaf gynrychioli risg i safle, pan gaiff ei hystyrir yn gyfunol â chynlluniau a phrosiectau eraill. Fodd bynnag, dylid osgoi defnyddio dull gormodol oherwydd, wrth gymhwyso'r cam 'sgrinio' effaith sylweddol debygol, pwysleisiodd yr Adfocad Cyffredinol Sharpston yn achos *Sweetman* bwysigrwydd osgoi gormodedd ddeddfwriaethol.

> *'The requirement that the effect in question be 'significant' exists in order to lay down a de minimis threshold. Plans or projects that have no appreciable effect on the site are thereby excluded. If all plans or projects capable of having any effect whatsoever on the site were to be caught by Article 6(3), activities on or near the site would risk being impossible by reason of legislative overkill.'*

Mae hyn yn sefydlu egwyddor bwysig - nid yw'r Rheoliadau Cynefinoedd yn ymwneud ag unrhyw effaith o gwbl. Mae gan hyn oblygiadau o ran *sut* mae agwedd asesu gyfunol yr asesiad yn cael ei sbarduno. Er mwyn osgoi gormodedd deddfwriaethol, rhaid caniatáu i ryw fath o drothwy de minimis ddylanwadu ar a) pryd y bydd angen asesiad cyfunol a b) pa 'gynlluniau a phrosiectau eraill' y dylid eu hystyried. Mae'r cysyniad o ddulliau sy'n seiliedig ar drothwy yn cael ei archwilio ymhellach yn adran 5.

## Asesiad priodol a'r prawf uniondeb

Pan nodir y *gallai* cynnig danseilio'r amcanion cadwraeth, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill, mae angen asesiad priodol. Ar ôl asesiad priodol, dim ond ar ôl canfod na fydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar uniondeb y safle Ewropeaidd (y prawf uniondeb) y gellir rhoi caniatâd. Yn dilyn yn rhesymegol ymlaen o'r prawf sgrinio, mae canllawiau'r CE[59] ar y cysyniad o uniondeb safle wedi'u seilio ar y potensial i safle gyflawni ei amcanion cadwraeth. Mae adran 4.6.4 o ganllawiau'r CE yn esbonio '*it is clear from the context and from the purpose of the Directive that the 'integrity of a site' relates to the site's conservation objectives*'.

Mae canllawiau'r CE yn cyfeirio at uniondeb fel 'a quality or condition of being whole or complete', ac yn esbonio bod angen ystyried effeithiau tymor byr, canolig a hirdymor wrth edrych ar 'uniondeb'. Darperir yr esboniad defnyddiol canlynol o'r hyn y mae'n ei olygu i safle gael lefel uchel o 'uniondeb':

> *'A site has a high degree of integrity where the inherent potential for meeting site conservation objectives is realised, the capacity for self-repair and renewal under dynamic conditions is maintained, and a minimum of external management is required.'*

Mae'r cyfeiriad at yr amcanion cadwraeth wrth gymhwyso'r prawf uniondeb yn cael ei ailadrodd mewn rhan arall o'r canllawiau sy'n nodi:

> *'If none of the habitat types or species for which the site has been designated is significantly* affected then the site's integrity cannot be considered to be adversely affected… However, if*

[59] Managing Natura 2000 (Tachwedd 2018) – cyfeiriwch at adran 4.6.4

*just one of them is significantly* affected, taking into account the site's conservation objectives, then site integrity is necessarily adversely affected'.*

* Gan gyfeirio at baragraff 3.2.1 uchod, effaith 'sylweddol' yw effaith sy'n 'tanseilio'r amcanion cadwraeth.

Wrth gynnal asesiad priodol mewn perthynas ag ansawdd dŵr, a thargedau ffosfforws a nodir yn yr amcanion cadwraeth, mae cymhwyso'r prawf uniondeb felly yn ymwneud â'r potensial cynhenid i safle gyflawni ei amcanion cadwraeth (h.y. bodloni ei dargedau ffosffad). Dylid dehongli hyn mewn modd rhesymol / pragmatig fodd bynnag, yng ngoleuni'r hyn y mae'n ei olygu, yn ymarferol, i dargedau gael eu 'bodloni'.

## Y broses randdirymu

Mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn darparu ar gyfer dull fesul cam o ran gwneud penderfyniadau fel y'i crynhoir yn ffigur 3.1.1. Os nad yw'n bosibl, yn dilyn asesiad priodol ac ystyried mesurau lliniaru, dod i'r casgliad na fydd unrhyw effaith andwyol ar uniondeb y safle, nid yw'n anochel bod yn rhaid gwrthod caniatâd/cydsyniad.

Mewn senario o'r fath, mae gan benderfynwr ddewis; gallant naill ai wrthod cydsyniad neu ganiatâd ar gyfer y cynnig a allai fod yn niweidiol, neu gallant roi cydsyniad er gwaethaf canlyniad negyddol i'r asesiad priodol, os gellir bodloni meini prawf penodol.

Mae'r darpariaethau rhanddirymu wedi'u nodi yn rheoliadau 64 a 68 o'r Rheoliadau Cynefinoedd ac mae'n amlwg bod disgwyl dull fesul cam mewn perthynas â'r profion rhanddirymu. Gyda'i gilydd, mae rheoliadau 64 a 68 yn golygu, lle nad yw'n bosibl dod i'r casgliad y bydd 'dim effeithiau andwyol i uniondeb safle' o ddatblygiad arfaethedig, ac mae awdurdod cymwys yn bwriadu cymhwyso'r darpariaethau rhanddirymu, rhaid iddynt:

- Yn gyntaf, bodloni eu hunain nad oes datrysiadau amgen i'r cynllun neu'r prosiect sy'n destun asesiad.
- Yn ail, gwneud penderfyniad ynghylch a oes rhaid i'r cynllun neu'r prosiect gael ei gyflawni am resymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig (yn amodol ar feini prawf penodol); ac
- Yn drydydd, bodloni eu hunain y gall yr awdurdod priodol (Gweinidogion Cymru yng Nghymru) sicrhau mesurau cydbwyso angenrheidiol sy'n sicrhau bod 'cydlyniant cyffredinol y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol' yn cael ei ddiogelu[60].

[60] Cyfeiriwch at reoliad 3

# Atodiad 2: Dull integredig a chyfraith achosion berthnasol mewn perthynas â sicrwydd

## Dyfarniad Nitrogen yr Iseldiroedd

Mae Dyfarniad Nitrogen yr Iseldiroedd[61] yn ddyfarniad pwysig gan y Llysoedd Ewropeaidd mewn perthynas â'r graddau y gall mesurau lliniaru ystyried adfer. Roedd yr achos yn ymwneud â dull strategol o fynd i'r afael ag effeithiau sy'n gysylltiedig â ffynonellau atmosfferig o nitrogen maethynnau (ffynonellau amaethyddol yn bennaf) ar safleoedd dynodedig ac felly gellir tynnu cymariaethau â dulliau strategol i fynd i'r afael â maethynnau a gludir gan ddŵr. Mae'r dyfarniad yn cwmpasu ystod o gwestiynau a dylid ei ddehongli'n ofalus. Cyn ystyried manylion yr achos mae angen cydnabod bod y dull strategol a oedd yn destun craffu gan y Llysoedd Ewropeaidd (PAS) yn dechrau o ragdybiaeth bod cyflawni'r safonau perthnasol (y cyfeirir atynt fel llwythi critigol) '*not very realistic'*. Yn hytrach, disgrifiwyd y dull arfaethedig fel '*a balance between benefits to nature and burden to society*'.[62] Mae hefyd yn berthnasol nodi bod effeithiau llygredd atmosfferig o ffynonellau amaethyddol yn gyffredinol wedi diffinio ôl troed effaith ond y bydd mewnbwn i gwrs dŵr afonol sy'n llifo yn fwy eang (i ddarnau yr effeithir arnynt i lawr yr afon).

Mae'r dull PAS yn nodi 'lle ar gyfer gwaddodi' a rhagdybiaeth PAS oedd y byddai gwaddodiad nitrogen yn cael ei leihau ac y bydd hanner y gostyngiad hwnnw yn cynnig 'lle ar gyfer twf' ar gyfer gweithgareddau economaidd newydd. Roedd y gostyngiad tybiedig mewn gwaddodi nitrogen yn seiliedig ar PAS gan gynnwys mesurau adfer safle-benodol a mesurau atodol er budd llystyfiant yn ogystal â mesurau wedi'u cyfeirio at y ffynhonnell, ond pwynt allweddol yw bod 50% o'r gwelliannau disgwyliedig i'w neilltuo i dwf. Y canlyniad terfynol oedd y byddai cyflawni'r datblygiad yn achosi oedi o ran gyflawni'r amcanion cadwraeth. Mae hefyd yn berthnasol nodi bod PAS wedi caniatáu i benderfyniadau ystyried manteision yn y dyfodol o fesurau disgwyliedig nad oedd, ar adeg y gwnaethpwyd y penderfyniad, wedi'u cyflawni.

Er y gellir tynnu cymhariaeth rhwng y dull PAS a'r dull integredig arfaethedig o adfer, rheoli a lliniaru a gyflwynir yma, mae gwahaniaethau pwysig fel y'u crynhoir isod.

- Mae'r dull integredig yn nodi mesurau i gyflawni'r targedau amcan cadwraeth. Ystyrir bod cyflawni targedau o'r fath yn realistig.
- Nid yw'r dull integredig yn neilltuo unrhyw fanteision i'w sicrhau o gyflawni gwelliannau i ganiatáu lle ar gyfer twf. Yn hytrach, mae lliniaru yn cael ei integreiddio i ddull i sicrhau na fydd datblygiad yn tanseilio cyflawni'r amcanion cadwraeth neu'n achosi oedi i gyflawni'r adfer mewn unrhyw fodd.

[61] Achosion wedi'u cyfuno C-293/17 a C-294/17 'The Dutch Nitrogen Ruling'
[62] Achosion wedi'u cyfuno C-293/17 a C-294/17 Advocate General Opinion para 65.

- Mae'r dull integredig yn cael ei ategu gan ddull cafeat polisi (cyfeiriwch at adran 14) sy'n cael ei gymeradwyo gan Lysoedd y DU i sicrhau cyd-ddibyniaeth rhwng mesurau sy'n cael eu gweithredu a chyflawni datblygiad.

Sefydlwyd rhai egwyddorion gan Ddyfarniad Nitrogen yr Iseldiroedd sydd wedi'u rhestru yn nhabl A2.1 ochr yn ochr â gwerthusiad o ba raddau y maent yn berthnasol i'r dull integredig arfaethedig o adfer, rheoli a lliniaru.

| **Tabl A2.1 egwyddorion cyfreithiol a sefydlwyd gan y Ddyfarniad Nitrogen yr Iseldiroedd** | |
|---|---|
| **Egwyddor gyfreithiol** | **Gwerthuso** |
| 1. Ni ellir *masnachu* effaith gadarnhaol mesurau cadwraeth o dan 6(1) a mesurau ataliol o dan 6(2) i wrthbwyso neu liniaru effeithiau datblygiad arfaethedig o dan 6(3) (cyfeiriwch at baragraff 124). | Nid yw'r dull integredig yn caniatáu dibynnu ar effeithiau cadarnhaol o fesurau adfer neu gamau i osgoi dirywiad fel mesurau lliniaru ar gyfer datblygiad newydd. Yn hytrach, mae angen mesurau lliniaru pellach i sicrhau nad yw datblygiad newydd yn tanseilio cyflawni neu effeithiolrwydd camau o'r fath. |
| 2. Ni ellir defnyddio effaith gadarnhaol mesurau cadwraeth dyheadol o dan 6(1) a mesurau ataliol o dan 6(2) i awdurdodi effeithiau a allai fod yn niweidiol o ddatblygiad arfaethedig o dan 6(3) cyn iddynt gael eu gweithredu (cyfeiriwch at baragraff 123). | Mae'r dull integredig o liniaru yn gofyn am ddull cafeat polisi i sicrhau cyd-ddibyniaeth rhwng cyflawni datblygiad a chyflawni mesurau adfer neu gamau i osgoi dirywiad. |
| 3. Ni chaiff asesiad priodol ystyried unrhyw fesurau os nad yw'r manteision disgwyliedig yn sicr ar adeg asesiad (paragraff 132). | Cyfeiriwch at baragraffau 10.8.4 – 10.8.x isod. |

Gall paragraff 132 fod yn agored i'w gamddehongli ac mae angen ei ddarllen ochr yn ochr â pharagraff 126. Mae paragraff 126 yn darparu crynodeb defnyddiol o gyfraith achosion y Llys sy'n berthnasol i'r ddibyniaeth ar fesurau lliniaru o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Mae'n darllen fel a ganlyn (pwyslais wedi'i ychwanegu):

> *126 Moreover, according to the Court's case-law, <u>it is only when it is sufficiently certain that a measure will make an effective contribution to avoiding harm</u> to the integrity of the site concerned, by guaranteeing beyond all reasonable doubt that the plan or project at issue will not adversely affect the integrity of that site, that such a measure may be taken into consideration in the 'appropriate assessment' within the meaning of Article 6(3) of the Habitats Directive.'*

Mae'n amlwg felly bod y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn gofyn am ddigon o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd mesurau lliniaru yn hytrach na sicrwydd absoliwt. Mae'r sicrwydd digonol y cyfeirir ato yn ymwneud â'r graddau y bydd mesur yn cyfrannu'n effeithiol at osgoi niwed i uniondeb y safle dan sylw. Gan gyfeirio at ddyfarniad Waddenzee, mae'n rhesymol honni y gall penderfynwr fod yn ddigon sicr mewn perthynas â mesurau lliniaru lle nad oes amheuaeth wyddonol resymol o hyd y bydd y mesurau y dibynnir arnynt yn osgoi effaith andwyol ar uniondeb safle. Mae dileu amheuaeth wyddonol resymol yn drothwy uchel ond nid yw'n awgrymu bod angen sicrwydd llwyr.

Yna mae paragraff 132 o'r dyfarniad yn cyflwyno angen am sicrwydd (ar ystyr diamod) ar adeg asesiad. Gellir camddehongli'r paragraff hwn i ddadlau bod y Gyfarwyddeb yn gofyn am sicrwydd llwyr mewn perthynas â mesurau lliniaru sy'n creu tensiwn mewnol gyda pharagraff 126. Mae paragraff 132 yn darllen fel a ganlyn (pwyslais wedi'i ychwanegu):

> *132 … Article 6(3) of the Habitats Directive must be interpreted as meaning that an 'appropriate assessment' within the meaning of that provision may not take into account the existence of 'conservation measures' within the meaning of paragraph 1 of that article, 'preventive measures' within the meaning of paragraph 2 of that article, measures specifically adopted for a programme such as that at issue in the main proceedings or 'autonomous' measures, in so far as those measures are not part of that programme, if the expected benefits of those measures are not certain at the time of that assessment.*

Mae'n bosibl cysylltu'r ddau baragraff trwy ddeall beth mae'r 'sicrwydd' sy'n cael ei gyfeirio ato ym mhob achos yn ymwneud ag ef. Mae'r sicrwydd (ar ystyr diamod) sy'n ofynnol gan baragraff 132 yn ymwneud â 'buddion disgwyliedig'. Mae mesurau newydd neu rai heb eu profi, neu'r rhai lle mae ansicrwydd ynghylch a fyddant yn darparu unrhyw fudd perthnasol yn cael eu heithrio felly. Mae'r angen am sicrwydd digonol ym mharagraff 126 yn codi mewn perthynas â'r graddau y gellir dibynnu ar y buddion penodol sydd i'w cyflawni i osgoi effeithiau andwyol ar uniondeb safle. Gellir crynhoi'r ddau baragraff trwy ddod i'r casgliad

- gall asesiad priodol ystyried mesurau lliniaru dim ond lle mae sicrwydd y byddant yn fuddiol eu natur.
- Wrth gymhwyso'r prawf uniondeb, mae angen i benderfynwr fod yn ddigon sicr y bydd mesurau lliniaru yn osgoi effeithiau andwyol i uniondeb safle, dyna'r sefyllfa lle nad oes amheuaeth wyddonol resymol ynghylch absenoldeb effeithiau o'r fath.

Felly, nid yw'n gywir honni bod Dyfarniad Nitrogen yr Iseldiroedd yn gofyn am sicrwydd llwyr y bydd mesurau lliniaru yn osgoi effeithiau andwyol i uniondeb safle. Byddai sefyllfa o'r fath yn groes i'r gyfraith achosion sefydledig mewn perthynas â'r hyn y mae'n ei olygu i osgoi effeithiau andwyol i uniondeb safle, a'r angen i gael gwared ar amheuaeth wyddonol resymol, fel y nodir yn nyfarniad *Wadenzee*.

## Dyfarniad Wyatt

Mae'r dull o fynd i'r afael ag ansicrwydd wrth nodi mesurau i osgoi effeithiau andwyol o faethynnau hefyd wedi'i ystyried yn fanwl gan Lysoedd y DU yn nyfarniad *Wyatt*[63]. Wrth ystyried dadl ynglŷn â'r angen am 'sicrwydd' mewn perthynas â mesurau lliniaru, sefydlodd y Llys:

> *'the burden on the competent authority was to prove that there would be no adverse effects, not to a standard of absolute certainty, not to a standard of absolute certainty but to being "at least satisfied that there is no reasonable doubt as to the absence of adverse effects on the integrity of the site concerned". A requirement of absolute certainty would be impossible of scientific attainment as well as being disproportionate' (para 32).*

Yn hytrach, roedd y dull o liniaru a gymeradwywyd gan Natural England wedi mabwysiadu dull rhagofalus trwy gymhwyso cyfraddau rhagofalus i gyfrifiadau cyllideb maethynnau. Roedd y Llys yn credu bod dull o'r fath yn gwbl unol â'r egwyddor rhagofalus.

[63] Wyatt v Fareham BC [2021] EWHC 1434 (Admin)

*'…In my judgment, this advice is impeccable in all material respects. Mr Jones came close to submitting that, because there was scientific uncertainty, no development could properly be permitted because deleterious impacts could not logically be excluded. that is the whole point of the precautionary principle: the uncertainty is addressed by applying precautionary rates to variables, and in that manner reasonable scientific certainty as to the absence of a predicated adverse outcome will be achieved… (para 45)*

Wrth ystyried cymhwyso'r egwyddor rhagofalus fel rhan o asesiad o dan y Rheoliadau Cynefinoedd, daeth y Llys i'r casgliad:

*We are in the realm of the empirical sciences where uncertainty is inevitable. It is in order to meet this unavoidable uncertainty that the precautionary principle has been devised. The apex of Mr Jones' submission must be that uncertainty rules out any development in the Solent Region, an unattractive argument given the exigencies of the real world. By requiring the competent authority effectively to rule out, to a very high standard, the possibility of relevant harm, the requirement under both articles 6(2) and (3) of the Habitats Directive is fully satisfied. (para 105)*

Felly, mae Dyfarniad Wyatt yn cymeradwyo'r dull yn Nyfarniad Nitrogen yr Iseldiroedd nad oes angen sicrwydd absoliwt wrth werthuso effeithiolrwydd mesurau lliniaru. Holl bwynt yr egwyddor rhagofalus yw bod ansicrwydd yn cael ei ddatrys trwy gymhwyso cyfraddau rhagofalus i newidynnau. Pan fo penderfynwr yn diystyru, i safon uchel iawn, y posibilrwydd o niwed perthnasol, mae'r gofynion cyfreithiol o dan erthyglau 6(2) a (3) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn cael eu bodloni'n llawn.

# Atodiad 3: Crynodeb o'r gyfraith achosion sy'n berthnasol i'r defnydd o drothwyon

## Cyflwyniad

Mae'r atodiad hwn yn darparu crynodeb o'r gyfraith achosion bresennol ac yn nodi egwyddorion sydd wedi'u sefydlu gan y llysoedd sy'n berthnasol i'r defnydd o ddulliau sy'n seiliedig ar drothwy o dan y Rheoliadau Cynefinoedd

## Penderfyniad Wealden

Yn 2017 dyfarnodd yr Uchel Lys yn achos Wealden[64] fod cymhwyso trothwy de minimis yn yr asesiad o dwf traffig sy'n gysylltiedig â datblygiad tai, a gafodd yr effaith o osgoi'r angen am asesiad pellach cyfunol â chynlluniau a phrosiectau eraill, wedi arwain at dorri'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn glir. Roedd y ffaith na ellid cefnogi'r defnydd o'r trothwy (o dan yr amgylchiadau) ar sail resymegol ac empirig (paragraff 101) wedi achosi cryn bryder i'r Llys. Yng ngeiriau'r Llys, roedd yn 'cried out for further explanation' (paragraff 108).

Y gwerth de minimis dan sylw oedd y defnydd o drothwy 1000AADT (1000 Llifau Traffig Dyddiol Cyfartalog Blynyddol) yr oedd effeithiau traffig sy'n gysylltiedig â datblygiad tai yn ei erbyn wedi'u sgrinio o'r angen am asesiad pellach o dan y Rheoliadau Cynefinoedd, naill ai ar ei ben ei hun neu'n gyfunol. Roedd y pwysau o ran datblygiadau yn yr ardal, a'r nifer fawr o gynlluniau preswyl a oedd yn cael eu dwyn ymlaen, yn golygu bod cymhwyso trothwy o'r fath yn atal asesiad cyfunol o gynlluniau a phrosiectau y gellid rhagweld yn rhesymol eu bod yn cynrychioli risg o effaith gronnus. Mae'r rhesymeg a gymhwyswyd gan y Llys yn gadarn ac mae'n amlwg o safbwynt dull synnwyr cyffredin nad oedd y trothwy a gymhwyswyd yn briodol o ystyried amgylchiadau penodol yr achos dan sylw. Roedd y gyfradd y disgwyliwyd i gynigion datblygu gael eu dwyn ymlaen yn darparu tystiolaeth gredadwy o risg real y gallai'r effeithiau cyfunol neu'r cynigion o dan 1000AADT danseilio'r gwaith o gyflawni'r amcanion cadwraeth.

Ysgogodd y penderfyniad hwn adolygiad eang o'r dulliau a gymerwyd o sgrinio cynlluniau a phrosiectau o dan y Rheoliad Cynefinoedd. Cyn ystyried penderfyniad Wealden yn fwy manwl, mae'n berthnasol cymryd cam yn ôl i gyflwyno'r cefndir gan gyfeirio at benderfyniadau cyfraith achosion cynharach sydd wedi siapio a llywio ymagwedd gywir at y gofynion cyfunol. Gan weithio'n gronolegol, mae'r atodiad hwn yn ystyried cwestiwn seneddol y CE o 2005 cyn troi at achosion Walton (2011), Newry (2015) a dyfarniad Nitrogen yr Iseldiroedd (2018).

## Cwestiwn Seneddol y CE[65]

Mae cwestiwn seneddol y CE yn ymwneud â natur 'cynlluniau a phrosiectau eraill' yng nghyd-destun y gofynion cyfunol. Mae'n darllen fel a ganlyn:

---

[64] Wealden District Council v Secretary of State for Communities and Local Government, Lewes District Council and South Downs National Park Authority [2017] EWHC 351 (Admin)

[65] https://www.europarl.europa.eu/doceo/document/P-6-2005-0917_EN.html

> *'The Commission has stated in its published guidelines entitled 'Managing Natura 2000 Sites' that it would seem appropriate to restrict the combination provision to other plans or projects which have been actually proposed. Does the Commission have a clear position on whether the term 'actually proposed' covers only plans or projects which have the force of law?'*

Mae'r ymateb uniongyrchol i'r cwestiwn a ofynnwyd wedi'i nodi isod:

> *'The Commission does not consider that Article 6 applies only when the other plan or project has a full force of law...'*

Nid yw'r ateb a ddarparwyd yn syndod, o ystyried y ddealltwriaeth gyfredol, ond o berthnasedd i bwrpas a bwriad y darpariaethau cyfunol (mewn ystyr ehangach) wrth ddelio â'r cwestiwn a godwyd, mae'r ymateb yn parhau fel a ganlyn:

> *'…In any event, any application of what is meant by 'actually proposed' needs to take account of particular circumstances of specific cases as well as the practical feasibility of making an assessment of combined effects. The combination provision must be applied in a manner that is proportionate to the timing, planning stage and the legality of the proposed plans and projects.'*

Mae'r eglurhad pellach hwn yn rhoi mewnwelediad i fwriad a phwrpas y gofynion cyfunol. Mae'r CE yn rhagweld bod yn rhaid i gwmpas asesiad cyfunol fod yn ddichonadwy yn ymarferol; felly, mae angen i aelod-wladwriaeth fabwysiadu dull cymesur o ddehongli'r darpariaethau cyfunol.

## Achos Walton (2011)

Roedd achos Walton yn ymwneud ag apêl yn erbyn y penderfyniad a wnaed gan Weinidogion yr Alban mewn cysylltiad â Llwybr Ymylol Gorllewinol Aberdeen (AWPR). Dadleuodd yr apelyddion fod y penderfyniad yn ddiffygiol oherwydd bod yr adroddiad i lywio'r Asesiad Priodol wedi methu ag ystyried effeithiau cyfunol yn briodol. Yn yr achos hwn roedd graddfa'r cynllun ffyrdd a'r llwybr arfaethedig yn golygu, ar bapur, bod nifer fawr iawn o geisiadau cynllunio yn debygol o gael eu cyflwyno a oedd yn agos at AWPR yn nhermau daearyddol a chronolegol. Yng ngoleuni'r nifer fawr o gynlluniau a phrosiectau dan sylw, roedd yr ymgynghorwyr wedi sefydlu meini prawf a oedd wedi'u cymhwyso i nodi'r rhai oedd â'r potensial i weithredu ar sail gyfunol. Wrth ystyried y ddadl nad oedd y dull yn bodloni'r gofynion cyfunol, cyfeiriodd y Llys yn benodol at gwestiwn seneddol y CE y cyfeirir ato uchod a dyfarnodd fel a ganlyn:

> *'[decision makers] were entitled to exercise judgement as to the projects with whose effect the AWPR proposal had to be considered in-combination… As regards the in-combination point, I again accept the submission on behalf of the [decision maker]. In particular, I agree that there must be a degree of flexibility in assessing the projects with which a particular proposal should be regarded as having an in-combination effect. I can detect no*

*unreasonableness in the approach taken by the respondents and their consultants in the present case.'*[66]

Eglurodd y Llys ddwy egwyddor bwysig yma; yn gyntaf, mae gan awdurdod cymwys hawl i farnu pa gynlluniau a phrosiectau eraill i'w hystyried; yn ail, rhaid bod rhywfaint o hyblygrwydd mewn asesiad cyfunol.

## Achos Sweetman (2012)

Mae barn yr Adfocad Cyffredinol ym mhenderfyniad Sweetman[67] yn berthnasol i'r ffordd y mae'r ddarpariaeth gyfunol yn cael ei dehongli a'i chymhwyso a'r graddau y gallai dull sy'n seiliedig ar drothwy lywio'r broses o wneud penderfyniadau o dan Erthygl 6(3). Mae paragraff 48 yn nodi:

> *'The requirement that the effect in question be 'significant' exists in order to lay down a de minimis threshold. Plans or projects that have no appreciable effect on the site are thereby excluded. If all plans or projects capable of having any effect whatsoever on the site were to be caught by Article 6(3), activities on or near the site would risk being impossible by reason of legislative overkill.'*

Mae hwn yn rhybudd clir yn erbyn yr hyn y mae'r Adfocad Cyffredinol yn ei weld fel gormodedd deddfwriaethol neu, mewn geiriau eraill, dehongliad gormodol o ofynion deddfwriaethol. Roedd achos Sweetman yn ymwneud ag effeithiau ar raddfa fach ac felly roedd y potensial i effeithiau bach weithredu'n gyfunol yn ganolog i resymu sylfaenol y Llys.

Er gwaethaf yr angen i ystyried effeithiau cynnig unigol naill ai ar ei ben ei hun neu'n gyfunol â chynlluniau neu brosiectau eraill, cydnabu'r Adfocad Cyffredinol yn benodol y peryglon cynhenid pe bai'r ddarpariaeth honno yn cael ei hymestyn i bob cynllun a phrosiect sy'n gallu cael unrhyw effaith o gwbl fel bod asesiad cyfunol yn dod yn ofyniad cyfreithiol waeth beth yw maint yr effaith dan sylw neu unrhyw ymgysylltiad â'r potensial iddo weithredu'n gyfunol â chynlluniau a phrosiectau eraill mewn modd ystyrlon.

## Achos Newry (2015)

Roedd penderfyniad Newry[68] yn llysoedd Gogledd Iwerddon yn ymwneud â her yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio a'r potensial honedig ar gyfer rhyddhau gwaddodion i mewn i gwrs dŵr wrth adeiladu. Yr her oedd bod Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon (NIEA) wedi methu â chynnal asesiad cyfunol o effeithiau posibl ar AGA Carlingford Lough tua 18km i lawr yr afon o'r safle datblygu. O berthnasedd i'r ymagwedd a gymerwyd at yr asesiad cyfunol, dadleuwyd bod effeithiau'r cynnig yn ddibwys...

---

66 Walton [2011]CSOH 131 Walton & ors v The Scottish Ministers [2011] ScotCS CSOH_131 (11 Awst 2011) (bailii.org) Para75

67 Sweetman v An Bord Pleanála (C-258/11) [2014] P.T.S.R. 1092

68 2015 NIQB 65 (judiciaryni.uk)

*'Ms Reeve further explains NIEA's position by reference to the proposal's distance from the SPA, the lack of direct disturbance to the qualifying features, and the fact that "any impacts from mobilised sediment from construction works on the supporting habitat of the qualifying features will be negated as a result of the tidal nature of Carlingford Lough (the associated mixing) and distance (dilution factors)"…*

*…As a result of the matters referred to by the NIEA including the 18 km distance involved it is considered that there will be no adverse effects on the SPA. The development will not therefore contribute to any in-combination effects with other developments, including the particular developments relied upon by the Applicant.'*

Roedd NIEA wedi ymgynghori â'r corff cadwraeth natur statudol ac, gan gydnabod eu bod wedi cytuno â'r dadleuon ynghylch y potensial cynhenid ar gyfer effeithiau cyfunol (a diffyg unrhyw dystiolaeth gredadwy bod y risg yn real), daeth y llys i'r casgliad ym mharagraff 64:

*'I am in agreement with the [NIEA] that these are matters of expert judgment which cannot legitimately be condemned as unreasonable. Furthermore…the decision maker was entitled in the circumstances to accept and act upon the independent expert view of the statutory consultee.'*

Mae'r penderfyniad hwn yn berthnasol gan ei fod yn sefydlu'r egwyddor bwysig bod gan benderfynwr hawl i ddileu'r angen i gynnal asesiad cyfunol ar sail barn broffesiynol, gan ystyried cyngor gan y corff cadwraeth natur statudol. Yn sicr, ni ellir condemnio dull o'r fath o gymhwyso'r darpariaethau cyfunol fel rhai sy'n afresymol ar sail gyfreithiol.

Wrth ystyried yr honiad bod yr asesiad wedi methu â nodi a oedd prosiectau eraill yn cael eu hystyried fel rhan o'r asesiad cyfunol angenrheidiol, ac os felly, i ba raddau, mynegodd y Llys farn (paragraff 65) ei bod yn berthnasol cofio'r rhesymeg yn achos Boggis (a oedd wedi sefydlu egwyddor, a dderbynnir yn gyffredinol erbyn hyn, bod rhaid i unrhyw drydydd parti sy'n honni bod risg y dylid fod wedi'i hystyried, gynhyrchu 'credible evidence that there was a real, rather than a hypothetical, risk'). Cymhwysodd y Llys y rhesymeg hon i'r gofyniad a nodwyd i gynnal asesiad cyfunol pan fydd penderfynwr o'r farn na fydd yr effeithiau 'ar eu pennau eu hunain' yn cyfrannu at unrhyw effeithiau cyfunol â datblygiadau eraill mewn modd ystyrlon. Daeth paragraff 66 i'r casgliad canlynol:

*'at no stage… did the applicant put forward credible evidence that there was a real, rather than a hypothetical risk which should have been taken into account.*

Mae hwn yn benderfyniad hollol synhwyrol a phragmataidd. Yn ddamcaniaethol, dylai asesiad pob cynllun neu brosiect, gyda hyd yn oed yr effaith leiaf, hefyd gynnwys asesiad cyfunol â chynlluniau a phrosiectau eraill. Fodd bynnag, byddai gwneud hynny yn creu dull rhy feichus a gormodol a rhybuddiwyd yn erbyn hynny gan yr Adfocad Cyffredinol Sharpston yn achos Sweetman y cyfeirir ato yn 2.5 uchod.

## Yn ôl at Wealden

Mae dyfarniad Wealden yn arwyddocaol, ond mae angen ei ddarllen a'i ddehongli yng ngoleuni egwyddorion eraill, sefydledig. Edrych yn ôl dros y penderfyniadau cynharach sydd wedi llywio ein dealltwriaeth o effeithiau cyfunol.

Wrth ddyfarnu yn erbyn y defnydd o'r trothwy 1000AADT, nid oedd unrhyw beth ym mhenderfyniad Wealden yn awgrymu bod y defnydd o ddull sy'n seiliedig ar drothwy yn annerbyniol mewn egwyddor. Yn wir, roedd paragraff 95 yn cydnabod yn benodol 'if it is known that specific impacts are very low indeed, or are likely to be such, these can properly be ignored' (pwyslais wedi'i ychwanegu).

## Dyfarniad Nitrogen yr Iseldiroedd (2018)

Yn dilyn penderfyniad Wealden, yn 2018 cyhoeddodd Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (CJEU) eu dyfarniad mewn perthynas ag achos y cyfeirir ato'n gyffredin fel Dyfarniad Nitrogen yr Iseldiroedd[69]. Roedd yr achos hwn yn darparu arweiniad ar gyfer dyfarniad rhagarweiniol gan y llysoedd domestig yn yr Iseldiroedd mewn perthynas â rhestr eang o gwestiynau. Nid yw dadansoddiad llawn o'r penderfyniad yn briodol ond mae un cwestiwn yn arbennig o berthnasol i gyfreithlondeb y defnydd o drothwyon i lywio'r broses o wneud penderfyniadau o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

Pwynt allweddol a gydnabuwyd gan y Llys oedd, lle mae statws cadwraeth cynefin dynodedig yn anffafriol, bod y posibilrwydd o awdurdodi gweithgareddau pellach a fydd yn ychwanegu llwyth llygryddion 'o reidrwydd yn gyfyngedig'.  Aeth y Llys ymlaen fodd bynnag i ymdrin â chwestiwn o ddiddordeb i'r defnydd o drothwyon a grynhowyd gan y Llys fel a ganlyn (paragraff 105):

> *'whether Article 6(3) of the Habitats Directive must be interpreted as precluding national programmatic legislation, such as that at issue in the main proceedings, exempting certain projects which do not exceed a certain threshold or limit value in terms of nitrogen deposition from the requirement for individual approval, since the cumulative effects of all plans and projects likely to create such deposition were subject in advance to an 'appropriate assessment' within the meaning of Article 6(3)'.*

Wrth ymateb i'r cwestiwn, mae paragraff 112 yn nodi'n glir bod cymhwyso trothwyon neu werthoedd terfyn, mewn egwyddor, yn dderbyniol o dan y Gyfarwyddeb. Mae'n nodi:

> *'Article 6(3) of the Habitats Directive must be interpreted as not precluding national programmatic legislation, such as that at issue in the main proceedings, exempting certain projects which do not exceed a certain threshold value or a certain limit value in terms of nitrogen deposition from the requirement for individual approval…'.*

Fodd bynnag, nid dyna yw diwedd yw paragraff 112. Mae'n parhau i nodi'n benodol y meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn galluogi dibyniaeth ar ddull trothwy o'r fath. Mae'n parhau...

> *'…if the national court is satisfied that the 'appropriate assessment' within the meaning of that provision, carried out in advance, meets the criterion that there is no reasonable scientific doubt as to the lack of adverse effects of those plans or projects on the integrity of the sites concerned.'*

[69] CLEU Achosion wedi'u Cyfuno C-293/17 a C-294/17 Cooperatie Mobilisation v Stitchting Werkgroep Behoud de Peel, 7 Tachwedd 2018

Mae derbynioldeb trothwyon mewn egwyddor yn adlewyrchu Barn yr Adfocad Cyffredinol yn Sweetman (y cyfeiriwyd ato eisoes) bod ‘the requirement that the effect in question be ‘significant’ exists in order to lay down a de minimis threshold. Plans or projects that have no appreciable effect on the site are thereby excluded.’ Ar ben hynny, mae'n dilysu'r ymagwedd a gymerwyd gan yr Uchel Lys ym mhenderfyniad Wealden bod angen cefnogi'r defnydd o'r trothwy 'on logical and empirical grounds'.